Hawliau Plant Cymru
Children's Rights Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

# Rhestr o faterion cyn cyflwyno chweched a seithfed adroddiad cyfun Deyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon






Adroddiad Cymru Medi 2022

# Cynnwys

**Mae'r adroddiad ar Restr o Faterion cyn Adrodd (LOIPR) Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn darparu cwestiynau i Wladwriaeth y DU sy'n barti am feysydd datganoledig ac annatganoledig.**

**Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y meysydd polisi y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdanynt.**


**4** **Cyflwyniad**

**5** **Rhagair y Gweinidog**
Julie Morgan AS, Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**7** **Datblygiadau Newydd**

**15** **Hawliau'r Confensiwn a'r Protocolau Dewisol**

**15** A. Mesurau gweithredu cyffredinol (erthyglau 4, 42 a 44 (6))
- Cymalau cadw a deddfwriaeth
- Polisi, strategaeth a chydlynu cynhwysfawr
- Dyrannu adnoddau
- Casglu data
- Lledaenu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth
- Hawliau plant a'r sector busnes

**26** C. Egwyddorion cyffredinol (erthyglau 2, 3, 6 a 12)
- Dim gwahaniaethu
- Hawl i fywyd a goroesi
- Parchu safbwyntiau'r plentyn

**38** C. Hawliau a rhyddidau sifil (erthyglau 7, 8 a 13–17)
- Rhyddid mynegiant, crefydd, cymdeithas ac ymgynnull heddychlon
- Hawl i breifatrwydd
- Mynediad at wybodaeth briodol

43 D. Trais yn erbyn plant (erthyglau 19, 24 (3), 28 (2), 34, 37 (a) a 39)
Artaith a thriniaeth neu gosb greulon neu ddiraddiol arall
Cosb gorfforol
Rhyddid y plentyn rhag pob math o drais
Arferion niweidiol

54 E. Amgylchedd teuluol a gofal amgen (erthyglau 5, 9–11, 18 (1) a (2), 20, 21, 25 a 27 (4))
Amgylchedd teuluol
Plant wedi'u hamddifadu o amgylchedd teuluol

60 F. Iechyd a lles sylfaenol (erthyglau 6, 18 (3), 24, 26, 27 (1)–(3) a 33)
Iechyd a gwasanaethau iechyd
Safon byw
Effaith newid yn yr hinsawdd ar hawliau'r plentyn

73 G. Addysg, hamdden a gweithgareddau diwylliannol (erthyglau 28–31)
Addysg

81 H. Mesurau amddiffyn arbennig (erthyglau 11, 20, 32, 33, 35, 36, 37 (b)–(d) a 38–40)
Plant sy'n ceisio lloches, plant sy'n ffoaduriaid a phlant mudol
Gweinyddu cyfiawnder i blant

87 I. Protocol Dewisol ar werthu plant, puteindra plant a phornograffi plant

OGL © Hawlfraint y Goron 2022, Llywodraeth Cymru, WG45589, ISBN digidol 978-1-80364-864-4
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

# Cyflwyniad

Cyhoeddodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn LOIPR chweched a seithfed adroddiad cyfun Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon ym mis Chwefror 2021. Cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ei hadroddiad mewn ymateb i'r Rhestr o faterion ar 15 Gorffennaf 2022.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r cyfle i gyhoeddi trosolwg o gynnydd. Mae adroddiad LOIPR Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn cynnwys argymhellion ar feysydd datganoledig ac annatganoledig. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y meysydd polisi y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdanynt.



# Rhagair



**Julie Morgan AS**

Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac rwy'n croesawu'r cyfle i gyhoeddi adroddiad Cymru sy'n ymdrin â Rhestr o Faterion Cyn Adrodd 2021 gan y Cenhedloedd Unedig.**

Rwyf am i Gymru fod yn lle gwych i dyfu i fyny, byw a gweithio ynddo, lle mae pob plentyn a pherson ifanc yn cael ei werthfawrogi. Ym mis Mawrth eleni, cyhoeddais ein Cynllun Plant a Phobl Ifanc, sy'n seiliedig ar CCUHP. Mae'n nodi saith blaenoriaeth drawslywodraethol ac ymrwymiad i gyhoeddi adroddiad cynnydd blynyddol.

Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddais fersiwn wedi'i diweddaru o'r Cynllun Hawliau Plant, sy'n nodi trefniadau diwygiedig i barhau â'r gwaith o ymgorffori hawliau plant yn Llywodraeth Cymru.

Yn ystod y cyfnod adrodd, bu nifer o gyflawniadau deddfwriaethol pwysig hefyd a nodir yn yr adroddiad hwn. Un o'r cyflawniadau allweddol yw Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020, a ddaeth i rym ar 21 Mawrth 2022. Mae'r ddeddf newydd hon yn diogelu hawliau plant drwy wahardd pob math o gosb gorfforol i blant, rhywbeth y bûm yn ymgyrchu drosto ers amser maith.

Rwy'n ymwybodol iawn fod yr adroddiad hwn wedi'i lunio yng nghyd-destun pandemig COVID-19, Brexit a'r argyfwng costau byw. Ni ddylid diystyru effaith pandemig COVID-19 ar blant a phobl ifanc ac mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion y nifer mawr o gamau a gymerwyd gennym fel Llywodraeth i gefnogi plant a phobl ifanc.



# Datblygiadau Newydd

**Gwelwyd nifer o gyflawniadau sylweddol yn ystod y cyfnod adrodd.**

> **3A** – The Committee requests the State party to provide:
>
> (a) Information on the adoption or reform of laws, policies and programmes, and any other type of measures taken, such as the creation or reform of institutions, that are significant for the implementation of the Convention, the Optional Protocol on the involvement of children in armed conflict and the Optional Protocol on the sale of children, child prostitution and child pornography;

## Cosb Gorfforol: Stopio Cosbi Corfforol yng Nghymru

Cafodd Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 Gydsyniad Brenhinol ar 20 Mawrth 2020 a daeth i rym ar 21 Mawrth 2022. Nod cyffredinol y Ddeddf, sy'n gyson ag erthygl 19 CCUHP, yw diogelu hawliau plant drwy wahardd pob math o gosb gorfforol i blant. O ganlyniad i'r ddeddfwriaeth hon, mae gan blant yr un amddiffyniad cyfreithiol ag sydd gan oedolion rhag ymosodiad. Mae'r gwaith o roi'r ddeddfwriaeth ar waith, sy'n dal i fynd rhagddo, yn cael ei gyflawni gyda rhanddeiliaid allweddol drwy Grŵp Gweithredu Strategol amlasiantaethol a grwpiau gorchwyl a gorffen cysylltiedig.

## Gostwng yr oedran pleidleisio: Ymestyn hawliau pleidleisio i bobl ifanc 16-17 oed yng Nghymru

Mae'r etholfraint yng Nghymru wedi'i hymestyn i bobl ifanc 16-17 oed drwy Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ar gyfer etholiadau Senedd Cymru ac etholiadau llywodraeth leol. Roedd yr etholfraint iau mewn grym ar gyfer etholiadau Senedd Cymru 2021 ac etholiadau llywodraeth leol 2022.

Drwy'r broses ddeddfwriaethol, ceisiwyd barn pobl ifanc drwy ymgynghori. Dangosodd adborth fod pobl ifanc am gael rhagor o gymorth i ymgysylltu â'r broses wleidyddol a sefydliadau democrataidd. Bu Rhaglen Adnewyddu Ymgysylltiad Democrataidd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i gefnogi ymgysylltiad democrataidd dinasyddion Cymru e.e. gweithwyr ieuenctid, ysgolion a sefydliadau yn y trydydd sector.

Pleidleisiodd pobl ifanc 16-17 oed am y tro cyntaf yn Etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021. Cofrestrodd tua 54% o bobl ifanc i bleidleisio cyn yr etholiadau hyn. Cymerodd pobl ifanc 16-17 oed ran hefyd mewn etholiadau a gynhaliwyd ym mis Mai 2022.

## Ymgorffori dull ysgol gyfan ar gyfer iechyd meddwl a llesiant

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau statudol newydd i ysgolion ar ddatblygu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol. Diben y canllawiau yw helpu ysgolion i ddatblygu a sefydlu eu dull ysgol gyfan cyson a theg eu hunain ar gyfer llesiant er mwyn diwallu anghenion poblogaeth yr ysgol gyfan, gan gydnabod mai dim ond mewn amgylchedd lle mae pawb yn ymgysylltu y gall dysgu effeithiol ddigwydd.

Er mwyn help i'w rhoi ar waith, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £9m yn 2022/23. Mae'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2022-23 i 2024-25 yn dangos cynnydd o flwyddyn i flwyddyn, sy'n golygu y bydd y cyllid yn cynyddu i £16.6m erbyn 2024-25.

Yn 2022/23, mae cyllid wedi'i ddefnyddio er mwyn helpu awdurdodau lleol i wneud y canlynol:

- darparu ymyriadau cyffredinol ac ymyriadau wedi'u targedu i blant mewn ysgolion;
- helpu i roi hyfforddiant i athrawon a staff ysgol eraill ar eu llesiant eu hunain a llesiant plant;
- ymestyn a gwella'r gwasanaeth cwnsela statudol mewn ysgolion ac yn y gymuned, sy'n gweld tua 11,500 o blant a phobl ifanc bob blwyddyn, gydag arian hefyd yn cael ei ddefnyddio i ymestyn cymorth 'sy'n addas i'r oedran' i blant islaw'r trothwy presennol, sef Blwyddyn 6.

## Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (y Ddeddf) a'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r rheoliadau cysylltiedig, yn darparu'r system statudol ar gyfer diwallu anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn darparu dull gweithredu mwy cynhwysol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n sicrhau bod barn, dymuniadau a theimladau dysgwyr wrth wraidd y broses o gynllunio'r cymorth sydd i angen i'w galluogi i ddysgu'n effeithiol a chyflawni eu potensial llawn. Mae egwyddorion CCUHP a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRDP) yn cael eu gweithredu yn y Ddeddf a'r Cod ADY. Felly, wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf, mae awdurdodau lleol a chyrff iechyd yn debygol o fod yn gweithredu erthyglau perthnasol o dan y Confensiwn. Er mwyn ymgorffori'r hawliau o dan y confensiynau hynny ymhellach, mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswyddau penodol ar awdurdodau lleol a chyrff y GIG i roi sylw dyledus i'r confensiynau. Mae'r Cod ADY yn cynnwys pennod sy'n ymdrin â'r dyletswyddau hyn. Mae'n nodi'r hyn sydd ei angen i gyflawni'r dyletswyddau ac yn rhoi rhagor o arweiniad yn eu cylch.

Caiff pob plentyn ei symud i'r system ADY newydd rhwng mis Medi 2021 a mis Medi 2024.

Amcanion y Ddeddf yw creu:

- fframwaith deddfwriaethol unedig er mwyn cefnogi pob plentyn o oedran ysgol gorfodol neu'n iau sydd ag ADY a phobl ifanc ag ADY yn yr ysgol neu mewn addysg bellach;
- proses asesu, cynllunio a monitro integredig a chydweithredol sy'n hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol;
- system deg a thryloyw ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor a datrys pryderon ac apeliadau.

Ers 2018, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu pum Arweinydd Trawsnewid ADY rhanbarthol i roi cyngor a chymorth a herio er mwyn paratoi awdurdodau lleol a sefydliadau addysg ar gyfer rhoi'r system newydd ar waith drwy hunanasesiadau o barodrwydd a datblygu cynlluniau gweithredu lleol. Er mwyn datblygu'r gweithlu ADY, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu pecyn helaeth o hyfforddiant, datblygu sgiliau craidd a datblygiad proffesiynol parhaus i bob ymarferydd. Mae hefyd wedi ariannu hyfforddiant proffesiynol seicolegwyr addysgol yng Nghymru er mwyn helpu i sicrhau cyflenwad o gapasiti arbenigol yn y sector.

Mae llwyddiant y dull hwn o weithredu wedi cynyddu hyder y sector i gyflwyno Rhaglen Weithredu Genedlaethol a'i datblygu yn seiliedig ar wybodaeth. Caiff y rhaglen ei chyflwyno ar y cyd ag arweinwyr gweithredu cenedlaethol a grŵp llywio gweithredu ADY er mwyn rhoi cymorth parhaus i'r sector a pharhau â'r broses o drawsnewid i weithredu.

## Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2020

Ym mis Medi 2022, caiff y cwricwlwm newydd ei addysgu mewn ysgolion yng Nghymru. Gosodwyd dyletswydd ar gyrff llywodraethu a phenaethiaid ysgolion a meithrinfeydd a

gynhelir i hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o CCUHP a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNRPD) i'w staff addysgu.

Bydd y ddyletswydd yn helpu staff addysgu i brif ffrydio hawliau plant yn eu harferion addysgu bob dydd wrth lunio a chyflwyno eu cwricwlwm.

Mae athroniaeth a phwysigrwydd CCUHP hefyd wedi'u hymgorffori ym mhob rhan o'r cwricwlwm newydd ym Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh) y Dyniaethau, gan amlinellu'r angen i ddysgwyr ddeall eu hawliau ac ymgysylltu â'r cysyniad o hawliau yn fwy cyffredinol.

**3B** – Information on measures taken to ensure the protection of the rights of children in the context of the coronavirus disease (COVID-19) pandemic and to mitigate the adverse impacts of the pandemic, in view of the statement of the Committee of 8 April 2020 on the effects of the COVID-19 pandemic on children;

## Effaith COVID-19 ar Fabanod, Plant a Phobl Ifanc

Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith negyddol ar fywydau'r plant a'r teuluoedd mwyaf agored i niwed a difreintiedig. Mae'r adran hon yn nodi ein dull o gefnogi'r sectorau/rhanddeiliaid canlynol:

- Y blynyddoedd cynnar
- Ysgolion
- Rhieni
- Cymorth uniongyrchol i deuluoedd
- Gwrando ar leisiau plant a phobl ifanc yn ystod y pandemig.

### Rhaglen Plant Iach Cymru

Mae Rhaglen Plant Iach Cymru yn nodi'r sesiynau cyswllt a drefnir y gall plant a'u rheini eu disgwyl gan fyrddau iechyd, wrth drosglwyddo gwasanaeth mamolaeth i'r blynyddoedd cyntaf yn yr ysgol (0-7 oed).

Daeth pandemig y Coronafeirws â heriau nas gwelwyd o'r blaen i blant, teuluoedd a'r gwasanaethau sy'n eu cefnogi. Cynhaliwyd amrywiaeth o gysylltiadau allweddol fel rhan o Raglen Plant Iach Cymru er mwyn sicrhau bod pob teulu yn cael ei gefnogi yn ystod y cyfnod hwn. Nododd Llywodraeth Cymru, nes iddynt gael eu hysbysu fel arall, y dylai byrddau iechyd weithredu yn unol â'r egwyddorion canlynol:

- Sicrhau ymweliadau asesu ar ôl 10-14 diwrnod i bob teulu, y cysylltiad â'r cartref (ymweliad â'r cartref neu dros y ffôn) i'w benderfynu drwy ddefnyddio barn broffesiynol yn seiliedig ar wybodaeth sydd ar gael am amgylchiadau'r teulu.
- Sicrhau y dilynir prosesau casglu data presennol.
- Bod cysylltiad (6 wythnos) archwiliad corfforol gofal sylfaenol (meddyg teulu) i barhau Sicrhau y dilynir prosesau casglu data presennol.
- Parhau i gynnal y cysylltiad 6 mis yn y cartref/canolfan/dros y ffôn, gan sicrhau bod prosesau casglu data presennol yn cael eu dilyn. Y cysylltiad â'r cartref i'w benderfynu gan ddefnyddio barn broffesiynol yn seiliedig ar wybodaeth sydd ar gael am amgylchiadau'r teulu.
- Sicrhau y dilynir prosesau casglu data presennol.
- Parhau i ddarparu brechiadau arferol. Y Tîm Ymweliadau Iechyd a Nyrsys Ysgol i helpu i ddarparu gwasanaeth i'w benderfynu'n lleol.
- Cymorth parhaus i deuluoedd y nodwyd bod ganddynt anghenion o ran diogelu neu anghenion ychwanegol/dwys. Yn yr achosion hyn, bydd yr holl gysylltiadau arferol yn gymwys. Y cysylltiad â'r cartref i'w benderfynu gan ddefnyddio barn broffesiynol yn seiliedig ar wybodaeth sydd ar gael am amgylchiadau'r teulu.

Gallai pob teulu a oedd yn pryderu am ei blant gysylltu â'i ymwelydd iechyd o hyd i gael cyngor.

## Y Gronfa Datblygiad Plant a Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu

Sefydlwyd y Gronfa Datblygiad Plant er mwyn rhoi cymorth ychwanegol i blant a theuluoedd yr effeithiodd y cyfyngiadau symud a osodwyd o ganlyniad i bandemig COVID-19 arnynt fwyaf, er mwyn mynd i'r afael â phryderon ynghylch oedi mewn datblygiad, mewn meysydd megis lleferydd, iaith a chyfathrebu, sgiliau echddygol manwl a bras a datblygiad personol a chymdeithasol.

Wrth sicrhau na chaiff yr un teulu ei adael ar ôl o ganlyniad i'r pandemig, dyrannodd Llywodraeth Cymru hyd at £18.5m i awdurdodau lleol ledled Cymru rhwng mis Hydref 2020 a mis Mawrth 2023 er mwyn eu helpu i ateb y galw am gymorth datblygu ychwanegol oherwydd effaith y cyfyngiadau diogelu iechyd a delio â chynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau oherwydd pwysau a wynebwyd o ganlyniad i bandemig COVID-19. Mae'r gronfa wedi'i thargedu at blant 0-5 oed er mwyn helpu i wella'r ffordd y darperir gwasanaethau a mynd i'r afael â phryderon ynghylch oedi mewn datblygiad mewn meysydd megis iaith, lleferydd a chyfathrebu, sgiliau echddygol a bras a datblygiad personol a chymdeithasol, gan sicrhau bod plant a theuluoedd yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i ffynnu a chyflawni eu potensial llawn.

Er mwyn lleihau rhestrau aros a darparu cymorth amserol i blant, pobl ifanc a'r rhai sydd newydd ddod yn agored i niwed, dyrannodd Llywodraeth Cymru hyd at £14m hefyd ar gyfer rhaglen Cymorth Cynnar. Helpodd y cyllid hwn i atgyfnerthu gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu gan raglenni Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf.

## Mentrau rhyngweithiol, mentrau creadigol a mentrau'n seiliedig ar chwarae i blant a phobl ifanc o bob oed

Darparwyd £5m yn 2021-22 er mwyn helpu i ddarparu mentrau rhyngweithiol, mentrau creadigol a mentrau'n seiliedig ar chwarae i blant a phobl ifanc 0-25 oed er mwyn helpu i gefnogi eu llesiant cymdeithasol, emosiynol, corfforol a meddyliol yn ystod yr haf drwy raglen Haf o Hwyl. Nododd y gwerthusiad annibynnol o Haf o Hwyl 2021 fod mwy na 67,500 o blant a phobl ifanc ledled Cymru wedi cymryd rhan yn y rhaglen. Roedd bron i hanner yr holl ddarparwyr wedi cynnig gweithgareddau i deuluoedd ochr yn ochr â gweithgareddau i blant a phobl ifanc.

Darparwyd £20m hefyd ar gyfer gweithgareddau tebyg dros y gaeaf drwy fenter Gaeaf Llawn Lles. Disgwylir i werthusiad annibynnol o Gaeaf Llawn Lles gael ei gynnal ar ddiwedd 2022.

Mae £7m arall wedi'i ddyrannu er mwyn cefnogi Haf o Hwyl yn 2022, a fydd unwaith eto yn cynnwys cymysgedd o weithgareddau chwaraeon a hamdden, gweithgareddau diwylliannol a gweithgareddau seiliedig ar chwarae a ddarperir i blant a phobl ifanc 0-25 oed.

## Ysgolion

Drwy gydol y pandemig, sicrhaodd Llywodraeth Cymru fod llesiant dysgwyr wrth wraidd ei phrosesau gwneud penderfyniadau; gyda thrafodaethau ynghylch ysgolion ac addysg yn cael eu cynnal yn unol â'r cyngor iechyd y cyhoedd diweddaraf. Defnyddiwyd ysgolion i gefnogi plant gweithwyr hanfodol a'r plant mwyaf agored i niwed a buddsoddwyd mewn gwasanaethau cwnsela a chymorth iechyd meddwl, gan gynnwys rhoi arian i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion a recriwtio cwnselwyr ychwanegol. At hynny, datblygodd Llywodraeth Cymru ganllawiau newydd ac adnoddau ar-lein ar gyfer iechyd meddwl er mwyn helpu i ddelio â phroblemau ychwanegol a achoswyd gan y Coronafeirws.

Gwnaeth ysgolion yng Nghymru ymdrech enfawr i sicrhau bod pob myfyriwr yn parhau i ddysgu hyd yn oed pan oedd ysgolion ar gau. Roedd Cymru ar flaen y gad o ran dysgu o bell, gyda phob ysgol a gynhelir yn gallu manteisio ar amrywiaeth o offer ac adnoddau digidol er mwyn cefnogi dysgu o bell. Er mwyn cefnogi hyn, rhoddodd Llywodraeth Cymru fwy na 185,000 o ddyfeisiau i ysgolion er mwyn cefnogi addysgu a dysgu yn yr ystafell ddosbarth, y gellid eu defnyddio i gefnogi dysgwyr â darpariaeth dysgu o bell. At hynny, darparwyd mwy na 10,000 o ddyfeisiau MiFi 4G er mwyn cefnogi dysgwyr a oedd wedi'u hallgáu'n ddigidol.

Rhoddodd Llywodraeth Cymru:

- £83.3m yn ychwanegol i ddarparu prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau'r ysgol ac i'r dysgwyr hynny na allent fynd i'r ysgol o ganlyniad i'r pandemig
- £4.85m er mwyn ariannu bwyd a gweithgareddau ymgysylltu llawn hwyl fel rhan o Raglen Gwella Gwyliau'r Haf.

Wrth i ysgolion ddechrau ddychwelyd i weithrediadau arferol ac wrth i sylw yng Nghymru droi at ein rhaglen adfer, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflogi 1,800 o athrawon a chynorthwywyr addysgu ychwanegol fel aelodau ychwanegol o staff cymorth er mwyn helpu ein plant i ddysgu a datblygu yn y dyfodol.

## Cymorth i rieni

Roedd cefnogi rhieni yn rhan allweddol o ymgyrch Magu Plant. Rhowch Amser Iddo yr oedd ei ffocws wedi'i ailbennu. O fis Mai 2020 ymlaen, cafodd yr ymgyrch ei chynnal o dan ymbarél newydd, sef "Cadw'n Ddiogel. Cadw'n Bositif", a gweithiodd gyda phartneriaid i roi cyngor a chymorth i rieni yn ystod y cyfyngiadau symud, gan gynnwys datblygu adnoddau newydd gydag arbenigwyr yn y maes megis awgrymiadau defnyddiol i rieni a phobl ifanc, a chymorth gyda phryder gwahanu wrth i blant ddychwelyd i ofal plant a'r ysgol ar ôl y cyfnod estynedig yr oedd llawer ohonynt wedi'i dreulio gartref.

Ym mis Tachwedd 2020, lansiwyd ymgyrch 'ParentingMoments'. Mae ymgyrch Magu Plant. Rhowch Amser Iddo wedi parhau i ddatblygu ac, ym mis Tachwedd 2021, aeth gwefan wedi'i diweddaru yn fyw â gwybodaeth, cyngor a chymorth i rieni a phlant hyd at 18 oed (0-7 oed yn wreiddiol).

## Cronfa Cymorth Dewisol

Darparodd Llywodraeth Cymru gymorth ariannol ychwanegol i aelwydydd drwy ddyrannu £14.9m ychwanegol yn 2020/21 a £14.7m yn 2021/22 a helpodd i ateb y galw cynyddol am gymorth a chefnogi'r penderfyniad i lacio'r terfyn uchaf ar nifer yr hawliadau a oedd yn cael eu dyfarnu o'r Gronfa Cymorth Dewisol.

Fel rhan o gyllideb derfynol 2022/23, mae £15m arall wedi'i ddarparu ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol gan sicrhau bod mwy o bobl yn cael cymorth ariannol brys pan fo ei angen arnynt.

## Cyllid ar gyfer banciau bwyd

Ers 2019, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £14.84m i fynd i'r afael â thlodi bwyd. Mae sefydliadau wedi cael cymorth i sicrhau a storio cyflenwadau ychwanegol o fwyd o ansawdd da a'u dosbarthu i'w cwsmeriaid.

Mae buddsoddiad hefyd wedi helpu i ddatblygu seilwaith cadarn er budd hirdymor cymunedau. Mae'r cyllid wedi helpu grwpiau cymunedol i ddatblygu prosiectau megis archfarchnadoedd cymdeithasol, caffis cymunedol, clybiau cinio a dosbarthiadau coginio cymunedol. Mae hefyd wedi helpu i brynu cyfarpar megis oergelloedd, rhewgelloedd ac offer coginio.

Mae prosiectau wedi helpu i feithrin cadernid cymunedau drwy gydleoli amrywiaeth o wasanaethau cymorth megis cyngor ar ddyled a thai, yn seiliedig ar ddarpariaeth bwyd gymunedol.

## Gwrando ar leisiau plant a phobl ifanc yn ystod y pandemig

Cydweithiodd Llywodraeth Cymru â Chomisiynydd Plant Cymru, Plant yng Nghymru a Senedd Ieuenctid Cymru er mwyn cynnal dau arolwg Coronafeirws a Fi cenedlaethol o blant a phobl ifanc. Gyda mwy na 43,000 o ymatebion, rhoddodd gyfle i blant a phobl ifanc roi eu barn am effaith y pandemig ar amrywiaeth o faterion megis eu hiechyd, eu haddysg ac agweddau cymdeithasol ar eu bywydau.

Lluniwyd yr adroddiadau canlynol hefyd er mwyn tynnu sylw at anghenion grwpiau penodol o blant a phobl ifanc:

- Profiadau plant o dan 7 oed
- Profiadau pobl ifanc 15-18 oed
- Profiadau plant anabl
- Profiadau plant o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol

Gwnaeth Llywodraeth Cymru ddefnydd helaeth o ganlyniadau'r arolygon wrth gynnal asesiadau o'r effaith ar hawliau plant – gan gynnwys ar fesurau COVID-19.

Er mwyn ategu'r arolwg a sicrhau bod Gweinidogion yn clywed yn uniongyrchol gan blant a phobl ifanc, cynhaliwyd cyfarfodydd rhithwir rheolaidd hefyd rhwng pobl ifanc, y Prif Weinidog ac Aelodau unigol o'r Cabinet.

**3C** – Information on measures taken to ensure that the State party's withdrawal from the European Union, as well as the loss of related funding, do not have an adverse impact on children's rights, and in ensuring that the principle of the best interests of the child is reflected in all legislative and policy matters and judicial decisions affecting children;

Mae Llywodraeth y DU wedi methu â chadw ei haddewid i ddarparu cyllid cyfatebol llawn yn lle cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi'r UE, gyda Chymru fwy na £1 biliwn ar ei cholled[1]. Roedd y cronfeydd hyn yn cefnogi buddsoddiad mewn rhaglenni cenedlaethol gan gynnwys prentisiaethau a chymorth i fusnesau a rhaglenni a oedd yn cael eu cyflwyno gan sectorau eraill, gan gynnwys cymorth i blant nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant (NEET).

Bydd awdurdodau lleol yng Nghymru bellach yn cael hyd at £585m dros dair blynedd o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, gyda £101m o'r swm hwnnw wedi'i glustnodi er mwyn cyflwyno cynllun rhifedd oedolion Llywodraeth y DU a elwir yn Multiply.

## Taith: Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu

Yng Nghymru, mae rhaglen Taith yn ceisio creu cyfleoedd newydd yn lle'r rhai a oedd ar gael yn flaenorol drwy raglen Erasmus+. Bydd £65m yn ariannu 15,000 o gyfleoedd symudedd allan o'r wlad a 10,000 o gyfleoedd symudedd i mewn i'r wlad i ddysgwyr a staff ac mae ar gael drwy bob darparwr addysg, gan gynnwys Ieuenctid, Addysg Oedolion, Addysg Bellach, Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol ac Addysg Uwch. Mae Cynllun Turing, a weithredir gan Lywodraeth y DU, hefyd yn disodli rhai o weithgarwch Erasmus+ – yn benodol gweithgarwch allan o'r wlad i ddysgwyr. Nid yw'n disodli unrhyw weithgarwch i bobl ifanc mewn lleoliadau gwaith ieuenctid.

1 Datganiad Ysgrifenedig: Colli cyllid i Gymru o ganlyniad i drefniadau Llywodraeth y DU ar gyfer cyllid i ddisodli cyllid UE (4 Mai 2022) | LLYW.CYMRU

**4** – The Committee requests the State party to provide information on how a child rights based approach is integrated into the planning, implementation, monitoring and evaluation of measures for achieving the Sustainable Development Goals, including with regard to child participation and data collection, and how such measures promote the realization of children's rights under the Convention and the Optional Protocols thereto.

Yng Nghymru, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn darparu dull gweithredu cynhwysfawr o ymdrin â datblygu cynaliadwy sy'n adlewyrchu fframwaith Nodau Datblygu Cynaliadwy Agenda 2030 ac yn cefnogi CCUHP ac ymrwymiadau i gynnwys plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Mae'r fframwaith mesur ar gyfer llesiant Cymru yn cynnwys 50 o ddangosyddion llesiant ac Adroddiad blynyddol Llesiant Cymru sy'n cynnwys data ar blant ac agweddau cysylltiedig. Yn 2018, cyhoeddwyd adroddiad ar wahân ar lesiant plant ochr yn ochr â'r prif adroddiad llesiant. Caiff yr adroddiad nesaf ei ddiweddaru ym mis Medi 2022 a chaiff adroddiad llesiant plant wedi'i ddiweddaru ei gyhoeddi hefyd.

Mae gan bob dangosydd cenedlaethol ei dudalen ryngweithiol ei hun ar y dangosfwrdd dangosyddion cenedlaethol a chânt eu diweddaru pan fydd data newydd ar gael. Adolygwyd y set o ddangosyddion cenedlaethol yn 2021. Fel rhan o'r broses hon, ymgorfforwyd sicrhau hawliau plant, ceisiwyd mewnbwn gan Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant Llywodraeth Cymru a gwahoddwyd Comisiynydd Plant Cymru i ymateb i'r ymgynghoriad ffurfiol. Ceisiwyd barn panel o bobl ifanc hefyd er mwyn sicrhau eu bod yn cael cyfle i fynegi eu barn yn uniongyrchol a bod eu barn yn cael ei hystyried. Cafodd pynciau o bwys a godwyd gan bobl ifanc eu cynnwys yn y set ddiwygiedig o ddangosyddion – er enghraifft, cafodd dangosydd newydd ar gyfer cyfiawnder ei gynnwys.

Mae Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion, a gynhelir bob dwy flynedd, yn arolwg cenedlaethol sy'n darparu data o ansawdd uchel ar iechyd a lles tua 120,000 o bobl ifanc 11-16 oed yng Nghymru. Mae'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion yn gydweithrediad rhwng Prifysgol Caerdydd, Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Cancer Research UK. Mae grŵp cynghori ar ymchwil o bobl ifanc yn helpu i lywio cynnwys yr arolwg a lledaenu canfyddiadau. Roedd y cylch arolygu diweddaraf yn cynnwys cwestiynau penodol am hawliau plant.

Yn 2019, cyfrannodd Cymru at Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol cyntaf Llywodraeth y DU o'r Nodau Datblygu Cynaliadwy a chyhoeddodd adroddiad atodol ar wahân ar gamau a gymerwyd yng Nghymru a oedd yn cynnwys data a naratif ynglŷn â phlant.



# Hawliau'r Confensiwn a'r Protocolau Dewisol

## A. Mesurau gweithredu cyffredinol (erthyglau 4, 42 a 44 (6))

### Cymalau cadw a deddfwriaeth

Disgrifiwch y camau a gymerwyd i wneud y canlynol:

**5B** – Bring its domestic legislation in line with the Convention and ensure that the principles and provisions of the Convention and the Optional Protocols are directly applicable and justiciable under domestic law, particularly in England, Northern Ireland and the overseas territories and Crown dependencies;

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei dull o ystyried opsiynau ar gyfer ymgorffori Confensiynau'r Cenhedloedd Unedig yng nghyfraith Cymru, megis Bil Hawliau Dynol Cymru, yn unol â'r ymrwymiad yn y maes hwn a nodir yn ein Rhaglen Lywodraethu. Mae Grŵp Cynghori ar Hawliau Dynol wedi'i sefydlu er mwyn cefnogi'r gwaith hwn.

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i CCUHP a'i brotocolau dewisol wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau.

Mae Llywodraeth Cymru o blaid cadarnhau'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn ar Weithdrefn Gyfathrebu (2014). Ysgrifennodd Prif Weinidog Cymru at Brif Weinidog y DU ym mis Mawrth 2021 yn gofyn i Lywodraeth y DU gadarnhau'r Protocol hwn sy'n galluogi plant unigol i gwyno i'r Cenhedloedd Unedig ynghylch achosion honedig o dorri eu hawliau. Nid yw Llywodraeth y DU wedi rhoi unrhyw arwydd y bydd yn ystyried cadarnhau'r protocol.

**5C** – Establish a child rights impact assessment procedure for all legislation and policies affecting children, particularly in England and Northern Ireland, including in response to the COVID-19 pandemic;

Mae'r fersiwn ddiwygiedig o Gynllun Hawliau Plant 2021 yn nodi mesurau ychwanegol i ymgorffori hawliau plant yn Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys,

- templed a llawlyfr diwygiedig ar gyfer Asesu'r Effaith ar Hawliau Plant gan swyddogion Llywodraeth Cymru er mwyn helpu i ymgorffori hawliau plant;
- mynediad i hyfforddiant wedi'i ddiweddaru;
- gofyniad i bob Gweinidog gwrdd â phlant a phobl ifanc o leiaf unwaith y flwyddyn;
- cynllun i godi ymwybyddiaeth o hawliau plant er mwyn grymuso plant a phobl ifanc i arfer eu hawliau fel dinasyddion Cymru a'r byd;
- proses adborth a chwynion well i blant a phobl ifanc.

**5D** – Assess proposals to revise the Human Rights Act from a child rights perspective;

Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad clir i hyrwyddo a diogelu hawliau dynol sydd wedi'i ymgorffori yn neddfwriaeth sefydlu Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig eraill er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein rhwymedigaethau rhyngwladol ac yn cydymffurfio â Chonfensiynau'r DU a lofnodwyd ac a gadarnhawyd gan Wladwriaeth y DU sy'n barti.

Mae cynnig Llywodraeth y DU i gyflwyno Bil Hawliau yn lle Deddf Hawliau Dynol 1998 wedi cymhlethu'r cyd-destun deddfwriaethol yn y maes hwn. Gwnaethom nodi'n glir ein bod yn gwrthwynebu hyn yn llwyr yn ystod yr ymgynghoriad ar ddechrau'r flwyddyn ac, felly, roeddem yn siomedig iawn o weld bod y cynnig anflaengar hwn wedi'i gynnwys yn Araith y Frenhines ar 10 Mai.

Cyflwynwyd y Bil Hawliau i'r Senedd gan y Dirprwy Brif Weinidog ar 22 Mehefin. Cyn hynny, prin iawn oedd y gweithgarwch ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a chyhoeddwyd yr ymateb i'r ymgynghoriad ar yr un diwrnod. Ymatebodd bron i 13,000 o bobl i'r ymgynghoriad hwn – go brin bod sylw priodol wedi'i roi i'r rhain cyn i'r Bil Hawliau gael ei gyflwyno. Cyhoeddodd Gweinidogion Cymru Ddatganiad Ysgrifenedig ar 22 Mehefin, yn gresynu wrth y ffordd roedd Llywodraeth y DU wedi ymdrin â'r mater hwn.

Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn nodi'r hawliau a'r rhyddidau sylfaenol sydd gan bawb yn y DU. O dan y cynigion diweddaraf, ni fyddai Bil Hawliau newydd yn adlewyrchu'r egwyddorion a'r mesurau diogelu allweddol yn y Ddeddf Hawliau Dynol.

Mae'n bwysicach nag erioed bod y Deyrnas Unedig gyfan yn cael ei gweld yn amddiffyn hawliau dynol cyffredinol, yn y wlad hon a ledled y byd. Dylai'r DU fod yn cefnogi hawliau dynol ar adeg pan maent o dan fygythiad cynyddol mewn rhannau eraill o'r byd, gan gynnwys gan Rwsia yn Wcráin.

Yn lle hynny, mae Llywodraeth y DU wedi rhoi blaenoriaeth i ddiddymu Deddf Hawliau Dynol 1998, y mae llawer o'r farn ei bod yn ddiangen ac yn wrthgynhyrchiol. Nid yw'r Bil Hawliau a fydd yn ei disodli yn atgynhyrchu darpariaethau pwysig yn y Ddeddf sy'n grymuso Llysoedd yn y DU i roi dyfarniadau Llys Hawliau Dynol Ewrop ar waith. Gallai fod i hyn oblygiadau i hawliau pobl yn y DU sy'n ceisio gorfodi eu hawliau yn Llysoedd y DU.

Mae mater cyfansoddiadol pwysig hefyd. Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn rhan annatod o ddemocratiaeth Cymru; rhaid i ddeddfwriaeth a gaiff ei phasio yn y Senedd gyd-fynd â'r Ddeddf ac, felly, rhaid i bob un o ddeddfwriaethau cenedlaethol y DU gytuno ar unrhyw weithred neu newid. Derbynnir y pwynt hwn gan Lywodraeth y DU.

Yn ein hymateb i'r ymgynghoriad, gwnaethom dynnu sylw at y ffordd y mae hawliau dynol yn gyffredinol a Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol wedi bod wrth wraidd datganoli yng Nghymru.

Cyhoeddwyd yr ymateb i'r ymgynghoriad ar yr un diwrnod ag y cyflwynwyd y Bil i'r Senedd. Ymatebodd bron 13,000 o bobl i'r ymgynghoriad hwn ac eto cyhoeddwyd canlyniad yr ymgynghoriad ar yr un pryd ag y cyflwynwyd y Bil. Rydym yn gresynu wrth y ffordd y mae Llywodraeth y DU wedi ymdrin â'r mater hwn.

Wrth gwrs, byddwn yn astudio'r Bil Hawliau yn ofalus iawn – mae'r gwaith hwn eisoes wedi dechrau – ac rydym wedi dweud wrth y Dirprwy Brif Weinidog ein bod yn fodlon parhau mewn deialog wrth iddi fynd drwy'r Senedd.

Byddwn yn parhau i alw ar Lywodraeth y DU i newid cyfeiriad tra'i bod yn dal yn bosibl gwneud hynny, drwy ailymrwymo, nid yn unig i gadw'r ddeddf bresennol, sef Deddf Hawliau Dynol 1998, ond hefyd i sicrhau y gall Llysoedd yn y DU roi dyfarniadau Llys Hawliau Dynol Ewrop ar waith yn llawn.

Yn y cyfamser, rydym yn parhau'n ymrwymedig i fwrw ymlaen â chynllun gweithredu cadarnhaol a blaengar er mwyn atgyfnerthu a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol i bawb yng Nghymru. Cyn bo hir, byddwn yn sefydlu Grŵp Cynghori ar Hawliau Dynol er mwyn goruchwylio cynnydd a sicrhau ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid.

Mae ein hymchwil i adroddiad ymchwil Cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru, a gyhoeddwyd ar 26 Awst 2021, yn dangos y ffordd o ran diogelu a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol unigolion a chymunedau yng Nghymru. Mae ein hymateb i'r adroddiad yn nodi'r prif feysydd gwaith y bydd Llywodraeth Cymru yn eu datblygu, gan gynnwys:

- datblygu cyfres o ganllawiau ar hawliau dynol;
- adolygu rheoliadau Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus;
- ychwanegu hawliau dynol at ein hasesiadau effaith integredig;
- gwneud mwy i hyrwyddo'r materion hyn yng Nghymru.

Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu cynllun gweithredu ac amserlen fanwl a fydd yn cwmpasu'r holl ffrydiau gwaith hyn a bydd hefyd yn gwneud gwaith paratoi ar opsiynau ar gyfer ymgorffori Confensiynau'r DU yng nghyfraith Cymru, yn unol ag argymhelliad cyntaf yr adroddiad Cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru a'r ymrwymiad yn ein Rhaglen Lywodraethu ein hunain i ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRPD) a'r Confensiwn ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod (CEDAW).

Bydd cwmpas ac amseriad unrhyw ddeddfwriaeth, megis Bil Hawliau Dynol Cymru, yn ddarostyngedig i benderfyniadau yn y dyfodol, yn dibynnu ar ganlyniad y gwaith paratoi.

## Polisi, strategaeth a chydlynu cynhwysfawr

**6A** – Please provide information on ensuring comprehensive implementation of the Convention across all areas of government, in the absence of an updated State-wide strategy and corresponding action plans in England, Wales and Northern Ireland;

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi adroddiad cydymffurfio bob 2.5 blynedd sy'n nodi sut mae Gweinidogion Cymru yn dangos sylw dyledus i CCUHP. Cyhoeddwyd yr adroddiad cydymffurfio diweddaraf ym mis Chwefror 2021.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi diweddariad ar gynnydd yn dilyn cyhoeddi adroddiad Sylwadau Terfynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i'r Deyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon. Cyhoeddwyd yr adroddiad diweddaraf ym mis Mawrth 2021.

**6B** – Mechanisms for monitoring and evaluating the implementation and impact of policies and programmes for children's rights, including the 2009 Working Together, Achieving More strategy;

Er mwyn helpu i gyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i blant a phobl ifanc, lansiwyd cynllun plant a phobl ifanc ym mis Mawrth 2022. Mae'r cynllun yn ymrwymedig i egwyddorion CCUHP ac yn nodi saith blaenoriaeth drawsbynciol a ddatblygwyd ochr yn ochr â phlant a phobl ifanc. Mae'r Cynllun yn nodi gweledigaeth y bydd pob plentyn:

- yn cael y dechrau gorau mewn bywyd
- yn cael ei drin yn deg
- yn cael ei gefnogi ar ei daith drwy addysg, hyfforddiant a (hunan) gyflogaeth, ac wrth iddo symud rhyngddynt
- yn cael ei gefnogi i deimlo'n gryf yn feddyliol ac yn emosiynol
- yn cael ei gefnogi i gael cyfle teg mewn bywyd
- yn byw mewn cartref da a diogel
- yn cael y cymorth sydd ei angen arno i aros gyda'i deulu neu ailymuno ag ef, lle y bo'n bosibl.

Cafodd plant a phobl ifanc eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu'r cynllun a byddant yn cael eu cynnwys yn y gwaith o fonitro ei gynnydd. Bob blwyddyn bydd Gweinidogion yn adrodd ar y ffordd y mae'r camau gweithredu yn y cynllun yn eu helpu i gyrraedd naw carreg filltir uchelgeisiol.

**6C** – Establishing statutory bodies at interministerial levels in devolved administrations, overseas territories and Crown dependencies to effectively coordinate the implementation of the Convention.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu'r tîm Hawliau Plant er mwyn gwneud y canlynol:

- cynnig cyngor ac arweiniad arbenigol ar draws Llywodraeth Cymru ar bob agwedd ar hawliau plant;
- helpu swyddogion i ddeall y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol a'u rôl o ran sicrhau y cyflawnir y ddyletswydd sylw dyledus;
- arwain ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiadau'r Confensiwn ac argymhellion Sylwadau Terfynol y Cenhedloedd Unedig.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid craidd i Plant yng Nghymru, sef y sefydliad trosfwaol cenedlaethol sy'n cynrychioli mwy na 250 o sefydliadau a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Mae'r cyllid hwn yn galluogi Plant yng Nghymru i weinyddu Grŵp Monitro CCUHP, sef corff allanol, annibynnol sy'n monitro'r ffordd y caiff y Confensiwn ei roi ar waith ar ran Llywodraeth Cymru.

Mae Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant (CRAG) hefyd wedi'i sefydlu er mwyn rhoi cyngor a her allanol arbenigol i swyddogion Llywodraeth Cymru ar y ffordd y mae polisïau Llywodraeth Cymru yn cefnogi CCUHP.

## Dyrannu adnoddau

Disgrifiwch y camau a gymerwyd i wneud y canlynol:

**7A** – Incorporate a child rights-based approach into the State budgeting process, including by implementing a tracking system for the allocation and use of resources for children and assessing how investments in all sectors serve the best interests of children;

Mae adran 1 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn ymgorffori'r ddyletswydd i ystyried hawliau plant yng nghyfraith Cymru ac yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried hawliau plant wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau, sy'n cynnwys penderfyniadau cyllidebol.

Roedd ein Cyllideb Ddrafft 2022-23, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021, yn rhan o gyfres o ddogfennau i gefnogi a darparu tystiolaeth ychwanegol mewn perthynas â'r ffordd y dyrennir cyllid. Roedd hyn yn cynnwys nodi effeithiau ein penderfyniadau gwario fel rhan o'r prif naratifau ym mhenodau pedwar a chwech, gan dynnu sylw at benderfyniadau gwario sy'n cael effaith uniongyrchol ar blant a phobl ifanc.

Nodir yr asesiad o effeithiau penderfyniadau cyllidebol yn y prif naratif ac fe'i hategir gan yr Asesiad Effaith Integredig Strategol a geir yn Atodiad D i'r Gyllideb Ddrafft. Mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn nodi'r dystiolaeth gyd-destunol a fu'n sail i'r penderfyniadau gwario a wnaed.

Fel rhan o'r Asesiad Effaith Integredig Strategol, cyflwynodd Llywodraeth Cymru astudiaethau achos ar effeithiau penderfyniadau gwario penodol hefyd er mwyn dangos yn well sut mae gwaith asesu yn cael ei wneud yn fwy manwl. Cynhwyswyd astudiaethau achos ar Brydau Ysgol am Ddim a chyllidebu ataliol mewn perthynas â Phlant sy'n Derbyn Gofal yn ogystal â Chynllun Peilot Incwm Sylfaenol a'r Warant i Bobl Ifanc.

Cafodd papurau tystiolaeth ysgrifenedig Gweinidogion i bwyllgorau craffu'r Senedd hefyd eu cyhoeddi fel rhan o becyn Cyllideb Ddrafft 2022-23, sy'n cynnwys rhagor o wybodaeth am sut mae ystyriaethau effaith wedi dylanwadu ar ddyraniadau cyllideb ym mhob Prif Grŵp Gwariant.

Mae'r rhain yn nodi'n fanwl sut mae penderfyniadau cyllidebol yn effeithio ar grwpiau gwahanol, gan gynnwys plant. Mae hyn yn seiliedig ar ddull integredig o asesu effeithiau yn ogystal ag ymrwymiad i ymgorffori'r ystyriaethau hyn yn yr holl ddogfennaeth gyllidebol a thystiolaeth ategol. Mae hyn yn golygu bod modd mabwysiadu dull mwy cytbwys ac ystyriol o feithrin dealltwriaeth o'r ffordd y gellir lliniaru canlyniadau negyddol ac anfwriadol drwy benderfyniadau cyllidebol strategol. Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod hwn yn ddull gweithredu mwy cadarn sy'n lleihau'r risgiau o effeithiau anfwriadol a allai ddeillio o ystyried pob maes effaith ar wahân. Wrth fabwysiadu'r dull hwn o weithredu, defnyddir amrywiaeth o dystiolaeth a gwybodaeth, gan gynnwys asesiadau manwl o effaith polisïau fel rhan o'n gwaith parhaus i ddatblygu ac adolygu polisïau.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ystyried sut i wella ein dull o asesu effaith penderfyniadau cyllidebol fel rhan o Gynllun Gwella'r Gyllideb a gyhoeddir bob blwyddyn ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft.

**7B** – Ensure a transparent and participatory budgeting process by involving children and enhancing accountability in public procurement processes, including in times of emergency.

Fel rhan o Gynllun Gwella'r Gyllideb, sy'n amlinellu gwelliannau arfaethedig i brosesau treth a'r gyllideb, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ystyried sut i ennyn diddordeb plant a phobl ifanc mewn prosesau cyllidebol a'u cynnwys ynddynt. Roedd hyn yn cynnwys prosiect peilot, a oedd yn cynnwys athrawon economeg yng Nghymru, a ddechreuodd yn 2021, gyda'r nod o gynnwys athrawon a myfyrwyr ym mhroses y Gyllideb a gwella eu dealltwriaeth o'r mathau o benderfyniadau a wneir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Gweinidog Cyllid a'r Prif Economegydd hefyd wedi cymryd rhan mewn sesiynau Holi ac Ateb gyda myfyrwyr, gan ateb cwestiynau a siarad am eu rolau a'r gwaith y maent yn ei wneud yn y broses gyllidebu.

Cyflwynwyd ymgyrch ymwybyddiaeth o'r broses gyllidebu yn 2021 er mwyn gwella dealltwriaeth o ddigwyddiad y gyllideb, gyda negeseuon clir a syml yn cyflwyno'r Gweinidog Cyllid a'i rôl. Wedyn cyflwynwyd yr adnoddau cyllidebol hygyrch, wedi'u hanelu at blant a phobl ifanc, er mwyn cyfleu negeseuon allweddol ynglŷn â'r gyllideb mewn ffordd syml.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ystyried ffyrdd o ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn ymestyn cyrhaeddiad yr adnoddau a ddatblygwyd ar gyfer pobl ifanc ac ystyried cyfleoedd pellach i ymgysylltu'n ddigidol â phlant a phobl ifanc yn 2022-23.

**7C** – Ensure that children, including those in vulnerable situations, are not affected by austerity measures or regressive measures taken in response to the COVID-19 pandemic and the potential consequences of the economic crisis triggered by those measures.

Gweler yr ymateb i gwestiwn 3B.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod effeithiau niwed economaidd-gymdeithasol o ganlyniad i'r pandemig wedi'u teimlo gan grwpiau a oedd eisoes dan anfantais gan gynnwys plant a phobl ifanc. Mae Cyllideb 2022-23 yn cydnabod hyn ac yn cynnwys camau dros y tair blynedd nesaf hyd at 2024-25 i fynd i'r afael â'r effaith bosibl ar blant a phobl ifanc.

Llywodraeth y DU sy'n meddu ar y dulliau ysgogi allweddol ar gyfer mynd i'r afael â thlodi, megis pwerau dros y systemau treth a lles (heb gynnwys trethi datganoledig a budd-daliadau Cymreig).

Yn y cyd-destun hwn, mae Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth o fewn ei gallu i amddiffyn plant y mae'r mesurau cyni a'r mesurau anflaengar a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU yn effeithio arnynt. Rydym yn buddsoddi'n sylweddol yn narpariaeth y blynyddoedd cynnar a chymorth i deuluoedd, gan gynnwys buddsoddiad pellach mewn prydau ysgol am ddim a'r Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu cyllid wedi'i dargedu ar gyfer cymorth iechyd meddwl i blant a phobl ifanc, gan gydnabod risgiau'r effeithiau parhaus a hirdymor a wynebir gan ein pobl ifanc yng Nghymru. Ceir rhagor o fanylion am y mesurau cadarnhaol hyn ym mhennod 4 o Gyllideb Ddrafft 2022-23 a gyhoeddwyd ar 20 Rhagfyr 2021, ac ym mhennod 2 o Gyllideb Derfynol 2022-23 a gyhoeddwyd ar 1 Mawrth 2022.

## Casglu data

**8** – Please update the Committee on efforts to improve the collection and quality of disaggregated data for all areas of the Convention, including on violence, children in alternative care, children with disabilities, mental health, food insecurity, malnutrition, education, and asylum-seeking and migrant children.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gydag adrannau eraill o Lywodraeth y DU fel y ffynhonnell data mewn nifer o'r meysydd hyn, gan gynnwys ar drais, ceisio lloches a phlant mudol.

Mae cydweithio â'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion i gasglu gwybodaeth am amgylchiadau plant o oedran ysgol yn fodd i feithrin dealltwriaeth well o iechyd a llesiant plant a phobl ifanc ac mae data gwell bellach ar gael ar wasanaethau iechyd meddwl arbenigol i blant.

Mae ystod lawn o wybodaeth am addysg plant yn dal i gael ei chasglu ac mae data ychwanegol bellach ar gael ar ganlyniadau dysgwyr mewn addysg ôl-16 a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar gyflawniadau dysgwyr ôl-16. Gyda ffocws ar beidio â gadael unrhyw un ar ôl, mae dadansoddiadau ychwanegol o setiau data addysg ac iechyd a setiau data eraill yn ôl nodweddion gwarchodedig (rhyw, oedran, anabledd, ethnigrwydd ac ati) bellach yn cael eu darparu, lle y bo'n bosibl. Bydd Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd, sydd newydd ei sefydlu, yn helpu i gasglu tystiolaeth well er mwyn cefnogi gwaith dadansoddi o'r fath, gan gynnwys ar gyfer ceiswyr lloches.

Yn 2018, cyhoeddwyd adroddiad o'r enw "Llesiant Cymru 2017-18; beth ydym ni'n ei wybod am lesiant plant?" ochr yn ochr ag adroddiad Llesiant Cymru. Daeth ag amrywiaeth eang o ddata ar lesiant plant ynghyd o ddata ar ddechrau iach i fywyd, ymddygiad iach a llesiant personol; i ddata ar ddatblygiad a chyrhaeddiad yn yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd, cyfranogiad mewn addysg neu gyflogaeth, mewn gweithgareddau chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol (gan gynnwys y defnydd o'r Gymraeg); a data ar gyffredinrwydd ac effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, bwlio, trais a throseddau. Lle roedd data ar gael, byddai hyn yn darparu gwybodaeth am wahanol grwpiau yn y boblogaeth gan gynnwys y rhai o wahanol gefndiroedd ethnig, rhyweddol neu economaidd-gymdeithasol neu blant sy'n derbyn gofal. Byddwn yn cyhoeddi fersiwn wedi'i diweddaru o'r adroddiad llesiant plant hwn yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

Mae data ar dlodi plant yn parhau i gael eu monitro ac mae gwybodaeth am y tebygolrwydd bod plant yng Nghymru mewn teuluoedd mewn tlodi parhaus yn cael ei chyhoeddi ers 2016. Rydym wedi darparu cyllid tuag at sampl fwy o faint ar gyfer yr Arolwg o Adnoddau Teulu yn y dyfodol er mwyn rhoi amcangyfrifon a gwybodaeth o ansawdd gwell am blant mewn tlodi.

Er bod y Swyddfa Gartref yn cyhoeddi data ar lefel y DU ar geisiadau am loches ac ailsefydlu yn ôl oedran, mae data ar blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches sy'n cael gofal a chymorth gan wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru yn parhau i gael eu casglu a'u cyhoeddi. Mae data chwarterol o Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE y Swyddfa Gartref yn ôl oedran ac awdurdod lleol yn cael eu defnyddio i ddeall plant sy'n debygol o ymsefydlu yn y wlad drwy'r cynllun hwn. Rydym yn dibynnu ar y Swyddfa Ystadegau Gwladol i gael amcangyfrifon manwl o fudo mewnol a rhyngwladol yn ôl oedran.

Yn ystod pandemig COVID-19, cafwyd data mwy rheolaidd gan ysgolion ar yr effaith ar bresenoldeb disgyblion o ganlyniad i'r pandemig. Roedd hyn yn golygu bod modd dadansoddi absenoldeb ar gyfer merched a bechgyn, ar gyfer y rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ac yn ôl p'un a yw disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ai peidio.

Hefyd, yn ystod y pandemig, casglwyd data mwy rheolaidd ar blant sydd, ynghyd ag aelodau eraill o'u haelwyd, wedi'u rhoi mewn llety dros dro ar ôl ceisio cymorth gan awdurdodau lleol am eu bod yn wynebu'r bygythiad o ddigartrefedd. Er bod y pandemig wedi tarfu ar rai gwasanaethau am gyfnod, parhaodd data i gael eu casglu ar wasanaethau iechyd meddwl arbenigol, cwnsela mewn ysgolion a nifer y plant a oedd wedi'u brechu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys cwestiynau am dlodi bwyd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru ers 2016/17.

Rydym yn parhau â datblygiadau gan ddefnyddio data gweinyddol i weld pa wybodaeth y gellir ei darparu drwy gysylltu data. Mae Ymchwil Data Gweinyddol Cymru (YDG Cymru) yn bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, Ysgol Feddygol Prifysgol Abertawe a Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru (WISERD). Nod YDG Cymru yw darparu dadansoddiadau data cysylltiedig er mwyn cefnogi Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. Mae YDG Cymru yn defnyddio Banc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) Prifysgol Abertawe.

Yn ddiweddar, cafodd YDG Cymru £17m ar gyfer y cyfnod 2022-2026 gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC). Dwy o flaenoriaethau allweddol YDG Cymru ar gyfer 2022-2026 yw'r blynyddoedd cynnar ac addysg ac, ar hyn o bryd rydym yn datblygu rhaglen o brosiectau dadansoddi data cysylltiedig er mwyn cefnogi'r meysydd polisi hyn, gan adeiladu ar y gwaith a wnaed yn ystod cyfnod cyllido blaenorol YDG Cymru. Er enghraifft, dadansoddiad o ganlyniadau rhaglen Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru, ac anawsterau a wynebir gan ddisgyblion o aelwydydd incwm isel wrth drosglwyddo o addysg orfodol.

Er mai'r blynyddoedd cynnar ac addysg yw'r themâu sydd fwyaf uniongyrchol berthnasol i blant, rydym yn disgwyl i waith dadansoddi o dan themâu eraill YDG Cymru ddarparu gwybodaeth am brofiadau plant yng Nghymru. Er enghraifft, o dan thema digartrefedd cyfnod cyllid blaenorol YDG Cymru, dadansoddodd ymchwilwyr absenoldeb o'r ysgol ymhlith plant o deulu digartref. At hynny, o dan thema iechyd meddwl, lluniodd academyddion YDG Cymru adroddiad ar y cysylltiad rhwng absenoldeb o'r ysgol a gwahardd o'r ysgol, gydag anhwylderau

niwroddatblygiadol (gan gynnwys anhwylderau iechyd meddwl a hunan-niweidio) yn cael eu cofnodi mewn carfan fawr o bobl ifanc yng Nghymru.

Ar gyfer y cyfnod 2022-2026, mae YDG Cymru wedi cyflwyno thema drawsbynciol cyfiawnder cymdeithasol. Bydd elfen o'r thema hon yn cynnwys gwaith i wella ansawdd data cydraddoldeb yn SAIL.

Gyda chymorth YDG Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i adneuo setiau data ar lefel unigolyn ar addysg, gofal cymdeithasol plant a llysoedd teulu yn SAIL yn rheolaidd, fel y bydd y setiau data hyn ar gael, ar ôl i unrhyw fanylion a allai ddatgelu enw unigolion gael eu dileu, ar gyfer gwaith dadansoddi data cysylltiedig mewn amgylchedd rhithwir diogel. Caiff y setiau data hyn eu cyrchu gan ymchwilwyr YDG Cymru yn ogystal â'r gymuned academaidd ehangach, e.e. Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield a Chanolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant.

## Lledaenu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth

**9** – Please provide information on awareness-raising programmes for children and the training of relevant professional groups on the Convention.

Mae adran 5 o Fesur Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn amlinellu dyletswydd Gweinidogion Cymru i gymryd camau priodol i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd (gan gynnwys plant) o'r Confensiwn a'r Protocolau.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun codi ymwybyddiaeth ym mis Tachwedd 2021 sydd wedi'i anelu at blant, eu rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol, er mwyn codi ymwybyddiaeth o CCUHP drwy raglenni a hyfforddiant perthnasol. Ei brif nod yw *'Grymuso pob plentyn a pherson ifanc i arfer eu hawliau fel dinasyddion Cymru a'r byd.'*

Mae'r Cynllun yn nodi 5 llinyn gwaith:

- Cyfathrebu ac ymgysylltu â phlant yn uniongyrchol;
- Y blynyddoedd cynnar;
- Hawliau plant mewn lleoliadau addysg;
- Ymwybyddiaeth o hawliau plant ymhlith y sector cyhoeddus/gweithwyr proffesiynol;
- Cyfathrebu â rhieni.

Bwriedir cynnal adolygiad ar ddiwedd 2023 gyda chynllun wedi'i ddiweddaru'n cael ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2024.

Mae Cynllun Hawliau Plant 2021 yn nodi mesurau ychwanegol i ymgorffori hawliau plant yn Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys,

- llawlyfr i swyddogion Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o ymgorffori hawliau plant;
- mynediad i hyfforddiant wedi'i ddiweddaru.

### Cwricwlwm i Gymru

Drwy Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, sydd newydd ei basio, mae dyletswydd wedi'i gosod ar gyrff llywodraethu a phenaethiaid ysgolion ac ysgolion meithrin a gynhelir i hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o CCUHP a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau. Daw'r ddyletswydd hon i rym ym mis Medi 2022. Bydd yn helpu'r aelodau hynny o staff sy'n darparu addysgu a dysgu yn y cwricwlwm i brif ffrydio'r hawliau a ddiogelir gan y Confensiynau yn eu harferion addysgu bob dydd wrth lunio a chyflwyno eu cwricwlwm.

Mae athroniaeth a phwysigrwydd CCUHP hefyd wedi'u hymgorffori ym mhob rhan o'r cwricwlwm.

## Hawliau'r plant a'r sector busnes

Disgrifiwch y camau a gymerwyd i wneud y canlynol:

**11A** – Require businesses to undertake child-rights due diligence, including with respect to the environment;

**11B** – Establish a regulatory framework for the business sector, including in the context of public procurement, to ensure that their activities domestically and abroad do not adversely impact children's rights.

Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn gallu gorfodi busnesau i arfer diwydrwydd dyladwy mewn perthynas â hawliau plant – nid yw hyn yn rhan o gylch gwaith y gwasanaeth cymorth i fusnesau.

Mae gwasanaeth cymorth i fusnesau Llywodraeth Cymru (Busnes Cymru) yn cynnig cyngor a chymorth i fusnesau sy'n dechrau, yn cynnal eu hunain ac yn tyfu. Os bydd angen cymorth ar fusnesau mewn perthynas â hawliau plant, ein pum cynghorydd cydraddoldeb sydd wedi'u lleoli ledled Cymru a fyddai'n darparu'r cymorth hwnnw.

Nid oes gan Lywodraeth Cymru awdurdodaeth i sefydlu rheoliadau busnes nac ychwaith, ar hyn o bryd, i wneud rheoliadau ynglŷn â chaffael cyhoeddus.



# C. Egwyddorion cyffredinol (erthyglau 2, 3, 6 a 12)

## Dim gwahaniaethu

Disgrifiwch y camau a gymerwyd i wneud y canlynol:

> **13A** – Protect all children under 18 years against discrimination on the grounds of their age, and address general negative public attitude towards children, especially adolescents;

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi ei bod yn anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un oherwydd oedran. Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus sy'n gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i roi sylw dyledus wrth arfer eu swyddogaethau i ddileu gwahaniaethu, gan gynnwys gwahaniaethu ar sail oedran, sy'n un o'r naw nodwedd warchodedig.

Gosododd Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 sylfaen bellach ar gyfer datblygu cydraddoldeb yng Nghymru gyda'r nod o sicrhau bod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn gweithredu'n well. Wrth ddatblygu amcanion cydraddoldeb, rhaid i gyrff yn y sector cyhoeddus gynnwys pobl sy'n cynrychioli buddiannau pobl sy'n rhannu un nodwedd warchodedig neu fwy ac sydd â budd yn y ffordd y mae corff y sector cyhoeddus yn cyflawni ei swyddogaethau.

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i CCUHP a'i brotocolau dewisol wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi bod creu Cymru gyfartal yn nod i bob gwasanaeth cyhoeddus ac mae camau gweithredu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau wedi'u cynnwys yn nifer o ymrwymiadau'r Llywodraeth a geir ym mholisïau a rhaglenni Llywodraeth Cymru.

Mae'r etholfraint yng Nghymru wedi'i hymestyn i alluogi pobl ifanc 16-17 oed gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd drwy Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Daeth y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021. Mae'r Ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus perthnasol, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, roi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau a brofir o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol.

Drwy fynnu bod cyrff cyhoeddus yn gwneud penderfyniadau gwell, lle mae ystyried anghydraddoldeb canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol yn rhan gwbl ganolog o'r penderfyniad, byddwn yn gallu symud tuag at ailadeiladu Cymru decach a mwy llewyrchus.

**13B** – Conduct an independent review of the 2011 Prevent Strategy and ensure that counter-terrorism and counter-extremism measures do not have a discriminatory, racial or stigmatizing impact on any group of children;

Mae 'Prevent' yn un o strategaethau Llywodraeth y DU ac nid yw wedi'i datganoli i Gymru. Fodd bynnag, fel rhan o strwythur llywodraethu cadarn Contest ar ei newydd wedd, mae Bwrdd Strategol PREVENT yn darparu fforwm i bartneriaid godi pryderon neu heriau, gyda phroses uwchgyfeirio y cytunwyd arni a fyddai'n cael ei defnyddio i drosglwyddo unrhyw fater i Fwrdd Prevent y DU er mwyn iddo ei ystyried a/neu gymryd camau.

**13C** – Eliminate discrimination with regard to health, education, alternative care, and child justice, against children living in poverty, Roma, gypsy and traveller children, children belonging to ethnic minority groups, children with disabilities, children in alternative care, asylum-seeking, refugee and migrant children, and LGBTI children;

### Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

Lansiodd Llywodraeth Cymru Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ym mis Mehefin 2022. Mae'r Cynllun yn seiliedig ar werthoedd gwrth-hiliaeth ac mae'n galw am ddim goddefgarwch mewn perthynas â hiliaeth o bob math. Mae'r cynllun, a luniwyd ar y cyd â'n cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, yn nodi gweledigaeth a gwerthoedd ar gyfer Cymru wrth-hiliol. Mae'n cynnwys nodau, camau gweithredu, amserlenni a chanlyniadau pendant a fydd yn helpu i sicrhau ein bod yn cymryd camau ystyrlon.

Mae'r nodau a'r camau gweithredu hyn wedi'u rhannu'n themâu polisi er mwyn adlewyrchu'r ffordd y mae gwaith y Llywodraeth yn cael ei gynllunio a'i gyflawni, sef:

- Arweinyddiaeth yn Llywodraeth Cymru ac ar draws y sector cyhoeddus
- Addysg a'r Gymraeg
- Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon
- Iechyd a gofal cymdeithasol
- Cartrefi a Lleoedd
- Llywodraeth Leol
- Cyflogadwyedd, Sgiliau, y Bartneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg
- Cenedl Noddfa
- Troseddu a Chyfiawnder
- Gofal Plant a Chwarae

Mae'r cynllun yn cynnwys chwe agwedd ar ffyrdd y mae hiliaeth yn effeithio ar fywydau pobl ethnig leiafrifol, sef:

- Eu profiad o hiliaeth mewn bywyd pob dydd;
- Eu profiad o hiliaeth wrth ddefnyddio gwasanaethau;
- Eu profiad o hiliaeth wrth fod yn rhan o'r gweithle;
- Eu profiad o hiliaeth wrth gael swyddi a chyfleoedd;
- Eu profiad pan nad oes ganddynt fodelau rôl gweladwy mewn swyddi dylanwadol;
- Eu profiad o hiliaeth fel ffoaduriaid neu geiswyr lloches.

Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys pennod sy'n canolbwyntio ar hiliaeth yn y system cyfiawnder troseddol a chamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r mater. Mae'n amlinellu'r gwaith partneriaeth rydym yn ei ddatblygu gyda phartneriaid allweddol ym maes cyfiawnder troseddol, gan gynnwys Plismona yng Nghymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yng Nghymru, er mwyn mynd i'r afael â gwahaniaethau ar sail hil yn system cyfiawnder troseddol.

### Cenedl Noddfa

Mae 'Cenedl Noddfa' – Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y cymunedau hyn yn wynebu llai o anghydraddoldeb, bod mynediad at gyfleoedd yn cael ei gynyddu, a bod y berthynas rhwng y cymunedau hyn a'r gymdeithas ehangach yn cael ei gwella.

### Plant anabl yng Nghymru

Mae'r Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl, a gadeirir gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, yn parhau i roi cyfle i randdeiliaid gynghori Llywodraeth Cymru ar y materion allweddol sy'n effeithio ar bobl anabl yng Nghymru.

Mae ei adborth yn parhau i fod yn hollbwysig wrth sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn ystyried barn, profiadau ac anghenion pobl anabl.

Mae'r Tasglu Hawliau Anabledd wedi'i sefydlu i bara am tua 18 mis. Mae'n dwyn ynghyd bobl â phrofiad bywyd, arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru a sefydliadau cynrychioliadol er mwyn nodi'r problemau a'r rhwystrau sy'n effeithio ar fywyd llawer o bobl anabl. Mae'r Tasglu'n gweithio o fewn cwmpas cylch gwaith cyfreithiol Llywodraeth Cymru.

Mae'r Tasglu wedi cytuno mai'r ddau faes blaenoriaeth cyntaf i'w datblygu yw Ymgorffori a Deall Model Cymdeithasol Anabledd a Byw'n Annibynnol, Iechyd, Llesiant a Gofal Cymdeithasol.

### Troseddau Casineb

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Canolfan Cymorth Casineb Cymru, a redir gan Cymorth i Ddioddefwyr Cymru, er mwyn iddi ddarparu cymorth a gwasanaeth eirioli cyfrinachol am ddim i bob dioddefwr troseddau casineb, ddydd a nos, 7 diwrnod yr wythnos.

Daeth yr ymgyrch gwrth-droseddau casineb, Mae Casineb yn Brifo Cymru, i ben ym mis Mawrth 2022. Mae'r ymgyrch yn cael ei gwerthuso a bydd y canfyddiadau yn helpu i lywio'r cam nesaf o weithgarwch yn 2022/2023.

### Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

Daeth y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021. Mae'r Ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus perthnasol, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, roi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau a brofir o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol.

Drwy fynnu bod cyrff cyhoeddus yn gwneud penderfyniadau gwell, lle mae ystyried anghydraddoldeb canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol yn rhan gwbl ganolog o'r penderfyniad, byddwn yn gallu symud tuag at ailadeiladu Cymru decach a mwy llewyrchus.

### Ffydd

Mae arweinwyr ffydd yn cyfarfod â'r Prif Weinidog a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ddwywaith y flwyddyn drwy'r Fforwm Cymunedau Ffydd. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda chynrychiolwyr ffydd ar faterion sy'n effeithio ar fywyd cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithio gyda grwpiau ffydd ar bob lefel er mwyn hyrwyddo dealltwriaeth a meithrin cydlyniant cymunedol. Mae'n bwysig bod pob un ohonom yn gallu mynegi ein barn, gwrando â pharch ar farn pobl eraill a gwella'r ffordd y gallwn gydweithio, gan helpu i sicrhau bod Cymru yn gymdeithas oddefgar.

### Sipsiwn, Roma a Theithwyr

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i sicrhau bod sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn parhau i ddarparu cymorth diwylliannol briodol i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu prosiect 'Travelling Ahead' yn TGP Cymru er mwyn rhoi cyngor a chymorth eiriolaeth i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

### LHDTC+

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau mai Cymru yw'r genedl fwyaf cyfeillgar i bobl LHDTC+ yn Ewrop. Rydym yn datblygu Cynllun Gweithredu LHDTC+ cadarn a thrawsbynciol, un a fydd yn atgyfnerthu mesurau diogelu i bobl LHDTC+, yn hyrwyddo cydraddoldeb i bawb ac yn helpu i gydgysylltu camau gweithredu uchelgeisiol ym mhob rhan o'r Llywodraeth a thu hwnt. Yn dilyn ymateb sylweddol i'r Cynllun Gweithredu drafft, mae gwaith ymgynghori yn mynd rhagddo i ddiweddaru a chyhoeddi fersiwn derfynol.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ddefnyddio'r holl bwerau sydd ar gael i roi terfyn ar arferion therapi trosi yng Nghymru a cheisio sicrhau y caiff unrhyw bwerau ychwanegol sydd eu hangen eu datganoli. Bydd Llywodraeth Cymru yn addysgu ac yn codi ymwybyddiaeth am erchyllterau ac aneffeithiolrwydd arferion therapi drwy sefydlu ymgyrch benodol yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatganoli'r Ddeddf Cydnabod Rhywedd er mwyn cefnogi ein cymuned drawsrywiol. Mae hawliau LHDTC+, gan gynnwys hawliau trawsrywiol, yn hawliau dynol. Cred Llywodraeth Cymru fod menywod trawsrywiol yn fenywod a bod dynion trawsrywiol yn ddynion a bod hunaniaethau anneuaidd yn ddilys. Rydym yn ailddatgan ein cefnogaeth i hawl pobl drawsrywiol i hunanddiffinio.

### Urddas Mislif

Mae cynllun gweithredu strategol ar urddas mislif wrthi'n cael ei baratoi yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus allanol. Mae cryn dipyn o waith trawslywodraethol ar addysg ac iechyd yn cael ei wneud ac rydym yn cydweithio ag adnodd gwe'r GIG, "Mislif Fi". Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi arian i awdurdodau lleol ddarparu cynhyrchion mislif am ddim mewn ysgolion a chymunedau. Rhoddir arian i golegau Addysg Bellach at yr un diben hefyd.

**13D** – Monitor, receive and address complaints of discrimination against children.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno proses gwyno i blant a phobl ifanc.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn rhoi arian i Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, sy'n sefydliad hawliau dynol annibynnol a all ymdrin â chwynion fel rhan o'i wasanaeth Ymchwilio a Chynghori. Mae'r gwasanaeth hwn yn rhoi cyngor a chymorth i blant a phobl ifanc, a'r rhai sy'n gofalu amdanynt, os byddant o'r farn eu bod wedi cael eu trin yn annheg.

## Hawl i fywyd a goroesi

Disgrifiwch y camau a gymerwyd i wneud y canlynol:

**14A** – Address underlying determinants of infant and child mortality, including social and economic deprivation and inequality;

Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd camau trawslywodraethol er mwyn creu cymdeithas fwy cyfartal a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd da ar gael i bob plentyn yn y blynyddoedd cynnar a darparu system addysg a dysgu, cyflogaeth ac amodau gwaith o ansawdd da ac amgylcheddau iach i bawb.

Yn 2020, cytunwyd ar femorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Swyddfa Ranbarthol Ewrop Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) er mwyn cyflymu cynnydd o ran creu Cymru ac Ewrop iachach a mwy cyfartal, gan alluogi buddsoddi ac atebion cynaliadwy tuag at sicrhau ffyniant i bawb nawr ac yn y dyfodol; ac atgyfnerthu rôl Cymru fel 'cenedl sy'n dylanwadu' yn Ewrop ac yn fyd-eang.

Mae Adroddiad ar Statws Tegwch Iechyd Cymru: Rhoi tegwch iechyd wrth wraidd adfer ar ôl Coronafeirws ar gyfer adeiladu dyfodol cynaliadwy i Gymru yn mapio effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach COVID-19 yng Nghymru ac yn cynnwys ymatebion polisi a mesurau lliniaru. Mae'r adroddiad yn nodi mai plant o gefndiroedd difreintiedig sydd wedi dioddef fwyaf o ganlyniad i'r pandemig oherwydd allgáu digidol a diffyg adnoddau angenrheidiol i'w helpu i wneud cynnydd gyda'u dysgu. Mae hefyd yn nodi bod ansicrwydd ariannol yn arwain at ansicrwydd bwyd, sy'n cael effaith andwyol ar ddatblygiad a llesiant plant.

### Rhaglen Plant Iach Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn helpu i integreiddio darpariaeth y blynyddoedd cynnar yn well, gan gynnwys Rhaglen Plant Iach Cymru a ddatblygwyd fel ein darpariaeth gyffredinol safonol gan y GIG i bob teulu â phlant 0-7 oed. Mae'r rhaglenni yn cynnig ystod gyson o fesurau atal ac ymyrryd yn gynnar sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chanllawiau i gefnogi rhianta a dewisiadau iach o ran ffordd o fyw yn ogystal â nodi teuluoedd y mae angen cymorth ychwanegol arnynt.

Dros amser, rydym yn disgwyl i'r rhaglen gyfrannu at leihau annhegwch drwy sicrhau y darperir gwasanaeth cyffredinol a thargedu gwell gwasanaethau at y rhai y mae angen cymorth arnynt.

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r gwaith o gyflwyno rhaglen Dechrau'n Deg yng Nghymru sy'n darparu rhwyd diogelwch maethol i fenywod beichiog a theuluoedd ifanc ar incwm isel, drwy ddarparu cymorth ariannol i brynu bwyd iachach a fitaminau atodol am ddim.

### Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi arian i Hyb Cymorth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod Cymru er mwyn helpu sefydliadau, cymunedau ac unigolion i ddeall mwy am brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a chefnogi teuluoedd a allai gael eu hamlygu iddynt.

Mae'r Hyb Cymorth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod wedi cydweithio â Straen Trawmatig Cymru, a rhanddeiliaid, i ddatblygu fframwaith arferion sy'n ystyriol o drawma newydd i Gymru. Lansiwyd y fframwaith ar 14 Gorffennaf 2022 Cymru sy'n Ystyriol o Drawma (traumaframeworkcymru.com)

Bydd mabwysiadu, a hyrwyddo, dulliau gweithredu sy'n ystyriol o drawma yn un o gonglfeini polisi Llywodraeth Cymru ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

### Dechrau'n Deg y blynyddoedd cynnar

Mae Llywodraeth Cymru yn cynyddu'r cymorth a roddir i blant sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig er mwyn sicrhau eu bod yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd. Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn ein hymrwymo i barhau i gefnogi ein rhaglen Dechrau'n Deg flaenllaw drwy fynd ati'n raddol i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar er mwyn cynnwys pob plentyn dwyflwydd oed, gan roi pwyslais penodol ar gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg.

Mae bron 36,000 o blant o dan 4 oed sy'n byw mewn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru eisoes wedi cael budd o'r rhaglen, gyda thua 9,000 o blant 2 oed yn gymwys i gael gofal plant rhan-amser o ansawdd uchel a ariennir. Bydd cam cyntaf y broses o ehangu Dechrau'n Deg, a fydd yn dechrau ym mis Medi 2022, yn cynnwys pob un o bedair elfen y rhaglen bresennol: – ymweliadau iechyd gwell, cymorth ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu, cymorth rhianta ynghyd â gofal plant. Ein bwriad yw cyrraedd 2,500 o blant ychwanegol o dan bedair oed yn ystod y cam hwn.

Drwy ein Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar, rydym yn gweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Cymru i dreialu modelau a dulliau gweithredu gwahanol er mwyn darparu gwasanaethau blynyddoedd cynnar mwy integredig ac ymatebol, gan sicrhau bod plant a theuluoedd yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i'w galluogi i gyflawni eu potensial llawn a chael y dechrau gorau mewn bywyd, gan adeiladu ar ddulliau a ddefnyddir yn Rhaglen Plant Iach Cymru a Dechrau'n Deg.

**14B** – Establish mechanisms for review of unexpected death or serious injury involving children, including in custody, care and mental healthcare institutions;

Mae canllawiau'r Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaethau Annisgwyl yn ystod Plentyndod (PRUDIC) wedi'u cyhoeddi. Mae'r weithdrefn yn nodi safon ofynnol ar gyfer ymateb i farwolaethau annisgwyl babanod a phlant. Dilynir yr ymateb gweithdrefnol pan fydd yr heddlu wedi penderfynu bod marwolaeth plentyn yn annisgwyl a bod yn rhaid rhoi PRUDiC ar waith. Nod PRUDiC yw sicrhau bod yr ymateb yn ddiogel, yn gyson ac yn sensitif i'r rhai dan sylw a bod cysondeb ledled Cymru o ran yr ymateb amlasiantaethol i farwolaethau annisgwyl plant.

Yn unol â Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015, mae gan Fyrddau Diogelu Plant Rhanbarthol gyfrifoldeb statudol i gynnal Adolygiadau Ymarfer Plant amlasiantaethol mewn unrhyw un o'r achosion canlynol, pan fo'n hysbys neu pan amheuir, o fewn ardal y Bwrdd, fod plentyn neu oedolyn wedi cael ei gam-drin neu ei esgeuluso ac wedi marw neu wedi dioddef anaf a allai beryglu ei fywyd; neu wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd neu i'w ddatblygiad.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ganolbwyntio at atal hunanladdiad a hunan-niwed mewn ymateb i'r pandemig. Gwnaethom gomisiynu gwaith i'n galluogi i ddeall effeithiau a llywio ein rhaglen waith yn y dyfodol. Er nad oes unrhyw gyfradd hunanladdiad, p'un a yw'n cynyddu neu'n lleihau, yn dderbyniol, daeth y gwaith hwn i'r casgliad ei bod yn rhy gynnar i ddweud beth fydd effaith gyffredinol y pandemig ar gyfraddau hunanladdiad. Mae adroddiadau diweddar yn rhoi rhywfaint o dawelwch meddwl gyda darlun gweddol gyson mewn gwledydd incwm uchel yn awgrymu nad oedd cyfraddau hunanladdiad wedi cynyddu ar ddechrau'r pandemig.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau â'i hymdrechion i weithio gyda phartneriaid er mwyn adolygu'r data ar hunanladdiad ac mae'n cyflymu cynlluniau i ddatblygu system arolygu hunanladdiad amser real ar gyfer pob oedran i Gymru. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ac mae grŵp iechyd a phlismona ar y cyd wedi'i sefydlu i'w oruchwylio.

**14C** – Address the high rate of avoidable child deaths.

Lansiodd Llywodraeth Cymru y Rhaglen Cefnogi Diogelwch mewn Gofal Mamolaeth a Newyddenedigol yn gynharach eleni. Bydd y rhaglen yn sicrhau dulliau clir a chyson o gefnogi diogelwch mewn gofal mamolaeth a newyddenedigol ym mhob gwasanaeth yng Nghymru. Y ffactor ysgogi allweddol ar gyfer y Rhaglen yw gwella diogelwch, profiadau a chanlyniadau mewn perthynas â gofal mamolaeth a newyddenedigol a darparu cymorth er mwyn galluogi timau i roi profiad gofal iechyd o ansawdd uchel i bob menyw feichiog, baban a theulu ym mhob lleoliad gofal mamolaeth a newyddenedigol yng Nghymru.

Atgyfnerthodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a chyfrolau perthnasol o ganllawiau statudol, 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl' drefniadau diogelu mewn asiantaethau a ledled Cymru. Bwriedir i'r trefniadau hyn hyrwyddo llesiant plant, atal niwed, cam-drin ac esgeulustod a diogelu plant sy'n wynebu risg o gael eu niweidio, eu cam-drin neu eu hesgeuluso.

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru a Chanllawiau Ymarfer Cymru Gyfan yn helpu ymarferwyr i ddeall eu dyletswyddau cyfreithiol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac yn hyrwyddo arferion diogelu cyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn asiantaethau a ledled Cymru.

Mae Siarad â fi 2 Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed yn sail i'r gwaith o atal hunanladdiad a hunan-niwed yng Nghymru. Mae £500,000 ychwanegol y flwyddyn er mwyn mynd i'r afael â hunanladdiad a hunan-niwed yn cynnwys ariannu pedair swydd newydd i ysgogi'r gwaith hwn ac i gydgysylltu'r asiantaethau niferus y mae ganddynt ran i'w chwarae yn yr agenda hon. Mae'r Cydgysylltydd Atal Hunanladdiad Cenedlaethol newydd, wedi'i gefnogi gan dri Chydgysylltydd Rhanbarthol, bellach yn hanfodol i gydlynu dulliau gweithredu ac arwain y broses o ddatblygu camau gweithredu newydd i atal hunanladdiad a hunan-niwed a rhoi'r camau hynny ar waith.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru becyn cymorth iechyd meddwl pobl ifanc sy'n cynnwys MyGPguide. Adnodd sy'n seiliedig ar dystiolaeth yw hwn a luniwyd ar y cyd â phobl ifanc i bobl ifanc â phrofiad bywyd o hunan-niweidio a/neu ymddygiad hunanladdol. Mae'n helpu i'w paratoi ar gyfer eu hymgynghoriad â'r Meddyg Teulu ac yn cynnig gwybodaeth a chyngor hollbwysig ar y canlynol: yr hyn y dylid ei ystyried cyn ymweld â'r meddyg teulu, beth yw eu hawliau o ran cyfrinachedd, yn ogystal â chynllunio diogelwch ac atgyfeirio at wasanaethau eraill.

## Parchu safbwyntiau'r plentyn

Disgrifiwch y camau a gymerwyd i wneud y canlynol:

**15A** – Ensure the right of the child to be heard, with adequate support, and that children's views and opinions are given due consideration in decisions affecting her or him in relevant legal and administrative proceedings, including those concerning domestic violence, custody, placement in alternative care, mental health treatment, education, migration and asylum;

### Eiriolaeth

Er mwyn helpu i ddarparu eiriolaeth yn y sector gofal cymdeithasol, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cod Ymarfer Rhan 10 mewn perthynas ag Eiriolaeth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae gwasanaeth y Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol i blant a phobl ifanc yn galluogi awdurdodau lleol i ddarparu dull gweithredu cyson cenedlaethol ar gyfer cymorth eiriolaeth. Mae gan bobl ifanc a phlant yr hawl i gael cynnig gweithredol o eiriolaeth gan Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol statudol pan fyddant yn dod yn blant sy'n derbyn gofal neu'n destun ymholiadau amddiffyn plant sy'n arwain at gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol.

Er mwyn i lais plant a phobl ifanc allu cael ei glywed fel rhan o'r broses o ddatblygu polisi, cafodd plant a phobl ifanc eu cynnwys yn yr ymgynghoriad ar Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi arian i Pro-Mo Cymru ddarparu MEIC, sef y gwasanaeth dwyieithog cyfrinachol, dienw a rhad ac am ddim a ariennir gan Lywodraeth Cymru i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed yng Nghymru sy'n darparu gwybodaeth, cyngor defnyddiol a chymorth. Mae'r gwasanaeth ar agor rhwng 8am a chanol nos, 7 diwrnod yr wythnos, dros y ffôn, drwy negeseuon testun SMS a negeseua gwib. Mae'n darparu cymorth cyfrinachol, gan rymuso plant a phobl ifanc i leisio eu barn ar yr hyn sy'n bwysig iddynt.

### Cam-drin Domestig

Ar 29 Ebrill 2015, daeth Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 i rym. Ym mis Mai 2022, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol ac yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, diwygiodd a chyhoeddodd Llywodraeth Cymru Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: strategaeth 2022 i 2026. Gweithiodd Llywodraeth Cymru gyda nifer o bartneriaid er mwyn sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Roedd hyn yn cynnwys cyhoeddi fersiwn Pobl Ifanc o'r ddogfen ymgynghori ynghyd ag arolwg ar-lein. Cawsant eu defnyddio yn ystod gweithgarwch ymgysylltu â phlant a phobl ifanc gan bartneriaid yn y sector trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol arbenigol, yn ogystal â'u hyrwyddo gan y Comisiynydd Plant a Plant yng Nghymru.

Caiff y strategaeth ei chyflawni drwy ddefnyddio dull Glasbrint, a fydd yn dwyn ynghyd sefydliadau datganoledig ac annatganoledig, yn oystal ag atgyfnerthu'r bartneriaeth rhwng y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector arbenigol. Mae'r dull hwn o weithredu yn cynnwys gweithgor amlasiantaethol sy'n edrych ar faterion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc.

## Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ('Deddf 2018') yn darparu ar gyfer fframwaith statudol newydd er mwyn cefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae'n disodli deddfwriaeth bresennol ynglŷn ag anghenion addysgol arbennig (AAA) ac asesu plant a phobl ifanc ag anawsterau a/neu anableddau dysgu mewn addysg a hyfforddiant ôl-16. Mae'r Cod ADY, rheoliadau a Deddf 2018 yn cael eu rhoi ar waith fesul cam dros dair blynedd o fis Medi 2012 ymlaen a bwriedir iddynt ddarparu:

- dull sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn, sy'n rhoi barn y plentyn neu'r person ifanc wrth wraidd y broses ac yn eu cynnwys nhw a'u teuluoedd yn y broses cynllunio, ymyrryd ac adolygu o'r cychwyn cyntaf;
- gwell cymorth a mynediad at wybodaeth a chyngor i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd er mwyn iddynt ddeall y broses ADY a gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar wybodaeth.

Mae Deddf 2018 yn pennu y dylai barn, dymuniadau a theimladau plant, eu rhieni a phobl ifanc ffurfio elfen graidd o'r system newydd ac yn pwysleisio pa mor bwysig ydyw bod plant, eu rhieni a phobl ifanc yn cymryd rhan mor llawn â phosibl mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â'u hanghenion dysgu ychwanegol a'r ddarpariaeth dysgu ychwanegol a ddarperir ar eu cyfer.

Mae Deddf 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i sicrhau bod plant, pobl ifanc ac eraill yn cael gwybodaeth a chyngor ar ADY a'r system a nodir yn y Ddeddf. Mae'n cyflwyno hawliau tecach i apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru drwy ymestyn yr hawl hon i bob person ifanc hyd at 25 oed sydd yn yr ysgol neu'n dilyn cwrs addysg bellach.

Er mwyn i blant a phobl ifanc allu arfer eu hawl i apelio'n llawn, mae Deddf 2018 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau i wasanaethau eirioli annibynnol gael eu darparu i blant, pobl ifanc a'u cyfeillion achos. Mae Deddf 2018 hefyd yn pennu y dylai 'cyfaill achos' gael ei benodi drwy orchymyn y Tribiwnlys os nad oes gan blentyn y galluedd meddyliol.

Mae Deddf 2018 yn galluogi plentyn neu berson ifanc hyd at 25 oed, neu riant plentyn, i apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn materion penodol os bydd awdurdod lleol neu gorff llywodraethu Sefydliad Addysg Bellach wedi gwneud penderfyniad mewn perthynas ag ADY unigolyn neu wedi paratoi Cynllun Datblygu Unigol i'r unigolyn hwnnw neu os bydd yn cynnal Cynllun Datblygu Unigol iddo.

## Dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol

Sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyd-Weinidogol i ddatblygu'r dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol, fel rhan o ddull system gyfan sydd hefyd yn cydnabod effaith ehangach llesiant corfforol.

Er mwyn gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn parhau i fod wrth wraidd y gwaith hwn, caiff ei gefnogi gan Grŵp Rhanddeiliaid Ieuenctid.

Diben y grŵp hwn yw:

- cynnig profiad uniongyrchol o gymorth iechyd meddwl a llesiant i blant a phobl ifanc;
- rhoi cyngor i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar ei raglen waith;
- cyd-gynhyrchu polisïau gyda Llywodraeth Cymru a Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc.

### Iechyd Meddwl

Mae Canllawiau ar Dderbyniadau Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir y dylai plant sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty am driniaeth gael gofal yn yr amgylchedd mwyaf addas; a bod yn rhaid i hyn ystyried eu hoedran a'u hanghenion datblygu er mwyn diogelu pobl ifanc. Mae hefyd yn egluro, i'r rhai sy'n ddigon hen ac yn ddigon cymwys i wneud y penderfyniad, eu hawl i ddewis ble maent yn cael triniaeth; mewn amgylchedd i oedolion, os ydynt yn dymuno hynny ac os yw er eu budd bennaf.

### Galluedd Meddyliol

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar reoliadau i Gymru er mwyn helpu i roi Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 a'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid newydd ar waith. Er bod Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 yn fater a gedwir yn ôl i Lywodraeth y DU, mae'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar Reoliadau drafft i Gymru, gan gynnwys Rheoliadau a fydd yn diwygio rheoliadau presennol[2] ynglŷn â phenodi Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol a'u rôl. Rôl Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol yw cefnogi'r unigolyn sy'n derbyn gofal o dan Ddiogeliadau Amddiffyn Rhyddid a'r unigolion hynny y nodwyd mai nhw yw Person Priodol yr unigolyn sy'n derbyn gofal. Bydd y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid newydd yn cynnwys pobl ifanc 16-17 oed, yn wahanol i'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) presennol. Bydd y diogeliadau newydd yn darparu hawliau ac amddiffyniadau pwysig i bobl nad oes ganddynt y galluedd meddyliol i gytuno i drefniadau gofal, cymorth neu driniaeth, os bydd y trefniadau hynny'n gyfystyr ag amddifadu rhywun o'i ryddid.

### Dalfeydd

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid ar y cyd ym mis Mai 2019 sy'n mabwysiadu dull system gyfan o ymdrin â'r system gyfiawnder yng Nghymru.

Mae'r Glasbrint yn nodi'r uchelgais i greu system seiliedig ar hawliau sy'n ystyriol o drawma, a fydd yn helpu gwasanaethau i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i blant yng Nghymru. Ym mis Ionawr 2021, cyhoeddwyd gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol darpariaeth ddiogel i blant yng Nghymru a nododd wyth egwyddor ar gyfer plant mewn gofal diogel; gan gynnwys sicrhau bod Plant yn gallu arfer eu hawliau o dan CCUHP yn llawn.

Mae ystadegau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (a gyhoeddir bob blwyddyn) ar gyfer 2020-21 yn nodi bod nifer y bobl ifanc yng Nghymru a oedd yn y ddalfa rhwng y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2011 a mis Mawrth 2021 wedi lleihau 85% (o 109 i 17 o bobl ifanc). Y ffigur ar gyfer mis Mawrth 2021, sef 17, yw'r un isaf a gofnodwyd erioed.

### Plant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi amrywiaeth o gyngor a chanllawiau i ymarferwyr sy'n cefnogi Plant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches ac i'r plant hynny eu hunain, y bwriedir iddynt feithrin gallu ymarferwyr i gefnogi'r plant a'r bobl ifanc hyn a helpu'r plant a'r bobl ifanc eu hunain i fynnu eu hawliau a chael yr hyn y mae ganddynt hawl iddo.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban i ddatblygu cynllun er mwyn i blant o Wcráin sy'n teithio ar eu pen eu hunain gyda pherthynas sy'n oedolyn nad yw'n rhiant nac yn warcheidwad cyfreithiol neu a fydd yn ymuno ag unigolyn o'r fath, aros gyda noddwr yn y DU. Mae rhan gyntaf y cynllun ar agor i'r plant a gyflwynodd geisiadau am fisa ers i gynllun Cartrefi i Wcráin ddechrau ym mis Mawrth, hyd at 15 Gorffennaf, gyda'r ail ran yn agor ar ddiwedd mis Gorffennaf/Awst, i geisiadau newydd. Mae canllawiau ar gael i awdurdodau lleol, rhieni a gwarcheidwaid cyfreithiol a noddwyr a gwybodaeth i'r plant eu hunain, a chyhoeddir rhagor o ganllawiau a gwybodaeth yn y dyfodol – Cartrefi i Wcráin: Canllawiau i gynghorau (plant a phobl ifanc o dan oed sy'n gwneud cais heb rieni na gwarcheidwaid cyfreithiol) – GOV.UK (www.gov.uk)

2 Rheoliadau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol) (Cymru) 2007 (O.S. 2007/852 (Cy. 77).

**15B** – Promote the meaningful participation of children, including younger children and children with disabilities, within the family, the community, school and the realm of local and national policymaking and decision-making affecting children, including on climate change;

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu model ymgysylltu i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfleoedd ystyrlon i fynegi eu barn ac i'w barn gael ei hystyried. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd blynyddol i bob Gweinidog drafod materion â phlant a phobl ifanc.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid craidd i Plant yng Nghymru, sef y sefydliad trosfwaol cenedlaethol sy'n cynrychioli mwy na 250 o sefydliadau a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc mewn amrywiaeth o sectorau. Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl i farn plant a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant gael ei bwydo i mewn i'r drafodaeth ynghylch polisi cenedlaethol yn rheolaidd.

### Yr Oedran Pleidleisio

Mae'r etholfraint yng Nghymru wedi'i hymestyn i bobl ifanc 16-17 oed drwy Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Pleidleisiodd pobl ifanc 16-17 oed am y tro cyntaf yn Etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021 ac etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022. Gweithiodd Llywodraeth Cymru yn agos gyda phartneriaid allweddol (gweithwyr ieuenctid, ysgolion a sefydliadau yn y trydydd sector) er mwyn helpu ac annog pobl ifanc i bleidleisio am y tro cyntaf.

Drwy gydol y broses ddeddfwriaethol o ymestyn yr etholfraint i bobl ifanc 16-17 oed, ceisiwyd barn pobl ifanc drwy ymgynghori. Rydym wedi parhau i ymgysylltu â phobl ifanc yn uniongyrchol a thrwy'r rhai sy'n gweithio gyda nhw er mwyn sicrhau bod ein rhaglenni yn ymateb i'w hanghenion a'u hamcanion dysgu.

### Dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol

Sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyd-Weinidogol i ddatblygu'r dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol, fel rhan o ddull system gyfan sydd hefyd yn cydnabod effaith ehangach llesiant corfforol.

Er mwyn gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn parhau i fod wrth wraidd y gwaith hwn, caiff ei gefnogi gan Grŵp Rhanddeiliaid Ieuenctid.

### Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Mae cyfrifoldebau awdurdodau lleol o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn cynnwys dyletswydd i adolygu darpariaeth a threfniadau ADY i blant a phobl ifanc ag ADY yn barhaus. Wrth gyflawni'r swyddogaeth hon, a phob un o'u swyddogaethau eraill o dan y Ddeddf, rhaid i awdurdodau lleol ystyried y canlynol:

- barn, dymuniadau a theimladau'r plentyn a rhiant y plentyn neu'r person ifanc;
- pwysigrwydd sicrhau bod y plentyn a'i riant neu'r person ifanc yn cymryd rhan mor llawn â phosibl mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â chyflawni'r swyddogaeth dan sylw;
- pwysigrwydd sicrhau bod y plentyn a'i riant neu'r person ifanc yn cael yr wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen arnynt (arno) i allu cymryd rhan yn y penderfyniadau hynny.

Mae Cod ADY Cymru, sy'n ategu Deddf 2018, yn dweud y gallai penderfyniadau strategol a wneir o ganlyniad i adolygu darpariaeth dysgu ychwanegol yn barhaus gynnwys sicrhau bod plant a phobl Ifanc a'u teuluoedd ag ADY yn chwarae mwy o ran mewn prosesau cynllunio strategol a gwneud penderfyniadau, yn unol â dyletswyddau'r awdurdod lleol o dan Ddeddf 2018.

### Senedd Ieuenctid Cymru

Mae Cymru wedi sefydlu Senedd Ieuenctid sy'n grymuso pobl ifanc i ddylanwadu ar brosesau gwneud penderfyniadau.

### Cynllun Gwella Niwroddatblygiad

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n sefydlu Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Niwroddatblygiad er mwyn datblygu'r Cynllun Gwella Niwroddatblygiad a gyhoeddwyd ar 6 Gorffennaf 2022. Er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn parhau i fod wrth wraidd y gwaith hwn, bydd yn cynnwys cynrychiolaeth o Grŵp Rhanddeiliaid Ieuenctid.

**15C** – Assess the impact of reforms on legal aid in all devolved administrations and overseas territories to ensure that such reforms do not negatively affect children's access to justice.

### Llys Teulu

Mewn perthynas â'r Llys Teulu a gweithdrefnau llysoedd teulu, mae Cafcass Cymru (sef un o ganghennau gweithredol Llywodraeth Cymru er nad yw'n chwarae rôl bolisi ffurfiol yn y maes hwn), oherwydd natur ei hymwneud ag achosion llysoedd teulu yng Nghymru, wedi cael darlun unigryw o effeithiau gweithredol y diwygiadau i'r system Cymorth Cyfreithiol dros amser.

Mewn achosion preifat mewn llysoedd barn h.y. lle mae teuluoedd wedi'u gwahanu yn anghytuno ynghylch trefniadau sy'n ymwneud â phlant, y mae Cafcass wedi gweld effaith fwyaf diwygiadau i'r system cymorth cyfreithiol o ganlyniad i Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 (Deddf 2012). I ddechrau, ac am sawl blwyddyn yn dilyn y newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf 2012, gwelwyd lleihad sylweddol yn nifer y ceisiadau a wnaed i'r Llys Teulu. Gan fod Cymorth Cyfreithiol wedi'i ddileu, mae'n ofynnol i bartïon sy'n oedolion dalu am eu cynrychiolaeth gyfreithiol neu, fel arall, gynrychioli eu hunain (Ymgyfreithwyr Drostynt eu Hunain (LIPOs)). Bu cynnydd sylweddol yn nifer yr Ymgyfreithwyr Drostynt eu Hunain ers 2013. Yn 2019-20, roedd nifer y ceisiadau i lysoedd wedi cynyddu unwaith eto i'r lefelau a welwyd cyn Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012. Fodd bynnag, gellid dadlau bod y ffaith nad oes gan y partïon gynrychiolaeth gyfreithiol wedi gwneud achosion yn fwy cymhleth, gydag effeithiau canlyniadol ar y plant dan sylw. Ni allwn fod yn sicr mai'r plant y byddem wedi'u gweld cyn 2013 yw'r un corff o blant rydym yn ei weld heddiw.

Er gwaethaf y newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf 2012, mae darpariaeth i blant gael eu gwneud yn barti yn yr achosion llys, yn enwedig mewn achosion llys preifat cymhleth – drwy Reol 16.4 o Reolau Trefniadaeth Teulu 2010. Mae'r rheol hon yn parhau mewn grym er gwaethaf y newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf 2012. Drwy'r ddarpariaeth hon, gall plant ddod yn barti yn yr achos drwy benodi Gwarcheidwad Plant (fel y'i pennir gan Cafcass Cymru), a nodir cyfreithiwr i'w cynrychioli. Fel hyn, honnir, mewn achosion lle mae sefyllfa plentyn yn arbennig o heriol oherwydd gwrthdaro rhwng y rhieni, fod anghenion y plentyn hwnnw yn cael eu diogelu drwy gael ei wneud yn destun yr achos yn ffurfiol. Dros amser, mae cyfran yr achosion sy'n cynnwys penodiadau o dan Reol 16.4 wedi cynyddu ers y newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf 2012 i tua 20% o'r holl achosion llys preifat lle mae'n ofynnol i Cafcass Cymru ddarparu dadansoddiad seiliedig ar lesiant ac argymhellion i'r llys. Ar y cyfan, er bod nifer y ceisiadau wedi cynyddu unwaith eto i'r lefelau a welwyd cyn Deddf 2012, mae Llywodraeth Cymru yn dal i bryderu ynghylch sefyllfa plant sy'n destun achosion llysoedd teulu a natur y gwrthdaro rhwng y rhieni/aelodau o'r teulu.



# C. Hawliau sifil a rhyddidau (erthyglau 7, 8 a 13-17)

## Rhyddid mynegiant, crefydd, cymdeithas ac ymgynnull heddychlon

Disgrifiwch y camau a gymerwyd i wneud y canlynol:

**17A** – Repeal legal provisions for compulsory attendance at collective worship in publicly funded schools and ensure that children can independently exercise the right to withdraw from religious observance at school;

Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn ei gwneud yn ofynnol i Addoli ar y Cyd gael ei gynnal bob dydd ym mhob ysgol yng Nghymru ac yn nodi bod yn rhaid i'r gwasanaeth hwn fod yn un Cristnogol yn bennaf, gan adlewyrchu demograffeg grefyddol Cymru ar yr adeg y gwnaed y ddeddfwriaeth.

Ysgolion sy'n gyfrifol am gynllunio a chyflwyno Addoli ar y Cyd. Dylai ysgolion fod yn sensitif i'r amrywiaeth o gredoau sydd gan ddisgyblion yn yr ysgol a chynnig cyfle i ddisgyblion addoli heb eu hannog i wneud rhywbeth sy'n groes i ddysgeidiaethau eu crefydd neu eu credoau.

Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i adolygu'r canllawiau a'r ddeddfwriaeth mewn perthynas ag addoli ar y cyd.

## Hawl i breifatrwydd

Disgrifiwch y camau a gymerwyd i wneud y canlynol:

**18B** – Ensure that online learning does not infringe children's right to privacy.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i helpu ysgolion i sicrhau bod gan ddysgwyr yr wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ffynnu yn yr 21ain ganrif.

Hwb yw'r platfform dysgu digidol cenedlaethol i bob ysgol a gynhelir yng Nghymru. Drwy'r sianel addysg strategol hon, gall dysgwyr, staff ysgol a rhanddeiliaid eraill ym maes addysg gael y canlynol:

- adnoddau dysgu ac addysgu digidol a gwybodaeth
- cymorth a chanllawiau sy'n hyrwyddo defnydd diogel a chyfrifol o dechnoleg ddigidol fel y nodir yn Gwella cadernid digidol mewn addysg: Cynllun gweithredu i ddiogelu plant a phobl ifanc ar-lein. Mae'r cynllun gweithredu yn nodi'r camau cydweithredol sy'n cael eu cymryd ym mhob rhan o'r Llywodraeth a gydag amrywiaeth o bartneriaid arbenigol er mwyn sicrhau bod ein plant a'n pobl ifanc yn ddiogel ar-lein
- canllawiau i ymarferwyr addysg er mwyn helpu i gyflwyno gwersi byw, gan gynnwys cyngor ar ddiogelu data sy'n ymwneud â recordio gwersi byw
- y Cwricwlwm i Gymru sy'n cynnwys y fframweithiau ar gyfer Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a Chymhwysedd Digidol sy'n sgiliau mandadol trawsgwricwlaidd sy'n eistedd ochr yn ochr ac yn cyd-fynd â'r canllawiau cyhoeddedig.

Mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau nad yw dysgu ar-lein yn tresmasu ar hawliau plant a phobl ifanc i breifarwydd drwy sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael iddynt drwy Hwb yn addas ac, wrth gefnogi'r Cod Plant, yn briodol

i'r oedran. Mae Hwb yn defnyddio gwasanaeth Darparwr Hunaniaeth Addysg Cymru (AWE IdP) i greu, cynnal a rheoli cyfrifon defnyddwyr Hwb. Mae'r gwasanaeth hwn yn galluogi dysgwyr ac ymarferwyr i ddefnyddio system mewngofnodi untro i gael mynediad at nifer o wasanaethau addysg cymeradwy.

Mae cytundebau rhannu data ar waith rhwng Llywodraeth Cymru ac ysgolion a gynhelir yng Nghymru, yn ogystal â chytundebau prosesu data, contractau a chytundebau addysg â chyflenwyr. Cesglir cyn lleied o ddata â phosibl gan ysgolion a dim ond er mwyn i ddysgwyr gwblhau'r asesiadau personoledig statudol ar-lein a defnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddynt, megis Office 365, y caiff y data hynny eu rhannu â chyflenwyr.

Mae Hysbysiad Preifatrwydd Hwb yn egluro i ddysgwyr pa ddata sy'n cael eu casglu amdanynt ac â phwy y mae'r data'n cael eu rhannu ac mae'n cynnwys crynodeb hawdd ei ddarllen. Mae holl bolisïau diogelu data Hwb ar gael yng Nghanolfan Cymeradwyo Hwb.

Mae rhaglen Hwb yn rhoi sicrwydd i ysgolion bod hawliau a phreifatrwydd plant yn elfen graidd o bob un o'i wasanaethau ac yn annog pob ysgol i fanteisio ar y ddarpariaeth hon.

Fel rhan o'r gwaith sy'n cael ei ddatblygu eleni, bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu panel cynghori plant a phobl ifanc ar gyfer cadernid digidol. Caiff aelodau'r panel eu gwahodd i rannu eu profiadau ar-lein a rhoi eu barn a darparu gwybodaeth a fydd yn sicrhau bod pryderon plant a phobl ifanc yn llywio ein gwaith yn y maes hollbwysig hwn.

## Mynediad at wybodaeth briodol

Disgrifiwch y camau a gymerwyd i wneud y canlynol:

**19A** – Promote the equitable access of children, including in the overseas territories, to online services and connectivity;

Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi tua £45m i ddarparu cysylltedd band eang cyflym iawn i bob ysgol a gynhelir yng Nghymru.

Mewn cydweithrediad â phob un o'r 22 o awdurdodau lleol ledled Cymru, mae Llywodraeth Cymru, drwy raglen Hwb, yn darparu amrywiaeth o wasanaethau a mentrau digidol y bwriedir iddynt ysbrydoli ein hathrawon a'n dysgwyr i ymgorffori arferion digidol yn hyderus ac, ar yr un pryd, ddatblygu eu diwylliant, eu cymwyseddau, eu sgiliau a'u gwybodaeth er mwyn ategu'r Cwricwlwm i Gymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau mynediad teg at wasanaethau ar-lein sy'n cefnogi addysgu a dysgu mewn ysgolion a gynhelir, ni waeth ble mae plant yn byw yng Nghymru. Hyd yma, mae rhaglen Hwb wedi buddsoddi mwy na £160m mewn Technoleg Addysg er mwyn i ysgolion allu manteisio ar yr effeithiau trawsnewidiol cadarnhaol y gall darpariaeth ddigidol a thechnoleg eu cael ar addysg. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ymrwymedig i fanteisio ar gyfleoedd er mwyn helpu i fynd i'r afael â thlodi a sicrhau y gall teuluoedd wneud y gorau o'u hincwm, drwy fentrau megis ein rhaglen genedlaethol i drwyddedu Microsoft Office 365.

**19B** – Introduce Online Harms legislation and ensure its implementation

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU y Bil Diogelwch Ar-lein ar 17 Mawrth 2022 sy'n addo gwella diogelwch ar-lein i bob defnyddiwr ledled y DU. Mae'r gyfraith diogelwch ar-lein newydd yn cynnwys darpariaeth well ar gyfer diogelu plant a phobl ifanc rhag niwed ar-lein.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu bwriad Llywodraeth y DU y bydd y Bil Diogelwch Ar-lein yn sefydlu fframwaith rheoleiddio a fydd yn gwella mesurau diogelu i blant a phobl ifanc ar-lein.

Mae diogelwch a llesiant plant a phobl ifanc ar-lein yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru Yn ein cynllun gweithredu i ddiogelu plant a phobl ifanc ar-lein, rydym wedi amlinellu ein hymrwymiad i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU ar yr agenda niwed ar-lein.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu'n rheolaidd â chymheiriaid yn Adran Llywodraeth y DU dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon cyn, ac ar ôl, i'r Bil gael ei gyflwyno. Mae'r gweithgarwch ymgysylltu hwn wedi cynnwys trafodaethau ynghylch y broses o ddatblygu'r Bil yn ogystal ag ymgynghori ynghylch troseddau â blaenoriaeth i'w cynnwys ynddo.
Mae trafodaethau hefyd wedi'u cynnal ag Ofcom fel y rheoleiddiwr a byddwn yn parhau i weithio'n agos gydag Ofcom yng Nghymru wrth iddo ddatblygu'r codau ymarfer.

Ar ôl cyhoeddi'r Bil drafft ym mis Mai 2021, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i ddatblygu eithriad priodol i sefydliadau addysg a darparwyr gofal plant yng Nghymru sydd wedi'u cynnwys yn y Bil a fydd yn cael effaith uniongyrchol ar Gymru. Ar 30 Mawrth 2022, gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Senedd.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i fonitro unrhyw ddiwygiadau arfaethedig er mwyn asesu effaith a goblygiadau'r Bil i Gymru.

**19C** – Enhance the digital literacy and skills of children, teachers, and families, and protect children from information and material harmful to their well-being.

Cyflwynwyd y Fframwaith Cymhwysedd Digidol yn 2016 er mwyn cefnogi ein cenhadaeth genedlaethol i sicrhau bod pob dysgwr yn datblygu cymhwysedd digidol lefel uchel tra bydd yn yr ysgol.

Bwriedir i'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol helpu i sicrhau bod cymhwysedd digidol yn cael ei integreiddio fel cyfrifoldeb trawsgwricwlaidd lle y caiff sgiliau digidol eu datblygu a'u cymhwyso at amrywiaeth eang o bynciau a senarios y gellir eu trosglwyddo i fyd gwaith.

Ynghyd â llythrennedd a rhifedd, mae cymhwysedd digidol yn sgìl trawsgwricwlaidd mandadol yn ein cwricwlwm newydd cyffrous ac mae hynny'n dangos y pwys rydym yn ei roi ar y sgìl hollbwysig hwn.

Mae'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol wedi'i ymgorffori ac mae'n eistedd ochr yn ochr â'r cwricwlwm newydd fel canllawiau atodol. Mae'n rhoi lefel ychwanegol o fanylder i'r cwricwlwm i bob athro, ym mhob pwnc, gynllunio a chynnig cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu'r sgiliau hyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i wella cadernid digidol mewn addysg ac mae a wnelo sawl cam gweithredu yn ein Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Gwella Cadernid Digidol mewn Addysg, a gaiff ei ddiweddaru bob blwyddyn, â chefnogi llythrennedd digidol plant a phobl ifanc a sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth a'r sgiliau i allu cadw'n ddiogel rhag niwed ar-lein.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod meithrin cadernid digidol plant a phobl ifanc hefyd yn dibynnu ar gadernid teuluoedd a chymunedau. Nod Rhaglen Hwb yw sicrhau bod yr adnoddau, yr wybodaeth a'r canllawiau diweddaraf ar gael i ddysgwyr, teuluoedd, ymarferwyr addysg, gweithwyr proffesiynol a llywodraethwyr er mwyn gwella eu cadernid digidol.

Mae datblygu a hyrwyddo pwysigrwydd sgiliau meddwl yn feirniadol, yn enwedig mewn perthynas â llythrennedd yn y cyfryngau, er mwyn annog defnydd cyfrifol o'r rhyngrwyd, yn nod allweddol, fel y dangosir yn ein hymgyrchoedd camwybodaeth a chyfryngau cymdeithasol.

Drwy ardal adnoddau Cadw'n ddiogel ar-lein, rydym yn parhau i roi gwybodaeth a chyngor ar amrywiaeth eang o faterion ar-lein, gan gynnwys: cynnwys anghyfreithlon a thramgwyddus, iechyd meddwl a llesiant, meithrin perthynas amhriodol ar-lein, bwlio ar-lein a mwy.

Yn ystod 2022, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi gwybodaeth a chyngor pwrpasol penodol sy'n rhoi cymorth uniongyrchol i ddysgwyr ddelio â phroblemau ar-lein.

Mae'r ardal newydd, 'Problemau a phryderon ar-lein', yn rhoi cyngor iddynt ar beth i'w wneud a ble i fynd am help os byddant yn poeni am rywbeth sydd wedi digwydd ar-lein. Mae'r cyngor wedi'i lywio gan ymchwil Llywodraeth Cymru i brofiadau a phryderon plant a phobl ifanc ar-lein a rhai o'r rhwystrau i gael cymorth.

At hynny, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adnodd newydd, sef 'Bydd Wybodus', sy'n gyfres o 24 o ganllawiau byr dwyieithog sydd ar gael ar Hwb, er mwyn rhoi gwybodaeth i deuluoedd am yr 'apiau', y rhwydweithiau cymdeithasol a'r gemau diweddaraf a mwyaf poblogaidd a ddefnyddir gan blant a phobl ifanc. Mae'r canllawiau yn rhoi gwybodaeth i deuluoedd am sut mae'r apiau hyn yn cael eu defnyddio, yn tynnu sylw at risgiau a phryderon sy'n gysylltiedig â'r apiau ac yn rhoi cyngor ac awgrymiadau ynglŷn â'u haddasrwydd i blant a phobl ifanc.

Mae'r ardaloedd hyn yn adeiladu ar gyfres helaeth o adnoddau diogelwch ar-lein i ymarferwyr, llywodraethwyr, teuluoedd a phlant a phobl ifanc. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i wella'r ardaloedd hyn dros y flwyddyn i ddod.



# D. Trais yn erbyn plant (erthyglau 19, 24 (3), 28 (2), 34, 37 (a) a 39)

## Artaith a thriniaeth neu gosb greulon neu ddiraddiol arall

Disgrifiwch y camau a gymerwyd i wneud y canlynol:

**20B** – Ban all pain-inducing techniques and methods of seclusion against children for disciplinary purposes in schools and in institutional settings;

**20C** – Address the disproportionate use of restraint against children with disabilities in schools and institutional settings.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Fframwaith ar gyfer lleihau arferion cyfyngol: Fframwaith i hyrwyddo mesurau ac arferion a fydd yn arwain at leihau arferion cyfyngol mewn lleoliadau gofal plant, addysg, iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer pobl o bob oed' ar 19 Gorffennaf 2021.

Mae ymrwymiad Gweinidogol i ddarparu cymorth trawslywodraethol er mwyn rhoi'r disgwyliadau a nodir yn y Fframwaith ar waith yn effeithiol, sef:

- dim ond pan fetho popeth arall ac mewn ffordd sy'n parchu hawliau dynol plant y dylid defnyddio arferion cyfyngol;
- dylid defnyddio gwaith cynllunio sy'n canolbwyntio ar y plentyn gyda phlant ac i blant, i atal y defnydd o arferion cyfyngol (mae arferion cyfyngol yn cynnwys arwahanu);
- ni ddylid defnyddio technegau sy'n achosi poen byth.

Mae arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal plant, addysg, iechyd a gofal cymdeithasol yn ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn nodi unrhyw bolisïau y mae angen eu hadolygu a chytuno ar gymorth i roi'r Fframwaith ar waith ym mhob sector o 1 Ebrill 2022 ymlaen. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwaith ac yn mynd i gyfarfodydd grwpiau rhanddeiliaid.

Mae animeiddiad i godi ymwybyddiaeth ymhlith comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau a lleoliadau wedi'i gyhoeddi – fideo ar yr hyn y gallwn ei wneud i leihau ein defnydd o'n harferion cyfyngol. Dim ond pan fetho popeth arall y dylid defnyddio ataliaeth gorfforol mewn lleoliadau addysg, gofal plant ac iechyd a gofal cymdeithasol.

### Ymyriadau diogel ac effeithiol: canllawiau i ysgolion ac awdurdodau lleol

Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi mai dim ond pan fetho popeth arall ac mewn ffordd sy'n parchu hawliau dynol plant y dylid defnyddio arferion cyfyngol ac na ddylid byth eu defnyddio fel cosb.

## Cosb gorfforol

Disgrifiwch y camau a gymerwyd neu a ragwelir i wneud y canlynol:

**21A** – Prohibit corporal punishment in all settings, including at home and in schools, across all devolved administrations, overseas territories and Crown dependencies;

Mae Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 (Deddf Plant Cymru) yn gwahardd cosbi plant yn gorfforol yng Nghymru drwy ddiddymu amddiffyniad cosb resymol. Daeth y ddeddf i rym ar 21 Mawrth 2022.

Nod cyffredinol Deddf Plant Cymru, sy'n gyson ag erthygl 19 CCUHP, yw diogelu hawliau plant drwy wahardd pob math o gosb gorfforol i blant. Mae gan blant yr un amddiffyniad cyfreithiol ag sydd gan oedolion rhag ymosodiad. Mae'r gwaith o roi'r ddeddfwriaeth ar waith, sy'n dal i fynd rhagddo, yn cael ei gyflawni gyda rhanddeiliaid allweddol drwy Grŵp Gweithredu Strategol a grwpiau gorchwyl a gorffen cysylltiedig amlasiantaethol:

### Codi Ymwybyddiaeth

Er mwyn sicrhau'r ymwybyddiaeth fwyaf posibl o'r newid yn y gyfraith, mae ymgyrch cyfathrebu ac ymgysylltu amlgyfrwng helaeth wedi'i hariannu, gan gynnwys hysbysebion ar y teledu a'r radio; hysbysebion print a digidol ac ymgyrch dosbarthu taflenni genedlaethol. Mae'r ymgyrch yn parhau, ar ôl i'r ddeddf ddod i rym, er mwyn cynnal lefelau ymwybyddiaeth gyhoeddus. Mae gwefan yr ymgyrch yn cynnwys amrywiaeth o wybodaeth i rieni, aelodau eraill o'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol. Mae Canllaw Ymarfer yn rhoi gwybodaeth i ymarferwyr am ymatebion diogelu mewn perthynas â'r Ddeddf.

Fel rhan o'n gwaith ymgysylltu, rydym wedi cysylltu â grwpiau a chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol sydd ag anghenion neu bryderon penodol o ran y ddeddfwriaeth. Mae hyn yn cynnwys cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru a chymunedau crefyddol a chymunedau ffydd, yn ogystal â phobl anabl a'u grwpiau cymorth, er enghraifft.

Mewn ymateb i adborth, rydym wedi datblygu adnoddau hygyrch mewn sawl iaith a fformat, gan gynnwys taflen wybodaeth i rieni ac animeiddiad byr sy'n cynnwys negeseuon allweddol am y newid yn y gyfraith.

Fel yr argymhellir gan Gomisiynydd Plant Cymru ac arbenigwyr eraill, caiff codi ymwybyddiaeth plant ei ymgorffori drwy ysgolion a rhaglenni presennol er mwyn i wybodaeth gael ei fframio a'i thrafod mewn lleoliad diogel a phriodol. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Plant yng Nghymru i ddatblygu adnoddau pwrpasol i godi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf. Mae plant a phobl ifanc yn chwarae rhan weithredol yn y gwaith hwn.

### Rhianta Cadarnhaol

Mae'r ymgyrch yn cyfeirio rhieni at wybodaeth, cyngor a chymorth drwy ymgyrch 'Magu Plant. Rhowch Amser Iddo', ymwelwyr iechyd a rhaglenni cymorth i deuluoedd, megis Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf. Mae adolygiad trylwyr o'r ddarpariaeth rianta a'r adnoddau 'Magu Plant. Rhowch Amser Iddo' sydd ar gael, wedi sicrhau bod cyngor a chymorth addas ar gael i rieni â phlant o'u geni hyd at 18 oed.

Bydd hyd at £2.4m, dros y tair blynedd nesaf, ar gael i awdurdodau lleol yng Nghymru ariannu cymorth rhianta y tu allan i'r llys fel opsiwn adsefydlu yn lle erlyn mewn achosion y mae'r heddlu yn ymwneud â nhw. At hynny, dyrannwyd ychydig o dan £500,000 er mwyn datblygu'r cymorth hwn yn 2021-22. Bydd yn annog ac yn cefnogi rhieni i fabwysiadu technegau rhianta cadarnhaol gan ei gwneud yn gwbl glir bod cosbi plant yn gorfforol yn annerbyniol dan unrhyw amgylchiadau.

### Monitro effaith Deddf Plant Cymru

Mae Deddf Plant Cymru yn gosod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i lunio adroddiad 3 blynedd a 5 mlynedd ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym. Bydd hyn yn cynnwys monitro'r effaith ar wasanaethau cyhoeddus, lefelau ymwybyddiaeth a newid mewn ymddygiad.

### Cynnwys Plant a Phobl Ifanc

Er mwyn i lais plant a phobl ifanc allu cael ei glywed fel rhan o'r broses datblygu polisi ar gyfer Deddf Plant Cymru, ymgysylltwyd/ymgynghorwyd â phlant a phobl ifanc:

- Cyn i'r ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno i'r Senedd drwy weithdai a sefydliadau megis ysgolion a gwasanaethau ieuenctid a chan sefydliadau sy'n cynrychioli plant.
- Yn ystod y broses o graffu ar y ddeddfwriaeth drwy Senedd Ieuenctid Cymru. Yn ystod y cyfnod gweithredu cyn cychwyn Deddf Plant Cymru ym mis Mawrth 2022 drwy Cymru Ifanc a chyda rhanddeiliaid allweddol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

**21C** – Promote positive and non-violent forms of discipline among teachers, staff of childcare facilities, parents and caregivers.

### Lleoliadau Addysg

Cyhoeddwyd y fersiwn wedi'i diweddaru o ganllawiau statudol Cadw Dysgwyr yn Ddiogel ym mis Hydref 2020 sy'n cynnwys canllawiau ar gyswllt corfforol â disgyblion, gan gynnwys ataliaeth. Mae'r canllawiau hyn yn amlinellu sut a phryd y gall staff addysg ddefnyddio'r cyfryw rym ag sy'n rhesymol o dan amgylchiadau penodol. Mae'r canllawiau hyn yn nodi'r glir ei bod bob amser yn anghyfreithlon defnyddio grym fel cosb ac mai maint y grym a ddefnyddir fydd y lleiaf sydd ei angen i sicrhau'r canlyniad a fwriedir.

### Lleoliadau gofal plant

Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed, a luniwyd gan Lywodraeth Cymru, yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gofal plant sicrhau y caiff ymddygiad plant ei reoli mewn modd sy'n parchu eu hawliau ac yn hybu eu lles a'u datblygiad. Mae'r Safonau cyhoeddedig yn nodi na ddylid byth defnyddio cosbau corfforol na bygwth eu defnyddio; na ddylid byth ysgwyd plant, eu smacio, eu taro, gweiddi arnynt, eu bygwth na'u cywilyddio ac na ddylai oedolion ddefnyddio unrhyw fath o ymyrraeth gorfforol oni bai bod angen gwneud hynny er mwyn atal y plentyn, plant eraill neu oedolyn rhag cael anaf, neu atal niwed difrifol i eiddo.

### Rhieni

Mae ymgyrch Llywodraeth Cymru, Magu Plant. Rhowch Amser Iddo, yn hyrwyddo rhianta cadarnhaol i rieni a'r rhai sy'n rhoi gofal, gan gynnwys ffyrdd cadarnhaol di-drais o reoli ymddygiad plant, drwy hysbysebion ar y teledu a'r radio a hysbysebion cymdeithasol a digidol. Gyda mewnbwn gan arbenigwyr ac ymarferwyr ym maes rhianta, mae'r wefan yn darparu amrywiaeth o adnoddau, gan gynnwys fideos, animeiddiadau ac awgrymiadau defnyddiol, er mwyn arwain rhieni drwy dechnegau rhianta cadarnhaol, ac mae'n cyfeirio rhieni at amrywiaeth o ffynonellau cymorth gan gynnwys mynediad at linellau cymorth.

Hyd yma, mae Magu Plant. Rhowch Amser Iddo wedi canolbwyntio ar gefnogi rhieni plant hyd at 7 oed a'r rhai sy'n rhoi gofal iddynt. Yn unol ag ymrwymiadau Gweinidogol, mae'r ystod oedran wedi'i hymestyn i gynnwys plant hyd at 18 oed, ac mae adnoddau wedi'u hadolygu a'u diwygio a'u hail-lanlwytho i'r wefan, cyn i Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 gael ei rhoi ar waith ar 21 Mawrth 2022.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn helpu i ddarparu cymorth rhianta cyffredinol, wedi'i dargedu drwy ei rhaglenni Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf ac mae rhaglenni rhianta a gyflwynir drwy'r cynlluniau hyn hefyd yn hyrwyddo technegau rhianta cadarnhaol.

### Protocol Cymru Gyfan – Lleihau nifer y plant ac oedolion ifanc â phrofiad o fod mewn gofal sy'n cael eu troseddoli

Cyhoeddwyd Protocol Cymru Gyfan ar y cyd gan Weinidogion Cymru, a Gweinidogion Llywodraeth y DU yn y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar 28 Mawrth 2022.

## Rhyddid y plentyn rhag pob math o drais

Disgrifiwch y camau a gymerwyd i wneud y canlynol:

**22A** – Address the high prevalence of domestic violence, gender-based

Cyhoeddwyd Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 7 – Diogelu Plant rhag Camfanteisio Rhywiol ar 18 Mawrth 2021. Mae'n nodi'r canlynol:

- gofynion ar bartneriaid diogelu;
- cyngor ar Atal Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant;
- amddiffyn plant rhag camfanteisio rhywiol;
- ymateb i blant sydd wedi cael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol.

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn cefnogi arferion diogelu cyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn asiantaethau a ledled Cymru ac yn esbonio dyletswyddau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae nifer o Ganllawiau Ymarfer Cymru Gyfan wedi'u cyhoeddi, gan gynnwys:

- Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan – diogelu plant rhag camfanteisio rhywiol
- Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan – diogelu plant sy'n mynd ar goll o'r cartref neu o ofal
- Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan – diogelu plant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt
- Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan – diogelu plant rhag cam-drin ar-lein
- Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan – diogelu plant a all fod wedi'u masnachu
- Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan – diogelu plant lle mae pryderon ynghylch ymddygiad rhywiol niweidiol.

Mae Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol yn nodi 33 o gamau gweithredu i Lywodraeth Cymru a Byrddau Diogelu partner atal cam-drin plant yn rhywiol, diogelu plant sy'n wynebu risg o gamfanteisio rhywiol a chefnogi adferiad plant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol. Mae'r cynllun yn cynnwys camau gweithredu ar gam-drin plant yn rhywiol, camfanteisio ar blant yn rhywiol ac ymddygiad rhywiol niweidiol.

Ar 29 Ebrill 2015, daeth Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) i rym. O dan adran (11) (1) o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, mae Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi dangosyddion y gellir eu defnyddio i fesur cynnydd tuag at gyflawni dibenion y Ddeddf. Mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol, mae Llywodraeth Cymru wedi diwygio a chyhoeddi Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2022-2026.

Mae codi ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o gydraddoldeb, parch a chydsyniad yn hanfodol er mwyn rhoi terfyn ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae Llywodraeth Cymru am sicrhau bod gan bob plentyn a pherson ifanc fynediad at ddysgu o ansawdd uchel sy'n briodol i'w ddatblygiad ac sy'n ymateb i'w anghenion a'i brofiadau. Caiff Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ei chyflwyno mewn ysgolion cynradd, ysgolion meithrin a gynhelir a lleoliadau meithrin nas cynhelir o fis Medi 2022.

Mae Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2022-2026 Llywodraeth Cymru yn cyd-fynd â'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb newydd a chanllawiau statudol ac yn ategu hawliau dysgwyr i fwynhau perthnasoedd boddhaol, iach a diogel drwy gydol eu bywyd.

Ers mis Mehefin 2021, mae 240,000 o bobl yng Nghymru wedi cael hyfforddiant drwy'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ac mae staff addysgol a staff diogelu gan gynnwys llywodraethwyr ymhlith y rhestr o grwpiau â blaenoriaeth ar gyfer hyfforddiant er mwyn iddynt allu cefnogi plant sy'n profi trais domestig yn well.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ariannu prosiect Sbectrwm Hafan Cymru, sy'n hyrwyddo pwysigrwydd perthnasoedd iach ac sy'n codi ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae Sbectrwm hefyd yn darparu hyfforddiant i staff a llywodraethwyr ysgolion. Mae mwy na 160,000 o blant a phobl ifanc ledled Cymru wedi cael sesiynau ymwybyddiaeth o berthnasoedd iach dros y 6 blynedd diwethaf.

**22B** – Strengthen the capacity of relevant professionals, including social workers, law enforcement authorities and the judiciary, to address violence, including sexual exploitation and abuse, against children

Mae gan Fyrddau Diogelu Rhanbarthol gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a chanllawiau statudol a rheoliadau cysylltiedig i hyrwyddo adnoddau a hyfforddiant i ymarferwyr mewn asiantaethau ar nodi'r holl fathau gwahanol o gam-drin ac esgeuluso plant ac ymateb iddynt, gan gynnwys camfanteisio'n rhywiol ar blant a cham-drin plant yn rhywiol. Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru a Chanllawiau Ymarfer Cymru Gyfan yn helpu ymarferwyr i ddeall eu dyletswyddau cyfreithiol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac yn hyrwyddo arferion diogelu cyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn asiantaethau a ledled Cymru.

Mae Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol yn cynnwys camau gweithredu i Lywodraeth Cymru a Byrddau Diogelu partner ddatblygu a hyrwyddo adnoddau a hyfforddiant i ymarferwyr mewn asiantaethau ar adnabod achosion o gam-drin plant yn rhywiol, camfanteisio'n rhywiol ar blant ac ymddygiad rhywiol niweidiol ac ymateb iddynt.

Mae Gwella Cadernid Digidol mewn Addysg: Cynllun gweithredu i ddiogelu plant a phobl ifanc ar-lein yn cynnwys yr ymrwymiadau sy'n cael eu datblygu gan Lywodraeth Cymru gydag amrywiaeth o sefydliadau partner er mwyn gwella darpariaeth, polisïau ac arferion diogelwch ar-lein ledled Cymru. Un o elfennau craidd y cynllun gweithredu yw rhoi cyngor a chymorth i ymarferwyr addysg a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc a gellir cael yr adnoddau, yr wybodaeth a'r hyfforddiant diweddaraf drwy 'Cadw'n ddiogel ar-lein'. Mae hyn yn cynnwys adnoddau er mwyn mynd i'r afael â phroblemau yn benodol, gan gynnwys meithrin perthynas amhriodol ar-lein, rhannu lluniau noeth a mathau eraill o niwed ar-lein.

Proses o holi wedi'i dargedu yw 'Gofyn a Gweithredu' i'w harfer ar draws yr awdurdodau perthnasol (fel y'u henwir yn Neddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2015) i adnabod achosion o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Prif amcan "Gofyn a Gweithredu" yw ei gwneud yn ofynnol i weithwyr proffesiynol perthnasol holi dioddefwyr posibl am y posibilrwydd o gam-drin domestig o dan amgylchiadau penodol a "gweithredu" er mwyn sicrhau bod dioddefaint a niwed o ganlyniad i'r trais a'r cam-drin yn cael eu lleihau i bawb.

Rhaglen genedlaethol yw 'Gofyn a Gweithredu' ac mae'n gwbl weithredol ym mhob rhan o Gymru. Erbyn diwedd mis Medi 2020, roedd 5,252 o weithwyr wedi cael hyfforddiant i ofyn a gweithredu.

**22C** – Ensure mandatory reporting and prosecution of all cases of violence, including sexual offences, against children

Mae Dyletswydd statudol ar bartneriaid perthnasol i Hysbysu am Blant sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu eu niweidio o dan Adran 130 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn cefnogi arferion diogelu cyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn asiantaethau a ledled Cymru ac yn esbonio dyletswyddau o dan Ddeddf 2014. Mae nifer o Ganllawiau Ymarfer Cymru Gyfan wedi'u cyhoeddi. Mae hyn yn cynnwys canllaw amlasiantaethol, sef Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan – diogelu plant rhag camfanteisio rhywiol. Ceir Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan ar ddiogelu plant sydd ar goll o'u cartrefi neu o ofal, plant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt, diogelu plant rhag cam-drin ar-lein, diogelu plant a all fod wedi'u masnachu a phlant lle mae pryderon ynghylch ymddygiad rhywiol niweidiol.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi bod yn arwain y gwaith o ddatblygu'r Safonau Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol. Mae'r safonau hyn wedi'u llunio ar y cyd gan grŵp datblygu cenedlaethol amlasiantaethol yn ogystal â grwpiau eraill a oedd yn canolbwyntio ar agweddau penodol ar y gwaith. Bydd y safonau yn helpu sefydliadau i wneud yn siŵr

- eu bod yn ymgorffori'r safonau i ymarferwyr yn eu polisïau a'u gweithdrefnau diogelu;
- bod ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau sy'n berthnasol i'w grŵp a sut i ddilyn y polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol;
- bod pob ymarferydd yn gallu cael gafael ar Weithdrefnau Diogelu Cymru ac yn cydymffurfio â nhw.

**22D** – Ensure child-friendly and multisectoral intervention in cases of child abuse avoiding re-victimisation and providing comprehensive support, including psychological recovery;

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru a Chanllawiau Ymarfer Cymru Gyfan yn helpu ymarferwyr i ddeall eu dyletswyddau cyfreithiol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac yn hyrwyddo arferion diogelu cyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn asiantaethau a ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn a chyngor i osgoi sefyllfa lle mae plentyn yn cael ei gam-drin dro ar ôl tro/arfer beio'r dioddefwr.

Cyhoeddwyd Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 7 – Diogelu Plant rhag Camfanteisio Rhywiol ar 18 Mawrth 2021 ac mae'n nodi gofynion i helpu plant i adfer ar ôl cael eu cam-drin drwy ddefnyddio dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n ystyriol o drawma.

Mae Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol yn cynnwys camau gweithredu i Lywodraeth Cymru a Byrddau Diogelu partner helpu plant i adfer ar ôl cael eu cam-drin drwy ddefnyddio dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n ystyriol o drawma.

**22E** – Protect child victims and witnesses of violence and sexual abuse throughout legal proceedings, by ensuring that video-recorded interviews are conducted without undue delay and allowed as evidence-in-chief in court, that their views are given due weight and that they receive legal representation, compensation for damages and support from a Barnahus or similar child-centred model for children affected by sexual abuse;

Mae cefnogi dioddefwyr trais rhywiol a sicrhau y gallant droi at weithwyr proffesiynol hyfforddedig a phrofiadol i gael help, cymorth a chyngor yn flaenoriaeth allweddol ac rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid ar yr agenda hon.

Mae gwaith yn cael ei ddatblygu gan Gydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru mewn partneriaeth â rhanddeiliaid eraill o dan Fwrdd Rhaglen Gwasanaeth Ymosodiadau Rhywiol Cymru yn cynnwys ystyried amrywiaeth o fodelau ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried gwerthuso cynllun peilot 'Child House' yn Llundain, pan fydd ar gael, er mwyn adeiladu ar yr hyn sydd eisoes yn cael ei ddarparu yn y Canolfannau Atgyfeirio Cam-drin Rhywiol. Mae'r dulliau gweithredu amlasiantaethol sydd eisoes yn cael eu defnyddio yn sicrhau y caiff plentyn sydd wedi cael ei gam-drin yn rhywiol ei gefnogi yn y ffordd fwyaf priodol, gyda staff yn cael eu hyfforddi'n benodol i weithio gyda phlant. At hynny, mae'r Swyddfa Gartref yn datblygu Safonau 'Child House'. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu at ddatblygu'r safonau hyn.

Mae Rhaglen Gwasanaeth Ymosodiadau Rhywiol Cymru yn brosiect gwella a arweinir gan Gydweithrediaeth y GIG gan weithio gyda'r heddlu, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ac mewn partneriaeth â'r trydydd sector arbenigol. Mae'r rhaglen yn llywio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y plentyn/unigolyn er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i ddioddefwyr cam-drin a thrais rhywiol, gyda lle canolog i lais y dioddefwr. Caiff Grŵp Ymgysylltu â Gwasanaethau ei sefydlu er mwyn cefnogi'r rhaglen wrth iddi fynd ati i roi gwasanaethau ar waith, gan sicrhau bod defnyddwyr a darparwyr y gwasanaethau yn cael eu cynnwys yn barhaus yn y datblygiadau.

**22F** – Tackle cyberbullying, online sexual exploitation and abuse, gang-related violence and knife crime against children;

Cyhoeddwyd Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 7, Diogelu Plant rhag Camfanteisio Rhywiol ar 18 Mawrth 2021 ac mae'n nodi gofynion ar bartneriaid diogelu a chyngor ar atal Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, diogelu plant rhag camfanteisio rhywiol ac ymateb i blant sydd wedi cael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol. Mae hyn yn cynnwys camfanteisio rhywiol ar-lein ac yn nodi natur gydgysylltiedig camfanteisio troseddol ar blant.

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn cefnogi arferion diogelu cyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn asiantaethau a ledled Cymru ac yn esbonio dyletswyddau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae nifer o Ganllawiau Ymarfer Cymru Gyfan wedi'u cyhoedd, gan gynnwys y canllawiau amlasiantaethol canlynol:

- Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan – diogelu plant rhag camfanteisio rhywiol;
- Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan – diogelu plant rhag Camfanteisio Troseddol ar Blant;
- Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan – diogelu plant rhag cam-drin ar-lein.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i fynd i'r afael â chamfanteisio a cham-drin rhywiol ar-lein ac mae a wnelo nifer o gamau gweithredu yn 'Gwella cadernid digidol mewn addysg: Cynllun gweithredu i ddiogelu plant a phobl ifanc ar-lein' â'r ymrwymiad cyffredinol hwn, gan gynnwys:

- Cam Gweithredu 2.19 – parhau i hyrwyddo adnoddau addysg dwyieithog Thinkuknow, gan Ganolfan NCA-CEOP (yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol – Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein), y bwriedir iddynt rymuso plant a phobl ifanc a'u diogelu rhag cam-drin a chamfanteisio rhywiol.
- Cam gweithredu 4.10 – parhau i hyrwyddo canllawiau Llywodraeth Cymru i leoliadau addysg yng Nghymru 'Rhannu delweddau noeth a rhannol noeth: ymateb i ddigwyddiadau a diogelu plant a phobl ifanc' a'r modiwl hyfforddiant ategol er mwyn helpu ymarferwyr mewn lleoliadau addysg i ddatblygu gweithdrefnau effeithiol ar gyfer ymdrin â digwyddiadau a'u rhoi ar waith.
- Cam gweithredu 5.5 – parhau i gefnogi'r Prosiect Datblygu Cadernid yn erbyn Achosion o Feithrin Perthynas Amhriodol Ar-lein a arweinir gan Brifysgol Abertawe, sy'n cynnwys datblygu DRAGON-Shield, sef llwyfan hyfforddiant digidol rhyngweithiol a phecyn adnoddau i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant sydd wedi profi achosion o feithrin perthynas amhriodol ar-lein neu sy'n wynebu risg o hynny.
- Camau gweithredu 6.2 – 6.4 – adeiladu ar ein cyfres gynhwysfawr bresennol o adnoddau diogelwch ar-lein i'n cynulleidfaoedd allweddol, sy'n cynnwys ymarferwyr, llywodraethwyr, rhieni/gofalwyr a phlant a phobl ifanc.
- Cam gweithredu 7.9 – datblygu hyfforddiant er mwyn sicrhau y gall pob aelod o staff mewn ysgolion ymdrin ag achosion o aflonyddu rhywiol ar-lein a bod ganddynt yr hyder i wneud hynny.

Mae ardal adnoddau Cadw'n ddiogel ar-lein yn cynnwys gwybodaeth a chyngor ar amrywiaeth eang o faterion, gan gynnwys meithrin perthynas amhriodol ar-lein, perthnasoedd iach, aflonyddu rhywiol ar-lein, casineb ar-lein a bwlio ar-lein. Bwriedir i'r adnoddau sicrhau bod gan blant a phobl ifanc y sgiliau i allu adnabod a lliniaru risgiau er mwyn cadw'n ddiogel rhag niwed ar-lein a cheisio cymorth pan fydd ei angen arnynt. Gall adnoddau sydd wedi'u hanelu at ymarferwyr eu helpu i addysgu plant a phobl ifanc am y materion hyn yn ogystal â diogelu a chefnogi plant a phobl ifanc sydd wedi dioddef aflonyddu neu sydd wedi cael eu cam-drin, yn effeithiol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol, Cadw Dysgwyr yn Ddiogel er mwyn helpu ysgolion i greu a chynnal amgylchedd dysgu diogel i blant, sy'n cynnwys adran ar gadw dysgwyr yn ddiogel ar-lein. At hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu adnodd archwilio diogelu a chyfres o e-fodiwlau er mwyn rhoi cymorth i ysgolion (a phob lleoliad addysg arall) er mwyn sicrhau bod systemau effeithiol ar waith i gyflawni eu rhwymediaethau diogelu cyfreithiol yn unol â chanllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel.

Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn ofyniad statudol yn fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a bydd yn orfodol i bob dysgwr yng Nghymru o fis Medi 2022 ymlaen. Cyhoeddwyd Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ym mis Ionawr 2022 ac mae'n cynnwys dysgu gorfodol sy'n briodol i ddatblygiad y dysgwr am ddiogelwch ar-lein a fydd yn helpu dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiadau a fydd yn helpu i'w diogelu drwy gydol eu bywyd a gwella eu llesiant.

## Arferion niweidiol

Disgrifiwch y camau a gymerwyd i wneud y canlynol:

**23A** – Prevent, investigate and prosecute cases of female genital mutilation, forced marriage, virginity testing and violence committed in the name of honour, and ensure that child victims have access to appropriate remedies

Mae Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2022-2026 Llywodraeth Cymru yn amlinellu chwe amcan allweddol er mwyn helpu i gyflawni nod y Llywodraeth i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r chwe amcan hyn yn cyfrannu at gyfeiriad y gwaith o fynd i'r afael â'r arferion niweidiol a amlinellwyd. Mae Llywodraeth Cymru yn cadeirio'r Grŵp Arwain ar Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod, Trais ar sail Anrhydedd a Phriodas dan Orfod, ar y cyd â BAWSO a Gwasanaeth Erlyn y Goron. Nod y grŵp hwn yw atal arferion niweidiol a diogelu a chefnogi plant ac oedolion rhag yr arferion hyn.

Mae canllawiau amlasiantaethol wedi'u datblygu i Gymru a Lloegr ac maent ar gael i ymarferwyr yng Nghymru, ynghyd ag e-boster a ffeithlen ar Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod sydd wedi'u dosbarthu i athrawon drwy rwydwaith Hwb a gweithwyr mewn canolfannau ieuenctid.

Comisiynwyd Karma Nirvana, sef elusen cam-drin ar sail anrhydedd brofiadol, i ddarparu hyfforddiant rhithwir am ddim o fis Ionawr 2021 tan ddiwedd mis Mawrth 2021 i bob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio yn y sector statudol a'r sector gwirfoddol. Bydd yr hyfforddiant hwn yn galluogi dysgwyr i ddeall ac adnabod achosion o gam-drin ar sail anrhydedd; rheoli datgeliadau o gam-drin ar sail anrhydedd ac ymateb iddynt yn ddiogel; adnabod dangosyddion risg posibl mewn achosion o gam-drin ar sail anrhydedd; darparu 'mannau amlasiantaethol mwy diogel' i ddioddefwyr a goroeswyr siarad; ac ehangu 'mannau diogel' i ddioddefwyr a goroeswyr wneud datgeliadau.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno gwelliannau i'r Ddeddf Iechyd a Gofal er mwyn gwneud hymenoplasti a phrofion gwyryfdod yn anghyfreithlon. Yn dilyn Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, mae'r Senedd wedi cytuno y dylai'r gwelliannau hyn fod yn gymwys i Gymru hefyd.

- Cyflwynwyd y Ddeddf Iechyd a Gofal yn Nhŷ'r Cyffredin ar 6 Gorffennaf 2021. Mae'r Ddeddf wedi cwblhau ei hynt drwy Dŷ'r Cyffredin a dechreuwyd ystyried y Ddeddf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 24 Tachwedd, gyda chyfnod Pwyllgor yr Arglwyddi yn dechrau ar 11 Ionawr 2022. Cafodd y Ddeddf Iechyd a Gofal Gydsyniad Brenhinol ar 28 Ebrill 2022.
- Mae profion gwyryfdod a hymenoplasti wedi'u troseddoli. Dyddiad cychwyn yr adrannau o'r Ddeddf Iechyd a Gofal sy'n troseddoli profion gwyryfdod a hymenoplasti yw 1 Gorffennaf 2022.
- Gan y bydd cyfraith y DU yn ymdrin â phrofion gwyryfdod a hymenoplasti, mae Llywodraeth y DU yn datblygu canllawiau amlasiantaethol sy'n ymdrin â'r ddau fater hyn a ddylai gael eu darllen a'u dilyn gan bob unigolyn a chorff ledled y DU sydd â dyletswydd i ddiogelu plant ac oedolion yn eu gofal a rhoi sylw dyledus i'r angen i'w diogelu.

**23B** – Prevent the unnecessary medical or surgical treatment of intersex children and provide adequate counselling and access to remedies for children subjected to such treatment

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Dr Hilary Cass OBE, cyn-Lywydd Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant, sydd wedi'i gomisiynu gan NHS England i arwain adolygiad annibynnol o wasanaethau hunaniaeth rhywedd i blant a phobl ifanc.

Bydd yr adolygiad yn eang ei gwmpas, gan edrych ar sawl agwedd ar wasanaethau hunaniaeth rhywedd a chanolbwyntio ar sut y gellir gwella gofal i blant a phobl ifanc, gan gynnwys agweddau allweddol ar ofal megis sut a phryd y cânt eu hatgyfeirio at wasanaethau arbenigol a phenderfyniadau clinigol am y ffordd y mae meddygon a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn cefnogi cleifion â dysfforia rhywedd ac yn gofalu amdanynt.

Bydd hefyd yn nodi argymhellion ar gyfer y gweithle i weithwyr gofal iechyd arbenigol ac yn ystyried y cynnydd diweddar yn nifer y plant sy'n ceisio triniaeth.

Wedyn, bydd Dr Cass yn gwneud argymhellion clir ar gyfer gwasanaethau hunaniaeth rhywedd plant a phobl ifanc gan adrodd yn ôl y flwyddyn nesaf. Er i'r adolygiad ganolbwyntio ar drefniadau yn Lloegr, byddant yn gymwys yn yr un modd i wasanaethau yng Nghymru.

Rheolir Gwasanaeth Datblygu Hunaniaeth Rhywedd Plant a'r Glasoed gan Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG Tavistock a Portman, yr atgyfeirir plant o Gymru ato hefyd. Yng Nghymru, ceir y mesur diogelu ychwanegol o fynnu asesiad gan CAMHS cyn i unigolyn gael ei atgyfeirio at y Gwasanaeth Datblygu Hunaniaeth Rhywedd.



# E. Amgylchedd teuluol a gofal amgen (erthyglau 5, 9–11, 18 (1) a (2), 20, 21, 25 a 27 (4))

## Amgylchedd teuluol

Disgrifiwch y camau a gymerwyd i wneud y canlynol:

**24A** – Allocate sufficient resources for childcare and family support to ensure that childcare services are available to all those who need it, regardless of parents' employment status;

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd mynediad at gyfleoedd addysg a gofal o ansawdd uchel yn gynnar yn y blynyddoedd cynnar i bob plentyn a theulu.

### Ansawdd uchel

Mae 'Early Childhood Education and Care' (ECEC) yn cefnogi datblygiad plant, yn helpu i fynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad ac yn galluogi rhieni, yn enwedig mamau, i weithio.

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, drwy'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant, sicrhau, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol, y darperir gofal plant digonol i blant hyd at 18 oed er mwyn galluogi rhieni i weithio a chael hyfforddiant. Er mwyn helpu i gyflawni'r ddyletswydd hon, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i asesu'r galw am ofal plant a'r cyflenwad o ofal plant ac i lunio a gweithredu cynlluniau i lenwi unrhyw fylchau neu fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau a nodir. Caiff Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant eu paratoi bob pum mlynedd a disgwylir i'r asesiadau llawn nesaf gael eu cynnal ym mis Medi 2022. Cyflwynir adroddiadau ar gynlluniau gweithredu bob blwyddyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu gofal plant rhan-amser a ariennir ar gyfer pob plentyn 2-3 oed mewn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru drwy raglen Dechrau'n Deg, ni waeth beth fo statws cyflogaeth rhieni. Yn unol â'n hymrwymiadau yn ein Rhaglen Lywodraethu, caiff darpariaeth y blynyddoedd cynnar ei hymestyn i gynnwys pob plentyn 2-3 oed yng Nghymru, gan ddarparu 12.5 awr o ofal plant yr wythnos. Caiff y ddarpariaeth estynedig hon ei chyflwyno'n raddol ym mis Medi 2022.

Mae gan bob plentyn 3-4 oed hawl i o leiaf 10 awr o addysg gynnar ran-amser yng Nghymru ni waeth beth fo statws cyflogaeth rhieni. Mae'r ddarpariaeth hon, sy'n dechrau yn y tymor ar ôl i blentyn gyrraedd 3 oed, yn parhau nes i'r plentyn ddechrau'n llawnamser yn yr ysgol. Mae lefel y ddarpariaeth yn amrywio rhwng awdurdodau lleol, gyda rhai yn darparu mwy na'r isafswm statudol. Gellir cynnig y ddarpariaeth addysg gynnar hon mewn lleoliad a gynhelir (ysgol) neu leoliad nas cynhelir (gofal plant cofrestredig). At hynny, gall plant 3-4 oed rhieni sy'n gweithio gael oriau ychwanegol o ofal plant a ariennir bob wythnos drwy Gynnig Gofal Plant Cymru. Mae'n darparu 30 awr o addysg gynnar a gofal plant gyda'i gilydd am 48 wythnos y flwyddyn i rieni cymwys sy'n gweithio. Mae'r Cynnig Gofal Plant yn cael ei ymestyn i gynnwys rhieni mewn addysg neu hyfforddiant o fis Medi 2022 ymlaen, yn unol â'n hymrwymiadau yn ein Rhaglen Lywodraethu.

**24B** – Support families to ensure that both parents share the responsibilities for the upbringing and development of their children, including by encouraging the use of shared parental leave.

Mae Rhianta yng Nghymru: Canllawiau ar ymgysylltiad a chymorth yn nodi ein disgwyliadau o ran sut y dylid darparu cymorth. Mae'n annog awdurdodau lleol i fabwysiadu dull cyson o ddarparu cymorth rhianta gyda chontinwwm cydlynol o gymorth er mwyn diwallu anghenion rhieni â phlant o oedrannau gwahanol, ar gyfnodau gwahanol ac â lefelau gwahanol o angen.

Mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru gyfrifoldeb am benderfynu union natur y gwasanaethau lleol a ddarperir yn dibynnu ar amgylchiadau lleol ac anghenion a nodwyd yn eu hardaloedd eu hunain. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i awdurdodau lleol sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chymorth o wahanol fathau ar gael i deuluoedd er mwyn diwallu amrywiaeth o anghenion. Er y gall gwasanaethau cymorth rhianta a theuluoedd fod ychydig yn wahanol ym mhob ardal.

Mae helpu rhieni i fabwysiadu dulliau rhianta cadarnhaol yn rhan annatod o raglenni Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf. Mae'n parhau i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau plant yn rhai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig.

Drwy ein Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar, rydym yn gweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Cymru i dreialu modelau a dulliau gweithredu gwahanol er mwyn darparu gwasanaethau blynyddoedd cynnar mwy integredig ac ymatebol, gan sicrhau bod plant a theuluoedd yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i'w galluogi i gyflawni eu potensial llawn a chael y dechrau gorau mewn bywyd, gan adeiladu ar ddulliau a ddefnyddir yn Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf.

## Plant wedi'u hamddifadu o amgylchedd teuluol

Disgrifiwch y camau a gymerwyd i wneud y canlynol:

**25A** – Ensure the provision of preventive services, such as social protection measures for families, to prevent children from entering alternative care;

**25B** – Prevent the arbitrary removal of children from their families;

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i atal plant rhag dod yn rhan o'r system ofal, pan fo'n ddiogel gwneud hynny, drwy weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod teuluoedd sy'n wynebu anawsterau yn cael cymorth a thrwy fabwysiadu dull wedi'i dargedu o fuddsoddi mewn gwasanaethau ataliol.

Er mwyn rhoi ffocws penodol ar ostwng nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru, yn 2019 gofynnodd y Prif Weinidog am i ddull gweithredu wedi'i dargedu gael ei ddatblygu ar y cyd â'r awdurdodau lleol. Gweithiodd swyddogion yn agos gyda'r holl awdurdodau lleol i ddatblygu cynlluniau gostyngiad disgwyliedig sy'n cwmpasu'r cyfnod o dair blynedd rhwng 2019-20 a 2021-22. Mae Plant sy'n Derbyn Gofal: asesiad o'r effaith ar hawliau plant yn rhoi mwy o fanylion am y polisi hwn.

Mae Rhaglen Lywodraethu 2021 Llywodraeth Cymru yn parhau i ganolbwyntio ar atal ac ymyrryd ynghynt er mwyn helpu i sicrhau bod plant yn aros gyda'u teuluoedd.

Mae'r ymrwymiadau perthnasol yn y Rhaglen Lywodraethu yn nodi gweledigaeth newydd ar gyfer Gwasanaethau Plant. Mae Llywodraeth Cymru am weld llai o blant a phobl ifanc yn dod yn rhan o'r system ofal, drwy ddarparu'r cymorth cywir ar yr adeg gywir i deuluoedd sy'n mynd drwy gyfnod anodd. Rydym yn canolbwyntio ar gadw teuluoedd gyda'i gilydd drwy fabwysiadu dull cadarn, ategol a chyfannol o gyflawni ein huchelgais ar gyfer plant a theuluoedd yng Nghymru.

Er mwyn cefnogi a chyflawni'r rhaglen waith, mae gennym gyllideb rhaglen Newid o tua £28m dros y tair blynedd nesaf. Bydd y rhaglen hon yn darparu ymyriadau ataliol ar gyfer teuluoedd â phlant sydd ar ffiniau gofal, gan gynnwys gwasanaethau eirioli i rieni, cynadleddau grŵp teulu, diwygiadau i'r system Cyfiawnder Teuluol a fframwaith ymarfer cenedlaethol.

Mae ymrwymiadau penodol yn cynnwys:

- Ystyried cyfleoedd radical i ddiwygio gwasanaethau plant.
- Atal teuluoedd rhag chwalu drwy ariannu gwasanaethau eirioli i rieni y mae eu plant mewn perygl o ddod yn rhan o'r system ofal.
- Darparu cymorth arbenigol ychwanegol i blant ag anghenion cymhleth a allai fod ar ffiniau'r system ofal.
- Parhau i gefnogi ein rhaglenni Dechrau'n Deg blaenllaw.

**25C** – Prevent the placement of children in unregulated alternative care or residential care homes without appropriate safeguards, and ensure that they have access to an independent complaint mechanism;

Mae gwasanaethau anrheoledig a gwasanaethau anghofrestredig yn ddau fath gwahanol o wasanaethau.

Gwasanaethau anghofrestredig yw gwasanaethau sy'n darparu gofal a llety ac, felly, y mae angen eu cofrestru.

Mae gan Arolygiaeth Gofal Cymru broses ar waith i wneud gwaith dilynol ar bob hysbysiad o wasanaeth a allai fod yn gweithredu heb gofrestriad. Lle y bo angen, cymerir camau gorfodi.

Daeth Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015 i rym ar 6 Ebrill 2016. Mae'r rheoliadau hyn yn cynnwys deddfwriaeth sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer gofalu am blentyn, sut y gwneir penderfyniadau lleoli, darpariaeth ar gyfer y mathau o leoliadau i blant, cyfrifoldebau awdurdodau lleol gan gynnwys cynllunio, ymweliadau ac adolygiadau o achosion. Mae hyn yn cynnwys lleoliadau mewn 'trefniadau eraill'.

Dehonglir y ddeddfwriaeth hon ymhellach yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Rhan 6 Cod Ymarfer sy'n nodi mai dim ond i blant dros 16 oed, lle mai cymorth yn unig sy'n cael ei ddarparu, y bydd lleoliadau anrheoledig yn briodol.

Gall fod amgylchiadau eithriadol lle y defnyddir lleoliadau anrheoledig ar gyfer plant o dan 16 oed. Pan fo'r lleoliadau hyn heb eu cofrestru, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru, yn unol â Chyfarwyddyd Ymarfer ac Atodiad Llywydd yr Adran Deulu:

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried opsiynau (sy'n cynnwys gwneud newidiadau deddfwriaethol) mewn perthynas â gwahardd defnyddio lleoliadau anrheoledig ar gyfer plant dan 16 oed yng Nghymru.

**25D** – Provide stability for children in care, including by retaining social workers to avoid unnecessary changes in placements, finding placements for children that facilitate contact with their biological parents and siblings, and providing specialist care to children with complex social care and mental health needs.

Daeth Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015 i rym ar 6 Ebrill 2016 ac mae'n cynnwys darpariaethau deddfwriaethol sy'n nodi'r trefniadau cynllunio gofal ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal. Mae hyn yn cynnwys manylion am yr hyn y mae'n rhaid i awdurdod lleol ei ystyried wrth ddod o hyd i leoliadau ar gyfer plentyn neu berson ifanc 'gan gynnwys trefniadau eraill' a nodir ar gyfer plentyn a chynnal y lleoliadau hynny. Mae'r trefniadau cynllunio gofal hefyd yn ystyried iechyd (gan gynnwys iechyd meddwl) ac anghenion addysgol pob plentyn neu berson ifanc yn ogystal â threfniadau cyswllt â rhieni biolegol, teuluoedd a brodyr a chwiorydd eraill.

Dehonglir y ddeddfwriaeth hon ymhellach yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Rhan 6 Cod Ymarfer sy'n nodi cyfrifoldebau awdurdodau lleol am drefniadau a chymorth ar gyfer pob plentyn sy'n derbyn gofal; ac yn Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 (cyfeiria adran 34.(1) ii atynt), sy'n sicrhau bod darparwyr gwasanaethau yn darparu digon o staff hyfforddedig, medrus, cymwys a phrofiadol i ddiwallu anghenion gofal a chymorth y plentyn neu'r person ifanc.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn datblygu cynllun ar gyfer y gweithlu, sy'n cynnwys ystyried ffyrdd o gynyddu nifer y gweithwyr cymdeithasol cymwysedig yng Nghymru. Lansiwyd Maethu Cymru yng Nghymru ar 15 Gorffennaf 2021. Mae Maethu Cymru yn frand Cymru gyfan ar gyfer gwasanaethau maethu awdurdodau lleol, sy'n darparu brand cenedlaethol cyson ar gyfer gwasanaethau maethu sy'n adlewyrchu cryfderau a phersonoliaethau'r 22 awdurdod lleol. Mae Maethu Cymru yn cynnig cyfle i gydbwyso'r gwasanaethau a ddarperir o'r newydd, ateb y galw, a gwella ansawdd y dewis o leoliadau i blant yng Nghymru.

.

Bydd Maethu Cymru yn gwneud y canlynol:

- Gwella hygyrchedd lleoliadau lleol, sicrhau bod nifer digonol ohonynt a chynyddu'r dewis sydd ar gael, a rhoi'r rheolaeth yn ôl i'r awdurdodau lleol wneud y defnydd gorau o'r lleoliadau hynny pan fydd eu hangen arnynt, gan leihau'r ddibyniaeth ar drydydd partïon a mynd i'r afael â'r prinder lleoliadau.
- Galluogi gwasanaethau i ddiwallu anghenion plant a theuluoedd sy'n datblygu. Caiff ymgyrchoedd recriwtio eu targedu i ddiwallu anghenion gwasanaethau.
- Hwyluso'r broses o recriwtio cronfa newydd o ofalwyr maeth. Gall prosesau recriwtio a hyfforddi ganolbwyntio ar feithrin sgiliau mewn gwaith ailuno, anghenion cymhleth a maethu rhiant a phlentyn.
- Galluogi plant y mae angen gofalwr maeth arnynt i gael y gofalwr maeth cywir, ar yr adeg gywir ac yn y lleoliad cywir.

## Parhad Cynnar Cymru

Ar 11 Mai lansiwyd Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru Parhad Cynnar Cymru a'i fframwaith. Mae cynllunio Parhad Cynnar yn bennaf ar gyfer plant ifanc sy'n dod yn blant sy'n derbyn gofal y nodir bod ganddynt gynllun mabwysiadu tymor hwy posibl ond y gellid eu hailuno â'u teuluoedd biolegol fel opsiwn parhad.

Bydd y Fframwaith yn galluogi plant sy'n derbyn gofal y gallai fod angen teulu arnynt i'w mabwysiadu, drwy gynllun tracio dwbl (h.y. gofal maeth neu leoliad mabwysiadu). Y nod fydd lleoli plant gyda gofalwyr sydd â chymeradwyaeth ddeuol fel mabwysiadwyr a gofalwyr maeth, gan alluogi plant sy'n derbyn gofal i brofi cyn lleied o newidiadau mewn lleoliad â phosibl.

Megis dechrau y mae'r broses o gyflwyno Parhad Cynnar Cymru ledled Cymru. Mae pob un o'r pum rhanbarth mabwysiadu wedi ymrwymo i'r fframwaith ar ôl cyflogi un aelod o staff i oruchwylio'r gwaith o reoli'r cynllun hwn.

**25E** – Support children leaving care

Mae ein Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n cael eu Lletya) i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi mai 'un o'r canlyniadau allweddol ar gyfer pob person ifanc sy'n gadael gofal yw ei fod yn derbyn y cymorth sydd ei angen arno i bontio'n llwyddiannus i fyd oedolion a symud tuag at fywyd mwy annibynnol'.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i weithio gyda'n partneriaid er mwyn gwneud yn siŵr bod pobl ifanc sy'n gadael gofal yn pontio'n llwyddiannus i fyd oedolion.

Fel rhan o'r ymrwymiad hwn mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ychwanegol er mwyn ymestyn cymorth Cynghorydd Personol i bobl ifanc 21-25 oed sy'n gadael gofal ac rydym yn bwriadu deddfu er mwyn sicrhau bod gan bob unigolyn sy'n gadael gofal hawl i gael Cynghorydd Personol hyd at 25 oed, fel dyletswydd statudol.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi sefydlu Cronfa Dydd Gŵyl Dewi o gyllid rheolaidd gwerth £1m i gefnogi pobl ifanc i bontio tuag at oedolion a byw'n annibynnol. Mae cyllid ar gael i awdurdodau lleol gynnig cyfleoedd i bobl ifanc ymgymryd â gweithgaredd a fydd yn gwella eu llesiant, cynnal eu hannibyniaeth neu gyfrannu at eu datblygiad personol.

Yng Nghymru, mae gennym gynllun 'Pan Fydda i'n Barod' hefyd. Mae hwn yn drefniant lle bydd person mewn gofal maeth yn aros gyda'i gyn-ofalwr maeth ar ôl iddo gyrraedd 18 oed. Sefydlwyd y cynllun hwn o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol weithredu eu cynlluniau 'Pan Fydda i'n Barod' eu hunain yn unol â chanllawiau cenedlaethol.

### Cynllun peilot incwm sylfaenol i bobl ifanc sy'n gadael gofal yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cynllun peilot incwm sylfaenol yng Nghymru. Bydd y cynllun peilot yn ychwanegu at y cymorth sydd ar gael i bobl ifanc wrth adael gofal ac yn asesu'r effaith y bydd hynny'n ei chael arnynt.

O dan y cynllun, cynigir cyfle i bob person ifanc sy'n gadael gofal ac sy'n 18 oed rhwng 1 Gorffennaf 2022 a 30 Mehefin 2023, ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru, gymryd rhan yn y cynllun peilot. Bydd y cynllun peilot yn rhedeg am o leiaf dair blynedd, gyda phob aelod o'r garfan yn cael taliad incwm sylfaenol o £1,600 y mis (cyn treth) am gyfnod o 24 mis o'r mis ar ôl eu pen-blwydd yn 18 oed. Ar y cyfraddau presennol, caiff pob derbynnydd £1,280 y mis ar ôl treth.

Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau na chaiff y taliad incwm sylfaenol ei ddiystyru at ddibenion budd-daliadau. Yn y rhan fwyaf o achosion, telir Incwm Sylfaenol yn lle budd-daliadau eraill. Bydd Awdurdodau Lleol/Cynghorwyr Person Ifanc a darparwyr cyngor eraill yn helpu pobl ifanc i benderfynu beth sydd orau iddyn nhw. O dan y cynllun peilot, bydd derbynwyr incwm sylfaenol yn dal i gael unrhyw fudd-daliadau Cymreig y byddai ganddynt hawl i'w cael pe na byddent wedi bod yn rhan o'r cynllun peilot.

Bydd unigolion sy'n cymryd rhan yn y cynllun peilot yn cael cynnig cyngor a chymorth ariannol annibynnol gyda sicrwydd ansawdd tra byddant yn cymryd rhan yn y cynllun peilot. Bydd y gwasanaeth yn rhoi cyngor uniongyrchol i bobl ifanc yn ogystal â chymorth cyngor 'ail haen' i weithwyr proffesiynol mewn awdurdodau lleol sy'n gweithio gyda phobl ifanc. Bydd hyn yn cynnwys cyngor ar bob cam, o weithio drwy 'gyfrifiad gwell eich byd' cyn y cynllun peilot i gyngor ar gyllidebu neu gymorth argyfwng ariannol i baratoi ar gyfer diwedd y cynllun peilot.

Caiff y dull o weithredu'r cynllun peilot, ei effaith a'i werth eu gwerthuso er mwyn ystyried sut mae'r Incwm Sylfaenol wedi cyfoethogi bywydau'r bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. Byddwn yn gwerthuso'r gwersi a ddysgwyd o'r cynllun peilot yn ofalus, gan gasglu barn a phrofiadau'r bobl ifanc a gymerodd ran ynddo. Byddwn yn gweithio gyda'r bobl ifanc yn ystod y cynllun peilot er mwyn iddynt allu cyfrannu at ein gwerthusiad dynamig a sicrhau bod ei ganlyniadau yn seiliedig ar brofiadau bywyd.

Bydd y gwerthusiad yn ystyried effaith y cynllun peilot o ran gwella'r profiadau o ofal unigol a'r ffordd y mae bod yn rhan o'r cynllun peilot wedi effeithio ar fywydau pobl ifanc.



# F. Iechyd a lles sylfaenol (erthyglau 6, 18 (3), 24, 26, 27 (1)–(3) a 33)

## Iechyd a gwasanaethau iechyd

Disgrifiwch y camau a gymerwyd i wneud y canlynol:

**26A** – Eliminate inequalities in health outcomes and in access to high-quality health services for children in disadvantaged situations

Mae lleihau anghydraddoldeb yn un o uchelgeisiau canolog Llywodraeth Cymru. Mae Cymru Iachach, sef cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, yn rhoi atal salwch wrth wraidd polisi a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Ers ei gyhoeddi, mae cynnydd wedi'i wneud o ran llunio polisi a strategaeth er mwyn helpu plant a phobl ifanc i aros yn iach.

Wrth wraidd system y blynyddoedd cynnar mae darpariaeth gyffredinol gwasanaethau gofal mamolaeth ac ymweliadau iechyd. Mae Rhaglen Plant Iach Cymru yn nodi amrywiaeth gyffredinol o gysylltiadau allweddol rhwng teuluoedd sydd â phlant rhwng 0 a 7 oed ac ymwelwyr iechyd. Mae'n gymwys i bob teulu ledled Cymru, ni waeth beth fo'i anghenion. Mae'r cysylltiadau cyffredinol hyn yn cwmpasu tri maes ymyrryd: sgrinio, imiwneiddio, a monitro a chefnogi datblygiad plant.

Ym mis Gorffennaf 2019, cyhoeddwyd Gofal Mamolaeth yng Nghymru – Gweledigaeth 5 Mlynedd ar gyfer y Dyfodol. Mae'n darparu fframwaith cenedlaethol er mwyn llywio gwasanaethau a chanlyniadau mamolaeth yn y dyfodol. Nod y Weledigaeth yw cynnig dull darbodus teg o ddarparu gofal mamolaeth, gan ddarparu gwasanaethau ac arbenigedd i fenywod sy'n eu galluogi i gael y profiadau a'r canlyniadau gorau wrth roi genedigaeth.

Mae Cynllun Gweithredu ar Fwydo ar y Fron wedi'i ddatblygu yng Nghymru sy'n cynnig mynediad teg i fenywod at gymorth proffesiynol a chymorth cymheiriaid gyda gwybodaeth i'w galluogi i fwydo ar y fron yn llwyddiannus, os mai hwn yw eu dewis ddull.

### Bwndeli babi

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i gyflwyno bwndeli babi i fwy o deuluoedd yng Nghymru. Mae hyn yn adeiladu ar y rhaglen beilot bwndeli babi, a ddarparodd fwndeli peilot rhwng mis Medi 2020 a mis Mawrth 2021. Cynhaliwyd y rhaglen beilot yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe lle y cafodd 200 o deuluoedd a oedd yn disgwyl babi fwndel. Roedd y bwndeli yn cynnwys amrywiaeth o gynhyrchion a gwybodaeth ar gyfer misoedd cyntaf y plentyn. Ar hyn o bryd, rydym yn ystyried sut y caiff y cynllun newydd ei roi ar waith a'i gyflawni.

### Sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu

Uchelgais Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod plant o bob cefndir yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd ac yn cyflawni eu potensial llawn. Cydnabyddir yn eang fod datblygiad plentyn yn ystod y blynyddoedd cynnar yn hanfodol. Mae hyn yn cynnwys plant yn caffael sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu a llafaredd sy'n sail i allu plentyn i ddarllen ac ysgrifennu a datrys problemau. Ceir cysylltiad cryf rhwng datblygiad gwybyddol cadarnhaol a llwyddiant plentyn yn yr ysgol a'i allu i ymuno â'r gweithlu. Gallai fod angen cymorth ychwanegol ar unrhyw blentyn, ni waeth ble mae'n byw na beth yw ei amgylchiadau teuluol, i fynd i'r afael ag oedi neu anawsterau o ran lleferydd, iaith a chyfathrebu. Ein nod yw sicrhau y gall plant ledled Cymru gael gafael ar gymorth o safon uchel, boed yn gymorth cyffredinol, yn gymorth ar gyfer grwpiau, yn gymorth wedi'i deilwra neu'n gymorth arbenigol yn y blynyddoedd cynnar – os oes angen – i feithrin eu sgiliau iaith, lleferydd a chyfathrebu. Mae cyhoeddi Siarad gyda fi: Cynllun Cyflawni ar gyfer Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu, sy'n ceisio

hyrwyddo gwelliant yn y ffordd y caiff plant yng Nghymru eu cefnogi i ddatblygu eu sgiliau iaith, lleferydd a chyfathrebu, yn gam mawr ymlaen. Y cynllun cyflawni trawsbynciol hwn ar gyfer iaith, lleferydd a chyfathrebu yw'r cyntaf o'i fath yn y Deyrnas Unedig.

Yn ddiweddar, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar Cymru Ddi-fwg: Ein strategaeth rheoli tybaco hirdymor i Gymru a'i chynllun cyflenwi dwy flynedd gyntaf ar gyfer 2022 i 2024. Mae'r strategaeth ddrafft yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer Cymru ddi-fwg erbyn 2030. Mae hyn yn golygu sicrhau cyfradd cyffredinrwydd smygu ymhlith oedolion o 5% neu lai dros yr wyth mlynedd nesaf.

Er mwyn helpu i gyflawni'r uchelgais hon, byddwn yn bwrw ymlaen â gwaith ar bob un o'n tair thema allweddol o Leihau Anghydraddoldebau, Cenedlaethau'r Dyfodol a Dull System Gyfan ar gyfer Cymru ddi-fwg. Mae smygu yn effeithio ar fywydau plant a phobl ifanc drwy gydol eu plentyndod, o feichiogrwydd i'r glasoed. Mae Thema Cenedlaethau'r Dyfodol yn canolbwyntio ar greu amgylchedd lle mai di-fwg yw'r norm i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru a sicrhau y bydd plant a phobl ifanc yn aros yn ddi-fwg pan fyddant yn oedolion.

Tuag at Gymru Ddi-fwg yw'r cyntaf yn y gyfres o Gynlluniau Cyflawni a fydd yn helpu i ddatblygu ymyriadau penodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n briodol ac wedi'u teilwra i fynd i'r afael â chyffredinrwydd smygu mewn grwpiau â blaenoriaeth. Ceir grwpiau a chymunedau yng Nghymru sy'n wynebu mwy o risg o ddechrau smygu neu sy'n profi mwy o effeithiau iechyd o ganlyniad i smygu. Mae'r rhain yn cynnwys menywod beichiog a phlant a phobl ifanc. Mae cefnogi plant a phobl ifanc i gael plentyndod di-fwg yn rhan allweddol o'n gweledigaeth ar gyfer Cymru ddi-fwg.

### Urddas Mislif

Ym mis Hydref 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Urddas Mislif er mwyn ymgynghori arno. Mae'r Cynllun yn nodi dull Llywodraeth Cymru o sicrhau urddas mislif yng Nghymru. Mae'r Cynllun yn amlinellu cyfres o gamau gweithredu eang, cyfannol a chroestoriadol ac, ochr yn ochr â chyllid blynyddol gwerth £3m y flwyddyn er mwyn darparu cynhyrchion mislif i ddysgwyr a'r rhai ar incwm isel, ei nod yw mynd i'r afael â thlodi mislif a sicrhau urddas mislif yng Nghymru.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i roi arian i awdurdodau lleol ddarparu cynhyrchion mislif am ddim mewn ysgolion a chymunedau. Rhoddir arian i golegau Addysg Bellach at yr un diben hefyd. Mae cryn dipyn o waith trawslywodraethol ar addysg ac iechyd hefyd ac rydym yn cydweithio ag adnodd gwe'r GIG, "Mislif Fi".

**26B** – Address malnutrition, overweight and obesity among children, and assess the effectiveness of policies and programmes on child food security and nutrition;

Lansiwyd strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach ar 17 Hydref 2019. Mae'r strategaeth yn gynllun 10 mlynedd i flaenoriaethu ymyrraeth gynnar a newid ymddygiad ar bob lefel er mwyn newid ein harferion a hyrwyddo gweithgarwch iach. Mae'r strategaeth yn nodi pedair thema gan gynnwys amgylcheddau iach, lleoliadau iach, pobl iach ac arweinyddiaeth a galluogi newid.

Hyd yma, rydym wedi buddsoddi tua £9m rhwng 2020 a 2022 ac wedi cynyddu ein buddsoddiad i fwy na £13m ar gyfer 2022-24 er mwyn dwyn ynghyd raglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth ryngwladol a fydd yn helpu i gyflawni newidiadau hollbwysig.

Hyd yma, rydym wedi buddsoddi tua £9m rhwng 2020 a 2022 ac wedi cynyddu ein buddsoddiad i fwy na £13m ar gyfer 2022-24 er mwyn dwyn ynghyd raglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth ryngwladol a fydd yn helpu i gyflawni newidiadau hollbwysig.

Fel rhan o'r camau gweithredu ar gyfer 2022-24, mae Cynlluniau Peilot i Blant a Theuluoedd yn cael eu cynnal mewn tair ardal, sef Caerdydd, Merthyr Tudful ac Ynys Môn. Un o elfennau craidd y dull gweithredu hwn yw'r broses o roi ymyriad atal eilaidd ar waith yn y cartref i deuluoedd â phlant yn y sector blynyddoedd cynnar, sef rhwng 3 a 7 oed, yn unol â'r cyfnod sylfaen.

Hefyd drwy'r Strategaeth, mae Byrddau Iechyd yng Nghymru wedi dyrannu £2.9m er mwyn datblygu eu Llwybr Rheoli Pwysau Cymru Gyfan. Fel rhan o'r cyllid parhaus ar gyfer hyn yn 2022-24, gofynnwyd i fyrddau iechyd sicrhau eu bod yn defnyddio'r cyllid i wella'r broses o ddatblygu llwybr penodol i blant a theuluoedd.

Mae'r llwybr yn nodi'r elfennau a'r egwyddorion allweddol sy'n sail i'r gwaith o gynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau rheoli pwysau i boblogaeth Cymru. Mae wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â gweithwyr proffesiynol gan gynnwys deietegwyr, maethegwyr, seicolegwyr a meddygon sy'n gweithio yn y maes hwn ym mhob agwedd ar reoli pwysau gan ddefnyddio'r dystiolaeth ryngwladol orau sydd ar gael. Bydd y llwybr diwygiedig yn darparu cymorth tosturiol er mwyn helpu pobl ar eu taith rheoli pwysau a bydd yn rhedeg ochr yn ochr â'n strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach er mwyn annog pobl i wneud dewisiadau iachach a byw bywydau mwy egnïol.

Ar 9 Mehefin 2022, lansiodd Llywodraeth Cymru Ymgyghoriad Amgylchedd Bwyd Iach sy'n cynnwys cynigion deddfwriaethol i wella'r amgylchedd bwyd a'i gwneud hi'n haws i bobl wneud dewisiadau iach. Mae'r cynigion yn cynnwys:

- Cyfyngu ar hyrwyddo cynhyrchion sy'n cynnwys lefelau uchel o fraster, halen neu siwgr mewn lleoliadau manwerthu a phris y cynhyrchion hynny
- Cyfyngu ar hyrwyddo cynhyrchion sy'n cynnwys lefelau uchel o fraster, halen neu siwgr mewn mannau penodol mewn lleoliadau manwerthu
- Labeli calorïau gorfodol a chyfyngu ar faint dognau/yr arfer o ail-lenwi diodydd meddal llawn siwgr am ddim yn y sector y tu allan i'r cartref
- Adolygu cymorth cynllunio a thrwyddedu presennol er mwyn mynd i'r afael â dosbarthiad Siopau Tecawê Bwyd Poeth, yn enwedig ger ysgolion a cholegau.

## Prydau Ysgol am Ddim

Bwriedir i brydau ysgol am ddim gefnogi plant o aelwydydd â'r incwm isaf er mwyn gwella canlyniadau iechyd ac addysg. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu cinio ysgol am ddim i ddisgyblion cymwys. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gyflwyno Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd.

Yn ystod y pandemig, Cymru oedd y wlad gyntaf o blith gwledydd y DU i gadarnhau y byddai prydau ysgol am ddim yn cael eu darparu yn ystod gwyliau'r haf. Neilltuodd Llywodraeth Cymru fwy na £100m er mwyn sicrhau na fyddai'r un plentyn sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn llwgu yn ystod y diwrnod ysgol nac yn ystod y gwyliau rhwng mis Mawrth 2020 a mis Awst 2022.

## Rheoliadau Bwyta'n Iach

Rhaid i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir gydymffurfio â Rheoliadau Bwyta'n Iach Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013. Mae'r Rheoliadau yn nodi'r math o fwyd a diod y gellir eu darparu yn ystod y diwrnod ysgol. Fe'u hategir gan Bwyta'n iach mewn ysgolion a gynhelir: canllawiau statudol.

## Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd

Mae gan blant hawl i gael brecwast am ddim os yw'r ysgol gynradd y maent yn mynd iddi yn cael ei chynnal gan yr awdurdod lleol ac yn rhedeg clwb brecwast am ddim. Gall rhieni ofyn i ysgolion weithredu'r cynllun os nad oes unrhyw ddarpariaeth brecwast am ddim ar gael.

Nod y fenter yw cynnig cyfle i ddisgyblion o oedran ysgol gynradd sydd wedi'u cofrestru mewn ysgolion cynradd a gynhelir yng Nghymru, gael brecwast iach am ddim yn yr ysgol bob dydd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno lwfans brecwast ychwanegol i ddisgyblion blwyddyn 7 sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

## Llaeth Ysgol

Mae llaeth a ddarperir i ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen am ddim yng Nghymru, yn yr ysgolion hynny sy'n cymryd rhan yn y cynllun llaeth ysgol. Gall ysgolion hefyd ddarparu llaeth cymorthdaledig i ddisgyblion hyd at 11 oed.

## Cwricwlwm i Gymru

Wrth wraidd fframwaith y Cwricwlwm newydd i Gymru, y disgwylir iddo gael ei gyflwyno o fis Medi 2022 ymlaen, mae pedwar diben sy'n sail i bob penderfyniad a wneir am y cwricwlwm newydd. Un o'r pedwar diben yw helpu plant a phobl ifanc i fod yn 'unigolion hyderus iach'.

Nod Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh) Iechyd a Lles, sy'n elfen allweddol o'r cwricwlwm newydd, yw sicrhau bod cyfleoedd i ddysgu a chefnogi pob person ifanc yng Nghymru yn cael eu darparu mewn perthynas â materion fel iechyd corfforol, meddyliol ac emosiynol.

Gall y MDPh hwn helpu dysgwyr i ddeall y ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a llesiant corfforol. Mae hyn yn cynnwys arferion sy'n hybu iechyd megis gweithgarwch corfforol, gan gynnwys y canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt: chwaraeon; maeth; deiet cytbwys; gofal a hylendid personol; cwsg; ac amddiffyn rhag haint. Mae hyn yn cynnwys dealltwriaeth o ymddygiadau sy'n niweidio iechyd.

O'r ddealltwriaeth hon, gall dysgwyr ddatblygu ymddygiadau cadarnhaol sy'n seiliedig ar wybodaeth sy'n eu hannog i ofalu amdanyn nhw eu hunain ac eraill a pharchu eu hunain ac eraill. Mae'r ymddygiadau hyn yn meithrin ymdeimlad dysgwyr o hunan-werth, eu hwyliau cyffredinol a'u lefelau egni.

Caiff dysgwyr eu hannog i ddatblygu'r hyder, y cymhelliant, y cymhwysedd corfforol, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth a all eu helpu i fyw bywydau iach ac egnïol sy'n hyrwyddo iechyd a llesiant corfforol da.

Bydd diwygio'r Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion a'r canllawiau Statudol yn sicrhau bod prydau sy'n cael eu darparu gan ysgolion o'r safon uchaf er mwyn helpu plant a phobl ifanc i wneud dewisiadau iach.

**26C** – Raise awareness on the importance of breastfeeding and implement the International Code of Marketing of Breast-milk Substitutes;

Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu ar Fwydo ar y Fron yn 2019 gan fod Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd bwydo ar y fron er mwyn hyrwyddo llesiant y fam a'r baban ac rydym yn ymrwymedig i gynyddu cyfraddau bwydo ar y fron. Mae'n darparu fframwaith cenedlaethol er mwyn helpu menywod a theuluoedd i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am sut i fwydo eu baban a chychwyn a pharhau i fwydo ar y fron gyhyd ag y byddant yn dymuno gwneud hynny.

Mae'r Cynllun Gweithredu wedi nodi'r hyn sydd angen ei wneud yn genedlaethol ac yn lleol er mwyn cyflawni naw cam gweithredu cyffredinol. Nod y camau gweithredu yw sicrhau bod rhwydweithiau a systemau cyson a chlir ar waith er mwyn cefnogi menywod a theuluoedd yn ogystal â darparu'r cyfeiriad strategol a gweithredol, yr atebolrwydd a'r arweinyddiaeth angenrheidiol i'r bobl sy'n gweithio gyda nhw er mwyn gwella canlyniadau bwydo ar y fron.

Mae trefniadau gweithredu yn rhan annatod o'r Cynllun Gweithredu ac maent yn canolbwyntio ar ymgysylltu â'r ystod ehangaf posibl o randdeiliaid a phartneriaid allweddol. Mae cynnwys mamau a theuluoedd yn uniongyrchol yn rhan o'r broses o gyflawni'r Cynllun Gweithredu ar Fwydo ar y Fron.

Mae deddfwriaeth yn y DU sy'n ymdrin â labelu a marchnata llaeth fformiwla babanod a fformiwla ddilynol. Mabwysiadodd y DU gyfarwyddeb yr UE sy'n llywio Rheoliadau OS y DU ar Fwydydd i Grwpiau Penodol (FSG) (609/2013) sy'n cynnwys deddfau dirprwyedig – mae a wnelo rheoliad dirprwyedig 2016/127 yr UE â fformiwla babanod a fformiwla ddilynol.

Rhaid cyfyngu hysbysebion i gyhoeddiadau sy'n arbenigo ym maes gofal babanod a chyhoeddiadau gwyddonol. Dim ond gwybodaeth wyddonol a ffeithiol a ddylai gael ei darparu gan hysbysebion ac ni ddylent awgrymu na chreu cred bod bwydo o'r botel yn cyfateb

i fwydo ar y fron nac ychwaith ei fod yn well na hynny. Ni chaniateir hysbysebu yn y man gwerthu na rhoi samplau na dyfeisiau hyrwyddo eraill i ysgogi unigolion i brynu cynhyrchion ar y lefel fanwerthu. Ni ddylai gweithgynhyrchwyr na dosbarthwyr fformiwla babanod ddarparu cynhyrchion, samplau na rhoddion hyrwyddo eraill am ddim na chymorthdaledig i aelodau o'r cyhoedd (gan gynnwys mamau, menywod beichiog a'u teuluoedd).

**26E** – Address the high incidence of mental illness and self-harm, and the causes thereof, in particular among girls, children with disabilities and LGBTI children;

**26F** – Ensure that children with mental health conditions have prompt access to mental health services;

Mae Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yn nodi nifer o ganlyniadau lefel uchel sydd wedi'u hanelu at gyflawni gwelliannau sylweddol o ran ansawdd a hygyrchedd gwasanaethau iechyd meddwl i bob oedran. Ategir y strategaeth 10 mlynedd hon gan nifer o gynlluniau cyflawni manwl. Cyhoeddwyd Law yn Llaw at Iechyd Meddwl Cynllun Cyflawni: 2019–22 ym mis Ionawr 2020, a hwn yw'r trydydd cynllun cyflawni a'r un olaf o dan y Strategaeth. Mae meysydd â blaenoriaeth yn y cynllun cyflawni yn cynnwys:

- Gwella mynediad at therapïau seicoleg i blant a phobl ifanc – er mwyn lleihau amseroedd aros yn sylweddol erbyn diwedd y Llywodraeth hon.
- Cynyddu ystod y therapïau a gynigir a helpu'r gweithlu i ddarparu'r ymyriadau hyn er mwyn gwella profiad defnyddwyr gwasanaethau.
- Gwelliannau pellach i ddarpariaeth Argyfwng a Thu Allan i Oriau i blant ac oedolion – gan symud i ddarpariaeth amlasiantaethol gyffredin ledled Cymru.
- Gwelliannau i wasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc – gwella mynediad at wasanaethau CAMHS sylfaenol ac arbenigol a sicrhau gwelliannau cynaliadwy i amseroldeb ymyriadau, yn ogystal â chefnogi'r cwricwlwm newydd a'r dull ysgol gyfan, gan ymestyn cwmpas gwasanaethau'r GIG i ysgolion a llenwi bylchau mewn gwasanaethau.

Mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru wedi sefydlu panel rheoli gwelyau CAMHS newydd sy'n cyfarfod bob wythnos. Mae'r panel yn anelu at ddeall capasiti gwelyau presennol y GIG a darparwyr yn y sector annibynnol ac unrhyw effaith andwyol sy'n gysylltiedig â phroblemau staffio, aciwtedd cleifion a chyfyngiadau COVID-19 ar y capasiti hwnnw. Mae hefyd yn asesu'r galw presennol gan wasanaethau cymunedol am welyau cleifion mewnol i gleifion CAMHS unigol ac yn cynnig atebion rheolaidd i ymdrin ag unrhyw anghysondebau rhwng y galw a'r capasiti.

Rhoddir blaenoriaeth i ddiogelu a chefnogi iechyd meddwl a llesiant emosiynol plant a phobl ifanc drwy ddull system gyfan. Er mwyn gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn parhau i fod wrth wraidd y gwaith hwn, caiff ei gefnogi gan Grŵp Rhanddeiliaid Ieuenctid. Diben y grŵp hwn yw cynnig profiad uniongyrchol o gymorth iechyd meddwl a llesiant i blant a phobl ifanc.

Mae diwallu anghenion emosiynol ac anghenion llesiant ein plant a'n pobl ifanc yn gofyn am ddull dim drws anghywir, system gyfan, integredig. Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn chwarae rôl hollbwysig drwy feithrin y dull cydweithredol sydd ei angen i ymateb i broblemau iechyd meddwl yn eu hardal. Mae Fframwaith NYTH yn darparu'r adnoddau i symud tuag at Ddull System Gyfan gwirioneddol, gan ehangu'r ddarpariaeth o gymorth a gynigir ledled Cymru. Mae hwn yn adnodd i sicrhau drws agored i bob plentyn a pherson ifanc nad oes angen cymorth nac ymyriadau clinigol y GIG arno ac, ar yr un pryd, greu llwybrau atgyfeirio priodol pan fo angen cymorth iechyd meddwl arbenigol pellach.

Bellach, mae gan bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ffocws a chynllun sy'n benodol ar gyfer darpariaeth plant ac maent wrthi'n gwneud newidiadau tuag at fabwysiadu dull 'dim drws anghywir', gyda strwythurau llywodraethu ar waith sy'n ymwneud yn uniongyrchol â materion plant. Mae llawer o'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol bellach wedi sefydlu is-grwpiau i blant a phobl ifanc gyda rhai yn mynd ati i geisio ymgysylltu â phobl ifanc er mwyn llywio eu blaenoriaethau.

Mae'r estyniad i ffrwd waith Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc (T4CYP) NYTH yn cynnig ffordd o lywio'r cymorth parhaus i roi NYTH ar waith. Bydd Cymuned Ymarfer Iechyd Meddwl Emosiynol, ynghyd â'r estyniad byrdymor i Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc, yn darparu cymorth ychwanegol i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol rannu arferion gorau a dysgu oddi wrth ei gilydd ac eraill sydd â diddordeb a rennir yn y maes hwn.

Bydd yr estyniad hwn hefyd yn darparu cymorth ychwanegol wrth i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddatblygu ymhellach eu cynigion i'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol ar gyfer iechyd meddwl emosiynol plant a phobl ifanc. Mae'r estyniad hefyd wedi darparu ar gyfer penodi rôl cyfnod penodol yn Llywodraeth Cymru i ddarparu adnodd penodol yn uniongyrchol i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wrth iddynt ddatblygu, gwerthuso a gweithredu eu cynlluniau ar ôl cwblhau Raglen Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc ar 30 Medi 2022.

Mae gwell mynediad at gymorth iechyd meddwl lefel isel wedi'i ddarparu drwy ddatblygu pecyn cymorth iechyd meddwl, gwneud buddsoddiad ychwanegol mewn cymorth ar-lein a dros y ffôn a chynyddu darpariaeth gwnsela mewn ysgolion.

Mae'r canllaw ar hunanladdiad a hunan-niwed yn cefnogi athrawon a gweithwyr proffesiynol sy'n dod i gysylltiad â phobl ifanc yn rheolaidd, gan ddarparu ffynhonnell hygyrch o egwyddorion arfer gorau a chyfeirio at ffynonellau cymorth a chyngor eraill. Mae gwelliannau i wasanaethau Argyfwng a Thu Allan i Oriau wedi canolbwyntio ar wella ystod y therapïau seicolegol sydd ar gael, cymorth i'r gweithlu a chynlluniau peilot darparu noddfa.

**26G** – Develop therapeutic community-based services for children with mental health conditions

Yn 2020-21, buddsoddodd Llywodraeth Cymru £2.7m ychwanegol er mwyn cynnig mynediad uniongyrchol at gymorth haen 0/1, mewn ymateb i'r lefelau uwch o orbryder sy'n dod i'r amlwg drwy ein gwaith dadansoddi arolygon a thystiolaeth ehangach. Mae'r cyllid hwn wedi cynnig cymorth y gall pobl ifanc gael gafael arno eu hunain, er enghraifft drwy'r pecyn cymorth Iechyd Meddwl i Bobl Ifanc, SilverCloud (16+) a llinell gymorth CALL. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi buddsoddi £1.252m i ehangu'r gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion, gan sicrhau bod cysylltiadau ym mhob awdurdod lleol ar gael ar-lein i bobl ifanc nad ydynt yn mynychu'r ysgol yn bersonol.

Yn 2021/22, yn dilyn lansio cynllun peilot Cymru gyfan yn ystod pandemig COVID-19, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai'n darparu cyllid ychwanegol gwerth £7.7m er mwyn parhau i ddarparu SilverCloud Cymru, sef yr adnodd cymorth iechyd meddwl ar-lein am ddim, am dair blynedd arall. Wrth inni symud allan o'r pandemig, bydd y cyllid ychwanegol yn ehangu'r gwasanaeth ac yn cynnig mynediad at therapi digidol i bobl ifanc 11 oed a throsodd.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i dynnu sylw at y ddarpariaeth sydd ar gael ac rydym wedi gweithio gyda phartneriaid fel ysgolion, awdurdodau lleol a byrddau iechyd i roi gwybod i bobl ifanc ble y gallant ddod o hyd i gymorth. Rydym hefyd wedi cynyddu ein gweithgarwch cymunedol ar draws llwyfannau er mwyn hyrwyddo mynediad at gymorth lefel isel yn uniongyrchol â phobl ifanc. Lle bo angen cymorth ychwanegol gan wasanaethau iechyd meddwl ar bobl ifanc, mae pob bwrdd iechyd wedi parhau i brosesu atgyfeiriadau.

Cyllid trawslywodraeth yw cyllid Llywodraeth Cymru i helpu'r bobl ifanc nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cymorth CAMHS uniongyrchol ac mae'n cynnwys cymorth drwy ddarpariaeth addysg a gwaith ieuenctid. Rydym hefyd yn parhau i gefnogi rhanbarthau Cymru gan ddefnyddio Cyllid Gofal Integredig a Chyllid Trawsnewid drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

**26H** – Review the current legislation to prevent its disproportionate placement of children with mental health needs in adult psychiatric wards or police stations and ensure that the best interests and views of the child are taken into account in their mental health treatment;

Gellir derbyn plentyn neu berson ifanc i'r ysbyty yn dilyn asesiad iechyd meddwl pan fydd yr heddlu wedi defnyddio ei bwerau o dan Adran 136 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 i fynd ag unigolyn i le diogel at y diben hwnnw. Newidiodd y gyfraith ym mis Rhagfyr 2017 i ddweud na ellir byth ddefnyddio gorsaf heddlu fel lle diogel i unrhyw un o dan 18 oed. Fodd bynnag, yng Nghymru, cyflawnwyd y bwriad polisi hwn yn gynt o lawer ac ni ddylid bod wedi mynd â'r un plentyn na pherson ifanc i orsaf heddlu fel lle diogel ers 2015.

Yn 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ganllawiau ar Dderbyniadau er mwyn sicrhau bod gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn addas at y diben a'u bod yn diwallu eu hanghenion a aseswyd ac yn ystyried gofynion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Pan fydd angen gofal fel claf mewnol ar blentyn neu berson ifanc am anhwylder meddyliol, yn y mwyafrif helaeth o achosion, unedau cleifion mewnol CAMHS yng Nghymru fydd y man gofal mwyaf priodol.

Fodd bynnag, efallai y bydd rhai cyflyrau neu amgylchiadau yn gofyn am ddarpariaeth wahanol.

- Bydd yn briodol i berson ifanc gael ei dderbyn i ward iechyd meddwl ddynodedig i oedolion er mwyn ei asesu a'i drin os yw'r person ifanc yn 16 oed neu'n hŷn ac yn ddigon aeddfed, ac os bydd yn mynegi ei fod am gael ei drin gan wasanaethau iechyd meddwl lleol i oedolion a bydd cyngor clinigol yn cadarnhau bod hynny'n briodol. Caiff niferoedd yn yr achos hwn eu monitro'n ofalus.
- Yn wir, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, yn rhinwedd adran 8 o Ddeddf Diwygio Cyfraith Teulu 1969, dylai plant hŷn allu rhoi cydsyniad dilys heb orfod troi at eu rhieni. Mae'r amgylchiad hwn wedyn yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau iechyd meddwl oedolion a gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed gydweithio er mwyn sicrhau y caiff gwasanaethau pontio i'r grŵp oedran hwn eu datblygu, gyda chanlyniadau y cytunwyd arnynt sy'n diwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc. Er y gellir darparu gofal i gleifion mewnol ar uned oedolion, mae angen cynnwys staff CAMHS a/neu gydgysylltu â nhw o hyd. Dylid cytuno'n ffurfiol ar y clinigydd arweiniol ac, fel arfer, un o glinigwyr CAMHS fyddai'r unigolyn hwn, ac eithrio o dan amgylchiadau penodol.
- Mae'r person ifanc yn agosáu at ei ben-blwydd yn 18 oed, (fel arfer heb fod yn gynharach na chwe mis cyn ei ben-blwydd yn 18 oed) ac mae'n debygol y bydd y cyfnod cychwynnol o ofal fel claf mewnol a'r ôl-ofal dilynol yn parhau ar ôl ei ben-blwydd yn 18 oed. Felly, byddai ei dderbyn i uned CAMHS yn golygu diffyg parhad hirdymor ac oedi cyn iddo gael mynediad at ei ddarparwyr gofal tebygol hyd y gellir rhagweld. Yn yr achos hwn, byddai'n briodol i'r person ifanc gael ei dderbyn i'r uned oedolion fwyaf priodol ar gyfer ei gyflwr. Unwaith eto, byddai disgwyl i ddewis y claf, ynghyd â chyngor clinigol a'r canlyniad a ddymunir i'r claf, lywio'r penderfyniad hwn.

## Galluedd Meddyliol

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar reoliadau i Gymru er mwyn helpu i roi Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 a'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid newydd ar waith. Bydd y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid newydd yn cynnwys pobl ifanc 16-17 oed, yn wahanol i'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid presennol. Bydd y diogeliadau newydd yn darparu hawliau ac amddiffyniadau pwysig i bobl nad oes ganddynt y galluedd meddyliol i gytuno i drefniadau gofal, cymorth neu driniaeth, os bydd y trefniadau hynny'n gyfystyr ag amddifadu rhywun o'i ryddid. Mae penderfyniadau er lles pennaf wrth wraidd y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid sy'n cael eu llywio gan waith cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ble bynnag y bydd dyletswyddau statudol yn codi. Canolbwyntir yn benodol ar nodi ac atgyfnerthu barn, dymuniadau a theimladau'r person ifanc fel rhan o brosesau asesu, awdurdodi ac adolygu'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid, ochr yn ochr ag ystyried yn barhaus beth yw'r opsiynau lleiaf cyfyngol ar gyfer cymorth gofal neu driniaeth.

Er bod Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 yn fater a gedwir yn ôl i Lywodraeth y DU, mae'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau. Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar Reoliadau drafft ac asesiadau effaith (gan gynnwys Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant) i Gymru, gan gynnwys Rheoliadau a fydd yn diwygio rheoliadau presennol[3] ynglŷn â phenodi Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol a'u rôl. Rôl Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol yw cefnogi'r unigolyn sy'n derbyn gofal o dan Ddiogeliadau Amddiffyn Rhyddid a'r unigolion hynny y nodwyd mai nhw yw Person Priodol yr unigolyn sy'n derbyn gofal. Caiff rôl yr Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol ei hymestyn i gefnogi'r unigolyn a'r rhai sy'n gweithredu ar ei ran er mwyn sicrhau bod ei farn, ei ddymuniadau a'i deimladau yn llywio ei drefniadau gofal, cymorth neu driniaeth.

Fel rhan o'r ymgynghoriad, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Plant yng Nghymru er mwyn ymgysylltu â phobl ifanc.

### Deddf Iechyd Meddwl 1983

Mae Papur Gwyn Llywodraeth y DU ar ddiwygiadau i Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 yn cynnig y dylid cyflwyno meini prawf diwygiedig ar gyfer cadw unigolion yn gaeth sy'n cynnwys budd therapiwtig, dogfennau dewis ymlaen llaw a gwelliannau i'r system eiriolaeth gan gynnwys mwy o ddewis o ran pwy sy'n gweithredu fel eiriolwr a mwy o bwerau i'r eiriolwr gymryd rhan mewn penderfyniadau. Byddai'r cynigion hyn yn arwain at atgyfnerthu'r ffordd yr ystyrir budd pennaf a barn y plentyn. Ar hyn o bryd, rydym yn ystyried y cynigion hyn mewn perthynas â Chymru.

**26l** – Monitor the diagnoses of attention deficit/hyperactivity disorders among children, undertake a study on their root causes, and assess the possible over prescription of psychotropic drugs in particular for young children;

Ym mis Ionawr 2015, comisiynodd Llywodraeth Cymru Brifysgol Abertawe i ddadansoddi data ar ragnodi ar gyfer plant a phobl ifanc mewn perthynas â meddyginiaeth ADHD, gwrthiselyddion a gwrthseicotigau.

Yn dilyn hyn, anfonodd Llywodraeth Cymru Gylchlythyr Iechyd Cymru at bob Meddyg Teulu i ailddatgan, wrth ragnodi meddyginiaeth ar gyfer salwch iselhaol ymhlith plant a'r glasoed, mai fflwocsetin yw'r unig feddyginiaeth y dangoswyd ei bod yn effeithiol a, phan fydd unigolyn yn dechrau ei chymryd, y dylid ei monitro'n ofalus yn unol â'r canllawiau presennol. Dylai'r defnydd o feddyginiaethau eraill i drin salwch iselhaol gael ei gychwyn gan arbenigwr a dim ond pan fydd trefniadau monitro parhaus wedi'u rhoi ar waith.

Yn dilyn adolygiad 2015, yn 2020 ymrwymodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd i ystyried gwaith dilynol.

Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn ym mis Ionawr 2022 ac mae wedi adeiladu ar dystiolaeth a ddarparwyd yn yr adolygiad blaenorol a ystyriodd ADHD a gwrthiselyddion. Mae'r adroddiad yn cael ei ystyried gan swyddogion ar hyn o bryd a chaiff y canfyddiadau eu hymgorffori yn argymhellion yr adolygiad o'r Galw a Chapasiti ar gyfer Anhwylderau Niwrolegol. Cyhoeddwyd adroddiad cryno ar 6 Gorffennaf a disgwylir i'r adroddiad llawn gael ei gyhoeddi ym mis Medi.

Adolygiad o'r galw, capasiti a chynllun gwasanaethau niwroddatblygiadol: adroddiad cryno | LLYW.CYMRU

3 Rheoliadau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol) (Cymru) 2007 (O.S. 2007/852 (Cy. 77).

**26J** – Reduce air pollution, and inform the population about the effect of pollution on children's health and about remedial measures

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth yn 2023 a fydd yn gostwng y terfyn cyflymder o 30mya i 20mya ar ffyrdd cyfyngedig ledled Cymru.

Ymrwymiad yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yw hwn a gallai gael effeithiau cadarnhaol sylweddol ar iechyd pobl yng Nghymru a chyflawni pob un o saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Lansiwyd cystadleuaeth i blant ddylunio arwydd ffordd ynglŷn ag ansawdd aer er mwyn tynnu sylw gyrwyr at yr angen i gydymffurfio â therfynau cyflymder is.

## Safon byw

Disgrifiwch y camau a gymerwyd i wneud y canlynol:

**27A** – Address the increasing child poverty rate;

Yng Nghymru, mae ein Strategaeth Tlodi Plant yn nodi ein hamcanion ar gyfer trechu tlodi plant. Maent yn canolbwyntio ar leihau nifer y plant sy'n byw mewn cartrefi heb waith, cynyddu sgiliau rhieni a phobl ifanc, lleihau anghydraddoldebau o ran addysg, iechyd a chanlyniadau economaidd, creu economi a marchnad lafur gref a chamau gweithredu i gynyddu incwm aelwydydd.

Mewn ymateb i effaith uniongyrchol y pandemig, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Tlodi plant: cynllun gweithredu pwyslais ar Incwm ym mis Tachwedd 2020. Mae'r Cynllun yn nodi nifer o gamau gweithredu ymarferol er mwyn helpu teuluoedd sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru i wneud y gorau o'u hincwm, lleihau costau byw hanfodol a meithrin cadernid ariannol. Roedd yn canolbwyntio ar bedwar amcan allweddol, sef:

- Mae teuluoedd yng Nghymru yn cael cymorth i hawlio'r holl gymorth ariannol y mae ganddynt hawl iddo;
- Mae costau anfon plant i'r ysgol yn cael eu gostwng;
- Ymdrinnir â chost a hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus i bobl ifanc;
- Mae teuluoedd yng Nghymru yn cael cymorth i fod yn ariannol gadarn.

Datblygwyd gwaith i geisio helpu teuluoedd i wneud y gorau o'u hincwm drwy nifer o raglenni peilot. Mae adroddiad terfynol Tlodi Plant: cynllun gweithredu pwyslais ar Incwm wedi'i gyhoeddi a dengys gynnydd cadarnhaol mewn sawl maes allweddol, sef:

- Ymgyrch genedlaethol i sicrhau bod pobl yn manteisio ar fudd-daliadau a arweiniodd at werth £651,504 o fudd-daliadau ychwanegol yn cael eu hawlio gan y rhai sydd â hawl i'w cael.
- Gwnaeth chwe chynllun peilot dargedu cymorth at grwpiau sydd leiaf tebygol o fod yn hawlio'r holl gymorth ariannol y mae ganddynt hawl iddo. Hawliwyd incwm ychwanegol o £2,468,052.
- Gan gydweithio ag awdurdodau lleol yng Nghymru, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Arweinlyfr Arferion Gorau er mwyn helpu i symleiddio'r broses o wneud cais am fudd-daliadau datganoledig gan eu gwneud yn fwy hygyrch.

Ers mis Tachwedd 2021, mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu gwerth mwy na £380m o gymorth ariannol er mwyn helpu i liniaru effaith yr argyfwng costau byw. Mae cyllid wedi cefnogi'r canlynol:

- Cynllun Cymorth Tanwydd y Gaeaf yn 2021-22 a ddarparodd £200 er mwyn helpu aelwydydd cymwys i dalu biliau hanfodol. Bydd hefyd yn cefnogi cynllun cymorth

tanwydd arall a gaiff ei lansio yn ystod hydref 2022. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gall y cynllun gyrraedd mwy o aelwydydd er mwyn sicrhau bod mwy o bobl yn cael y taliad o £200 sy'n cynnig cymorth mor hanfodol.

- Taliad costau byw o £150 i bob aelwyd mewn eiddo ym mandiau A i D y dreth gyngor ac i bod aelwyd sy'n cael cymorth gan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ym mhob un o fandiau'r dreth gyngor.
- Bydd £25m arall ar gael i awdurdodau lleol ar ffurf cronfa ddewisol. Byddant yn gallu targedu'r arian ychwanegol hwn er mwyn helpu aelwydydd a all fod yn ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i drafod polisïau'r Adran Gwaith a Phensiynau sy'n cyfyngu ar faint o arian sydd ar gael i deuluoedd a chymryd camau i liniaru'r argyfwng costau byw.

**27B** – Assess the impact of recent social security and tax credit reforms on children, including children with disabilities and children belonging to ethnic minority groups, and revise these reforms in order to fully respect children's right to have their best interests taken as a primary consideration

Roedd Llywodraeth Cymru wedi comisiynu cyfres o adroddiadau yn y gorffennol ar effeithiau Diwygiadau Llywodraeth y DU i'r System Les yng Nghymru. Nododd y canfyddiadau yn glir yr effeithiau negyddol y mae'r diwygiadau wedi'u cael ar deuluoedd â phlant megis y terfyn dau blentyn ar gyfer Credyd Cynhwysol, ac effaith y newidiadau i fudd-daliadau anabledd ar deuluoedd â phlant anabl. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro ystadegau, ymchwil a gwaith dadansoddi ar effaith diwygiadau i'r system les ac mae'n cynnal trafodaethau rheolaidd â rhanddeiliaid megis Cyngor ar Bopeth ar eu profiadau o effeithiau o'r fath.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i ailystyried ei phenderfyniad i gyflwyno'r terfyn dau blentyn ar gyfer Credyd Cynhwysol gan fod hyn yn sicr o gynyddu lefelau tlodi plant dros amser.

Yn ôl y data diweddaraf ar Aelwydydd Islaw'r Incwm Cyfartalog, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022, roedd 27% o blant yn y DU yn byw mewn tlodi yn y cyfnod o dair blynedd rhwng 2018 a 2021.

Effeithiodd pandemig COVID-19 ar broses casglu data 2020-21 drwy'r Arolwg o Adnoddau Teuluoedd gan fod gweithrediadau maes wedi cael eu newid yn gyflym o ganlyniad i gyflwyno mesurau iechyd y cyhoedd. O ganlyniad, cafwyd sampl llai o faint ac roedd nodweddion yr ymatebwyr yn wahanol i flynyddoedd blaenorol.

Yn achos Cymru, mae'r sampl llai o faint y flwyddyn hon yn golygu na allwn ddweud â sicrwydd fod unrhyw newidiadau i ffigurau tlodi yng Nghymru yn y byrdymor yn ystyrlon.

Ni chyhoeddodd yr Adran Gwaith a Phensiynau unrhyw ystadegau swyddogol ar dlodi ar lefel ranbarthol/gwlad eleni.

Ni fydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r amrywiaeth arferol o ddadansoddiadau ychwanegol o ddata ar dlodi eleni. Yn lle hynny, byddwn yn cyhoeddi erthygl ar "Mesurau tlodi: Ebrill 2020 i Fawrth 2021" sy'n disgrifio'r materion sy'n ymwneud ag ansawdd data ac yn cyflwyno ffigurau allweddol ar gyfer tlodi yn seiliedig ar ddata Aelwydydd Islaw'r Incwm Cyfartalog 2020-21 ochr yn ochr â chyfyngau hyder.

Yn ymateb Llywodraeth y DU i argymhellion mewn adroddiad a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Materion Cymreig ar y System Fudd-daliadau yng Nghymru, nododd nad oedd yn bwriadu datganoli unrhyw elfennau o nawdd cymdeithasol i Lywodraeth Cymru.

Bydd yr ymateb siomedig hwn yn cael effaith uniongyrchol ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ystyried y posibilrwydd o ddatganoli'r gwaith o weinyddu budd-daliadau lles.

**27C** – Reduce homelessness and guarantee children's access to adequate housing

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Rhaglen Lywodraethu ym mis Mehefin 2021 lle y nodir bod atal a rhoi diwedd ar ddigartrefedd o bob math yn flaenoriaeth allweddol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddiwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol er mwyn sicrhau bod y ffocws ar atal ac ailgartrefu cyflym. Mae gwaith yn mynd rhagddo i drawsnewid gwasanaethau digartrefedd er mwyn sicrhau, pan fydd digartrefedd yn digwydd, ei fod yn brin, yn fyrhoedlog ac na fydd yn digwydd eto. Roedd y gwaith hwn yn mynd rhagddo cyn y pandemig ac mae'r argyfwng wedi'i gyflymu.

Ers mis Mawrth 2020, mae mwy na 19,800 o bobl wedi cael cymorth i gael llety argyfwng dros dro.

Darparwyd £50m ychwanegol yn 2020-21 i ddechrau'r broses drawsnewid a sicrhau bod pobl a fu mewn llety dros dro drwy gydol y pandemig, gan gynnwys plant dibynnol, yn gallu symud yn gyflym i dai cynaliadwy hirdymor. Yn 2022-23, rhoddwyd £60m i awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig er mwyn cynyddu capasiti llety parhaol yn gyflym ledled Cymru fel rhan o'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro. Cafodd y Grant Cymorth Tai, sef grant ataliol y bwriedir iddo helpu pobl i fyw'n annibynnol, cynnal tenantiaethau ac atal digartrefedd, ei gynyddu £40m yn 2020-21, sef cynnydd o bron 32%. Caiff y cynnydd hwn ei gynnal tan o leiaf 2025.

Mae buddsoddiad mor fawr gan Lywodraeth Cymru yn arwydd o'i huchelgais i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru am byth, gan ddiogelu cenedlaethau o blant yn y dyfodol.

## Effaith newid yn yr hinsawdd ar hawliau'r plentyn

Disgrifiwch y camau a gymerwyd i wneud y canlynol:

**28A** – Reduce greenhouse gas emissions and implement the State party's net zero emission law;

**28B** – Ensure that children's needs and views are taken into account in developing policies and programmes addressing climate change and disaster risk management.

Cyn COP26, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun Cymru Sero Net (2021-2025), sef ein cynllun lleihau allyriadau sy'n canolbwyntio ar y ffordd y byddwn yn cyflawni ein hail gyllideb garbon. Mae'n canolbwyntio ar ein hail gyllideb garbon (2021-2025), ond mae hefyd yn edrych y tu hwnt iddi er mwyn dechrau gosod y sylfeini ar gyfer Cyllideb Garbon 3, sef ein targed ar gyfer 2030 a'n targed i fod yn sero net erbyn 2050.

Mae'r Cynllun yn cynnwys 123 o bolisïau a chynigion a mwy na 100 o addewidion ar gyfer gweithredu, gan adlewyrchu ehangder a dyfnder y gweithgarwch sy'n digwydd ledled Cymru.

Mae'r Cynllun hefyd yn nodi'r camau ehangach sydd i'w cymryd gan eraill a'r hyn rydym yn galw ar Lywodraeth y DU i'w wneud ac yn cynnwys addewidion a wnaed gan ein partneriaid. Ochr yn ochr â *Cymru Sero Net*, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi Gweithio Gyda'n Gilydd i Gyrraedd Sero Net, sy'n cydnabod ac yn dangos dull Cymru gyfan o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd gydag addewidion ac astudiaethau achos o bob rhan o gymdeithas ledled Cymru.

Drwy ein rhaglenni addysg amgylcheddol – Maint Cymru ac Eco-Sgolion – rydym yn parhau â'n hymrwymiad i wella cyfleoedd i leisiau plant a phobl ifanc gael eu clywed yn ogystal â chynnig cyfleoedd gwirioneddol i gymryd rhan a dylanwadu ar yr hyn sy'n digwydd nesaf. Ymgysylltwyd â thua 93% o ysgolion ledled Cymru drwy'r rhaglenni hyn, gan rymuso plant a phobl ifanc i ysgogi newid, gwella eu hymwybyddiaeth amgylcheddol, cymryd camau a dysgu am newid yn yr hinsawdd a pherfformiad coedwigoedd a diogelu ein hecosystemau.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ddwy gynhadledd i Bobl Ifanc er mwyn cynnig cyfleoedd i Bobl Ifanc fod yn rhan o'r Cynllun Sero Net. Rydym yn rhoi arian i MockCops, a arweinir gan Maint Cymru a Chanolfan Materion Rhyngwladol Cymru. Roedd ein Llysgenhadon Hinsawdd Ieuenctid yn bresennol yn COP26 a chawsant gyfle i gyfarfod â phobl ifanc o'r un meddylfryd, rhannu llwyfan â Phrif Weinidog Cymru, cyfarfod â chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru a chyrff anllywodraethol rhyngwladol eraill.

Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 yw cynllun datblygu gofodol Cymru Gyfan, sy'n nodi'r cyd-destun polisi cynllunio ar gyfer datgarboneiddio drwy atal a lliniaru allyriadau carbon.

Fel rhan o'r broses o lunio Cymru'r Dyfodol gwnaethom weithio gydag amrywiaeth o bobl a llunio pecynnau addysg i ysgolion cynradd ac uwchradd. Crëwyd y pecynnau addysg hyn er mwyn helpu plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn y system gynllunio ac maent yn ymdrin â materion megis yr amgylchedd, adnoddau, ynni adnewyddadwy, carbon, llifogydd ac erydu. Caiff y pecynnau hyn eu diweddaru gan ddefnyddio adborth gan athrawon a bwriedir defnyddio cyfraniadau dysgwyr er mwyn helpu i lywio'r adolygiad nesaf o Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol.

Bydd pobl ifanc hefyd yn cymryd rhan yn wythnos Hinsawdd Cymru ac yn helpu i lywio eu sesiynau eu hunain ar gyfer y digwyddiad blynyddol hwn. Byddant hefyd yn rhan o'n hymgyrch ymddygiadol yn y dyfodol, gan roi adborth inni ar y rhaglen honno.



# G. Addysg, hamdden a gweithgareddau diwylliannol (erthyglau 28–31)

## Addysg

Disgrifiwch y camau a gymerwyd i wneud y canlynol:

**29A** – Ensure equal access to quality education, including by mitigating the disproportionate impact of COVID-19, and improve attainment rates and educational outcomes for children in disadvantaged situations, including children living in poverty, children belonging to ethnic minority groups, traveller children, children in alternative care, asylum-seeking and migrant children, children with special educational needs and children with disabilities;

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod mai ar rai o'n dysgwyr mwyaf agored i niwed a mwyaf difreintiedig, gan gynnwys y rhai o deuluoedd incwm isel, y mae'r pandemig yn cael yr effaith fwyaf o hyd.

### Tegwch o ran Cyrhaeddiad

Mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad yw ein blaenoriaeth bolisi bwysicaf. Ein gweledigaeth yw creu system addysg ragorol a theg sy'n sicrhau safonau uchel ac yn codi dyheadau i bawb. Bydd *Safonau a Dyheadau Uchel i Bawb – Cynllun Gweithredu*, y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yn ystod tymor yr Hydref, a'r gwaith y bydd yn ei gychwyn, yn gwneud cyfraniad mawr at sicrhau bod hyn yn bosibl.

Bydd y Cynllun yn dwyn camau gweithredu o bob rhan o'r system addysg ynghyd er mwyn cyflawni ein cenhadaeth genedlaethol i fynd i'r afael â'r effaith y mae tlodi ac anfantais economaidd-gymdeithasol yn ei chael ar gyrhaeddiad addysgol. Nod y cynllun yw helpu i ddatblygu system addysg ragorol a theg yng Nghymru drwy leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad yn raddol er mwyn i bawb allu cyrraedd safonau uchel a gwireddu eu dyheadau.

### Ysgolion Bro

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i 'fuddsoddi yn amgylchedd dysgu ysgolion cymunedol, cydleoli gwasanaethau allweddol, a sicrhau ymgysylltiad cryfach â rhieni a gofalwyr y tu allan i oriau traddodiadol'. Mae hon yn elfen allweddol o'r gwaith sy'n cael ei ddatblygu er mwyn cyflawni ein blaenoriaeth i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol.

Ein huchelgais yw sicrhau bod pob ysgol yng Nghymru yn Ysgol Fro sy'n ymateb i anghenion ei chymuned, yn meithrin partneriaeth gref â theuluoedd ac yn cydweithio'n effeithiol â gwasanaethau eraill. Drwy gydweithio â'r ysgol, y cartref a'r gymuned, gallwn gefnogi ein plant a'n pobl ifanc yn fwy effeithiol.

Am y rheswm hwn, rydym yn buddsoddi £3.84m er mwyn cynyddu nifer y swyddogion ymgysylltu â theuluoedd a fydd yn gyfrifol am sicrhau y caiff partneriaethau cadarnhaol eu datblygu â theuluoedd a bod cymorth a gwasanaethau pwrpasol yn cael eu cynnig. Rhan allweddol o'u rôl yw cefnogi presenoldeb a gweithio gyda theuluoedd i annog lefelau gwell o bresenoldeb ac ailymgysylltu â dysgu ar ôl y pandemig.

Rydym hefyd yn darparu cyllid i dreialu'r drefn o benodi rheolwyr ysgolion bro, a buddsoddiad cyfalaf gwerth £20m er mwyn galluogi ysgolion i ddatblygu ymhellach fel asedau cymunedol, gan wneud yr ysgol yn fwy hygyrch ac agored i'w chymuned leol.

### Derbyniadau i Ysgolion

Mae gan bob plentyn sy'n byw yng Nghymru hawl i gael lle mewn ysgol. Mae'r Cod Derbyn i Ysgolion yn rhoi canllawiau statudol i awdurdodau derbyn, awdurdodau lleol, paneli apelau derbyn, cyrff llywodraethu ysgolion a fforymau derbyn er mwyn sicrhau y caiff ceisiadau derbyn eu gweinyddu yn y ffordd decaf bosibl. Rhaid i'r cyrff hyn weithredu yn unol â'r Cod a chydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol arall gan gynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Hawliau Dynol 1998, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

### Y Grant Datblygu Disgyblion

Mae mynd i'r afael ag effeithiau anfantais ac amddifadedd ar blant a phobl ifanc wrth wraidd ein Grant Datblygu Disgyblion blaenllaw. Diben y Grant Datblygu Disgyblion yw mynd i'r afael ag effaith amddifadedd ac anfantais ar ganlyniadau addysgol.

O flwyddyn i flwyddyn, rydym wedi ymestyn y Grant Amddifadedd Disgyblion. Yn unol â'n hymrwymiad yn ein Rhaglen Lywodraethu, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fuddsoddi mwy o arian nag erioed yn y Grant Datblygu Disgyblion, gyda'r gyllideb yn cynyddu £20m o 2022-23 ymlaen. Mae hyn yn golygu ein bod wedi buddsoddi mwy na £130m y flwyddyn o 2022-23 ymlaen er mwyn cefnogi ein dysgwyr mwyaf agored i niwed economaidd. Mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad, sy'n helpu teuluoedd dysgwyr difreintiedig sy'n agored i niwed dalu'r costau pob dydd sy'n gysylltiedig â'r diwrnod ysgol gan gynnwys gwisg ysgol, offer ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau allgyrsiol.

Mae hyn yn adeiladu ar ein cyllid yn 2021-22, er mwyn ystyried y cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim o ganlyniad i'r pandemig.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda chynrychiolwyr rhanbarthol y Grant Datblygu Disgyblion er mwyn nodi'r meysydd hynny lle y gall cyllid gael yr effaith fwyaf, yn enwedig yng nghyd-destun yr argymhellion o'r adroddiad ar yr Adolygiad o Wariant Ysgolion yng Nghymru; gan flaenoriaethu, yn benodol, gyllid ychwanegol i ysgolion mwy difreintiedig a gweithio gydag awdurdodau lleol er mwyn sicrhau fformiwlâu cyllido ysgolion mwy cyson a thryloyw.

Rydym yn ystyried sut y gellid defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion yn fwy effeithiol fel rhan o waith i ddatblygu Strategaeth ar gyfer Tegwch Addysgol.

### Y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad

Mae'r Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i lawer o deuluoedd dan anfantais ledled Cymru, gan ddileu'r pryder ynghylch prynu gwisg ysgol ac offer a chaniatáu i blant fynd i'r ysgol a chymryd rhan mewn gweithgareddau ar yr un lefel â'u cyfoedion.

Yn 2021/22, ymestynnwyd y grant i gynnwys plant a phobl ifanc cymwys ym mhob blwyddyn ysgol orfodol, sy'n golygu y gall mwy fyth o deuluoedd fanteisio ar y cymorth hwn bellach. Er mwyn cydnabod y pwysau sydd ar deuluoedd, ar 14 Mawrth 2022 rhoddodd Llywodraeth Cymru daliad untro ychwanegol o £100 i bob plentyn neu berson ifanc sy'n gymwys i gael y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad. Mae hyn yn golygu bod mwy na £23m wedi'i ddarparu i'r Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad ar gyfer 2022/23.

### Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Rhoddwyd £17.8m yn ychwanegol i ysgolion a cholegau er mwyn cefnogi dysgwyr ag ADY yn 2020-21, gan ddyrannu £9.8m o'r swm hwnnw yn benodol mewn ymateb i bwysau a oedd yn deillio o bandemig COVID-19.

Yn 2021-22, dyrannwyd £10m ychwanegol er mwyn cefnogi dysgwyr ag ADY yr oedd pandemig COVID-19 wedi effeithio arnynt. Dosbarthwyd y cyllid hwn gan awdurdodau lleol ac fe'i defnyddiwyd i ddarparu adnoddau ychwanegol, gan gynnwys cymorth iechyd meddwl.

Mae'r heriau sydd wedi codi yn sgil y pandemig wedi pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod y system o gymorth i blant a phobl ifanc ag ADY mor effeithiol â phosibl yn y dyfodol. Er gwaethaf y cyfyngiadau y bu'n rhaid eu cyflwyno oherwydd y pandemig, mae ein gwaith tuag at roi Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ar waith yn llwyddiannus wedi parhau i fod yn flaenoriaeth.

### Plant sy'n derbyn gofal mewn addysg

Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi plant sy'n derbyn gofal mewn addysg drwy ddarparu tua £5m bob blwyddyn drwy'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Y consortia addysg rhanbarthol sy'n gweinyddu'r grant hwn, ar y cyd ag awdurdodau lleol ac ysgolion.

Mae'r cyllid yn seiliedig ar £1,150 fesul plentyn sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag, nid yw'r cyllid wedi'i neilltuo'n benodol ar gyfer pob plentyn. Mae'r dull gweithredu hwn yn ei gwneud yn bosibl i gonsortia, gan weithio gyda phartneriaid, bennu'r ymyriadau strategol mwyaf effeithiol i gefnogi pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal,

ni waeth beth fo'r newidiadau o ran lleoliad gofal neu ysgol.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i wella canlyniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal. Fel rhan o hyn, rydym yn ystyried gyda rhanddeiliaid sut i ddatblygu dull integredig o wella canlyniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal.

Rydym yn falch ein bod, mewn cydweithrediad â Voices from Care Cymru, wedi gallu trefnu sesiynau ymgysylltu er mwyn clywed yn uniongyrchol gan y dysgwyr hyn, yn sôn am y cymorth y maent wedi'i gael a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol.

## Gofalwyr Ifanc

Cydnabyddir anghenion gofalwyr ifanc gan Lywodraeth Cymru drwy ei Strategaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl a'r Cynllun Cyflawni cysylltiedig, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2021. Cafodd blaenoriaeth genedlaethol newydd ei chynnwys er mwyn codi ymwybyddiaeth o anghenion gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, er mwyn cydnabod bod angen iddynt gael mwy o gymorth a chymorth gwell gan weithwyr proffesiynol ym maes addysg yn ogystal ag iechyd a gofal cymdeithasol.

Dylanwadodd effaith pandemig COVID-19 ar y broses o ddatblygu'r strategaeth a'r cynllun cyflawni, gan ei bod wedi dangos bod angen cydnabod anghenion gofalwyr ifanc yn fwy ac yn well.

Rhoddwyd £3m i awdurdodau lleol yn 2021-22 er mwyn helpu gofalwyr di-dâl o bob oedran, gan gynnwys gofalwyr ifanc, i gael seibiant addas. O 2022-25 ymlaen, bydd £9m o gyllid yn creu Cronfa Seibiant Byr a fydd yn galluogi gofalwyr i fanteisio ar fathau gwahanol o seibiant o'u cyfrifoldebau gofalu. Gwnaethom hefyd roi £1.5m i Gronfa Cymorth i Ofalwyr yn 2021-22, a fydd yn parhau gyda £4.5m o gyllid dros dair blynedd. Mae'n rhoi grantiau bach gwerth hyd at £300 i ofalwyr di-dâl o bob oedran sy'n wynebu caledi ariannol ychwanegol er mwyn iddynt brynu eitemau i'w helpu i gyflawni eu rôl ofalu.

Gall gofalwyr ifanc fanteisio ar y cerdyn adnabod i ofalwyr ifanc cenedlaethol, sy'n gweithio ledled Cymru, er mwyn eu helpu i gael cymorth gan athrawon neu eu meddyg a'u fferyllydd lleol. O 2020-2023 ymlaen, gan weithio mewn partneriaeth â sefydliad gofalwyr cenedlaethol a 22 o awdurdodau lleol, rydym wedi dyrannu ychydig dros £600,000 i ddatblygu'r cerdyn adnabod newydd hwn i ofalwyr ifanc hyd at 18 oed.

**29B** – Monitor and address the persistent use of exclusions, in particular on children in disadvantaged situations; implement the recommendations of the Timpson Review of School Exclusion; and guarantee children the right to appeal against their exclusion and to legal aid and legal representation;

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru, Gwahardd o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion, yn nodi'n glir mai dim ond fel cam olaf y dylid defnyddio gwaharddiad parhaol. Drwy ddefnyddio gwaharddiad parhaol, mae'r ysgol yn cydnabod ei bod wedi rhoi cynnig ar bob strategaeth sydd ar gael i gefnogi'r disgybl a bod y strategaethau hynny wedi bod yn aflwyddiannus. Os bydd yn amlwg bod disgybl yn parhau i wynebu anawsterau yn yr ysgol, er bod cymorth ar gael iddo, a bod risg y caiff ei wahardd yn barhaol, rydym yn disgwyl i'r ysgol weithio gyda'r awdurdod lleol i ddod o hyd i ysgol arall neu leoliad amgen.

Os bydd disgybl wedi'i wahardd yn barhaol o'r ysgol, mae gan rhieni a disgyblion hawl i apelio. Ar ôl i benderfyniad i wahardd disgybl yn barhaol o'r ysgol gael ei gadarnhau gan bwyllgor disgyblu'r ysgol, mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am asesu anghenion y disgybl a sut y cânt eu diwallu. Mae rhwymedigaeth yr ysgol i ddarparu addysg yn parhau tra bydd y disgybl yn dal i fod ar gofrestr yr ysgol. Rhaid i'r ysgol hysbysu'r rhieni am y trefniadau a wnaed er mwyn i'r disgybl allu parhau â'i addysg, gan gynnwys gosod a marcio gwaith.

Ar ôl i enw disgybl gael ei dynnu oddi ar gofrestr yr ysgol, yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am sicrhau bod addysg addas yn cael ei darparu i'r disgybl. Mae'r canllawiau'n nodi'n glir mai'r ffordd orau o fynd ati yn achos y mwyafrif o ddisgyblion sydd wedi'u gwahardd yn barhaol yw trefnu eu bod yn ymuno ag ysgol brif ffrwd neu ysgol arbennig. Er mwyn gwneud hyn, dylai awdurdodau lleol ystyried a oes angen staff arbenigol i gefnogi'r plentyn. Dim ond pan fydd problemau sylweddol yn bodoli y mae'n well mynd i'r afael â nhw mewn amgylchedd gwahanol neu pan fydd disgybl yn nesáu at ddiwedd addysg orfodol a byddai'n afrealistig disgwyl iddo ddychwelyd i'r ysgol yn llwyddiannus, y dylid addysgu dysgwr sydd wedi'i wahardd y tu allan i addysg brif ffrwd. Os bydd gan ddisgybl broblemau sylweddol y mae'n well mynd i'r afael â nhw mewn Addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS), dylai'r awdurdod lleol roi cynllun cymorth bugeiliol ar waith sy'n nodi'r camau a gymerir i fynd i'r afael â phroblemau'r dysgwr a sicrhau ei fod yn dychwelyd i ysgol brif ffrwd neu ysgol arbennig neu'n trosglwyddo i addysg a hyfforddiant ôl-16 yn ddidrafferth. Mae Llywodraeth Cymru yn helpu ysgolion i ddeall pam y mae gan blant broblemau a all arwain at ymddygiad sy'n peri risg y caiff disgyblion eu gwahardd o'r ysgol neu sy'n achosi iddynt gael eu gwahardd o'r ysgol, gan gynnwys ein gwaith i fynd i'r afael â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

Mae gan bob plentyn yng Nghymru yr hawl i gael addysg ragorol a'r hawl i gael cymorth i'w helpu i gael mynediad at yr addysg honno. Ni ddylai amgylchiadau plentyn fod yn rhwystr i gyflawni canlyniadau cadarnhaol. Dyna pam y mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi nifer o bolisïau ar waith er mwyn sicrhau bod plant sy'n wynebu anawsterau yn yr ysgol yn cael cymorth i aros mewn addysg.

Ar 3 Mai 20220 gwnaed datganiad llafar yn y Senedd ar Bresenoldeb yn yr Ysgol. Nododd y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg nifer o gamau a gymerir er mwyn helpu'r gymuned addysg i gefnogi dysgwyr. Un cam gweithredu yw diweddaru'r fframwaith presenoldeb ar gyfer Cymru gyfan. Bydd ymgorffori dull o lunio polisïau sy'n seiliedig ar hawliau plant, gan sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn y broses o ddatblygu polisi, yn egwyddor arweiniol wrth inni ystyried y newidiadau y mae angen inni eu gwneud i'r Fframwaith. Ond rydym yn bendant bod yn rhaid i hyn fynd ymhellach na diweddaru canllawiau yn unig. Felly, bydd hwn yn adolygiad cynhwysfawr o'r holl arferion yn y maes hwn, sy'n ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n ystyriol o drawma. Rydym hefyd yn ymwybodol iawn o'r dysgwyr y gwyddom y gallant gael eu gwahardd o'r ysgol yn barhaol neu dros dro, a hynny'n anghymesur. Mae hyn yn cynnwys dysgwyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol a dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol ond nid yw'n gyfyngedig iddynt. Tynnodd yr adolygiad presenoldeb, a gomisiynwyd gan y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg ar ddiwedd 2021, sylw at y cysylltiad rhwng presenoldeb sy'n dirywio a phroblemau ymddygiadol ac emosiynol dilynol, a all arwain at wahardd y dysgwyr hyn o'r ysgol os nad eir i'r afael â nhw. Mae hyn yn pwysleisio bod angen i bolisïau ar bresenoldeb a gwahardd disgyblion o'r ysgol gael eu hystyried a'u hadolygu ar yr un pryd.

**29C** – Improve wellbeing and address bullying in schools, including against children with disabilities, minority children and LGBT children;

Mae cyfres Llywodraeth Cymru o ganllawiau 'Hawliau, parch, cydraddoldeb', a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2019, yn darparu canllawiau statudol ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir ac awdurdodau lleol er mwyn helpu i atal a mynd i'r afael â bwlio mewn lleoliadau addysg yng Nghymru. Yn ôl y canllawiau, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion wneud y canlynol:

- mynd ati mewn ffordd ragweithiol a chyfannol i atal bwlio;
- llunio polisi gwrthfwlio sy'n cysylltu â pholisïau'r ysgol, gan gynnwys ymddygiad a diogelu;
- cofnodi a monitro achosion o fwlio er mwyn helpu i gymryd camau rhagweithiol i'w herio;
- adolygu polisïau a strategaethau gwrthfwlio yn rheolaidd ar y cyd â dysgwyr, bob tair blynedd o leiaf.

Mae'r gyfres yn cynnwys cyngor i blant, pobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr er mwyn helpu'r rhai sy'n cael eu bwlio, gan amlinellu hawliau a chyfrifoldebau. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am fathau penodol o fwlio sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig.

Er mwyn helpu i roi'r canllawiau hyn ar waith yn ymarferol, rydym wedi llunio pecyn ar-lein sy'n cynnwys rhestr chwarae o adnoddau. Mae'r pecynnau, sydd wedi'u cyhoeddi ar Hwb, sef llwyfan addysgol digidol Llywodraeth Cymru, yn cynnwys taflenni ffeithiau, canllawiau atodol, templedi ar gyfer ffurflenni cofnodi digwyddiadau ac enghreifftiau o arferion gorau er mwyn helpu awdurdodau lleol ac ysgolion i herio bwlio.

Bydd Llywodraeth Cymru yn diweddaru ei chanllawiau gwrth-fwlio yn unol â'i Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol, yn ogystal â chanllawiau newydd ac wedi'u diweddaru mewn perthynas â Sipsiwn, Roma a Theithwyr i ysgolion. Rydym yn anelu at gyhoeddi'r ddau erbyn mis Medi 2022.

Yn ystod 2021-2022, bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori â phlant a phobl ifanc drwy gyfarfodydd bord gron a grwpiau sydd eisoes wedi'u sefydlu o rannau gwahanol o Gymru. Bydd y grwpiau hyn yn cynnwys yn benodol ddysgwyr o gymunedau ethnig lleiafrifol a chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr a dysgwyr LHDTC+.

**29D** – Ensure the allocation of sufficient human, technical and financial resources for the development and expansion of early childhood care and education;

Caiff y Cynllun 10 Mlynedd ar gyfer y Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, ei adolygu a'i ddiweddaru yn 2022-23 er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i helpu unigolion i ymuno â'r sector ac aros ynddo wrth inni ddatblygu Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar.

Mae gan y Cynllun gymwysterau a llwybrau gyrfa newydd a ddatblygwyd er mwyn helpu i recriwtio a chadw'r gweithlu. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid strategol ar ymgyrchoedd recriwtio wedi'u targedu ac i ddatblygu adnoddau er mwyn helpu lleoliadau i recriwtio.

Mae'r cymwysterau newydd hefyd yn helpu i ehangu'r ECEC drwy sicrhau bod gan ymarferwyr yr wybodaeth a'r sgiliau i gynnig darpariaeth o ansawdd uchel ym mhob lleoliad ECEC a bod datblygu plant wrth wraidd eu dull gweithredu.

Bydd y cynllun wedi'i ddiweddaru yn parhau i adeiladu ar y gwaith hwn yn ogystal â datblygu camau gweithredu newydd er mwyn helpu'r sector i dyfu a chryfhau ac, ar yr un pryd, barhau i ganolbwyntio ar ansawdd.

Ochr yn ochr â hyn, mae Fframwaith Ansawdd ECEC yn cael ei ddatblygu ar y cyd â rhanddeiliaid ym meysydd gofal plant ac addysg. Bydd y fframwaith hwn yn cefnogi pob ymarferydd mewn lleoliadau addysg neu ofal plant sy'n gofalu am blant 0-5 oed ac yn darparu'r wybodaeth a'r arbenigedd technegol er mwyn sicrhau bod darpariaeth yn canolbwyntio ar y plentyn. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymgynghori ar y Fframwaith Ansawdd maes o law.

Yn ogystal â'r Cynnig Gofal Plant presennol sydd ar gael i rieni sy'n gweithio sydd â phlant 3-4 oed, efallai y bydd rhieni plant 3-4 oed sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch neu addysg bellach sy'n para o leiaf 10 wythnos hefyd yn gallu manteisio ar y Cynnig Gofal Plant o fis Medi 2022 ymlaen. At hynny, mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i nodi sut y gellir datblygu mynediad at ofal plant ymhellach er mwyn cefnogi mwy o rieni a theuluoedd sy'n dilyn cyrsiau dysgu seiliedig ar waith a dysgu cymunedol yn ogystal â'r rhai sy'n dilyn cyrsiau byrrach, e.e. cyrsiau Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill.

Rhoddwyd cyllid cyfalaf gwerth £80m i awdurdodau lleol ledled Cymru er mwyn cefnogi'r gwaith o gydleoli darpariaeth addysg a gofal plant i gefnogi dull ECEC Llywodraeth Cymru. Mae'r cyllid hwn yn helpu i greu cyfleusterau newydd er mwyn dwyn darpariaeth addysg a darpariaeth gofal ynghyd. Dros y tair blynedd nesaf, bydd Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £70m arall mewn cyfalaf er mwyn cefnogi cyfleusterau newydd.

Yn 2019, comisiynodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol Adolygiad Gweinidogol o Chwarae a ataliwyd dros dro oherwydd pandemig y Coronafeirws.

Nod yr Adolygiad Gweinidogol o Chwarae, mewn perthynas â pholisi chwarae plant, yw asesu gwaith Llywodraeth Cymru mewn perthynas â pholisi chwarae a llywio'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn datblygu'r agenda chwarae.

Mae'r Adolygiad yn ystyried y cynnydd sydd wedi'i wneud wrth gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer chwarae, a gyflëir yn ei Pholisi Chwarae, ac a yw'r strategaeth i gyflawni'r weledigaeth yn dal i fod yn berthnasol. Pan gaiff ei gyhoeddi, bydd adroddiad y Grŵp Llywio yn nodi nifer o argymhellion allweddol i ddatblygu'r agenda chwarae er mwyn cyflawni'r weledigaeth ar gyfer chwarae yng Nghymru yn y dyfodol.

**29E** – Ensure that mandatory sexual and reproductive health education includes material on sexual orientation and gender identity;

Yng Nghymru, bydd fframwaith y cwricwlwm newydd i Gymru yn cynnwys maes dysgu a phrofiad gorfodol ar gyfer Iechyd a Lles a gaiff ei addysgu mewn ysgolion o fis Medi 2022 ymlaen. Bydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn thema drawsbynciol orfodol yn y Cwricwlwm newydd, a chyhoeddwyd Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a chanllawiau statudol ym mis Ionawr 2022. Mae'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn seiliedig ar gydraddoldeb a chynwysoldeb ac mae'n cynnwys dysgu sy'n briodol i ddatblygiad y dysgwr ar gydraddoldeb o ran rhyw a chynhwysiant i bobl LHDTC+.

Credwn yn gryf y dylai fod gan bob person ifanc yr hawl i gael gwybodaeth sy'n ei ddiogelu rhag niwed, gan gynnwys diogelwch ar-lein a gwybod beth sy'n dda a beth sy'n ddrwg er mwyn iddo allu codi materion gydag oedolion cyfrifol. Mae hon yn rhan arloesol o'r cwricwlwm newydd a'i nod yw sicrhau bod pob person ifanc yng Nghymru yn cael cymorth a chyfle i ddysgu ynghylch materion megis iechyd corfforol, meddyliol ac emosiynol. Caiff dysgu yn y cwricwlwm newydd ei ategu gan ddull ysgol gyfan a bydd yn gynhwysol er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn gweld eu hunain a'i gilydd yn yr hyn y maent yn ei ddysgu am Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

**29F** – Integrate human rights education into mandatory school curricula and teacher training programmes;

Mae'r athroniaeth a'r dull gweithredu yn CCUHP wedi'u hymgorffori ym mhob rhan o'r cwricwlwm newydd: mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ym Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh) y Dyniaethau, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020, yn cynnwys yr angen i ddysgwyr ddeall eu hawliau ac ymgysylltu â'r cysyniad o hawliau yn fwy cyffredinol.

Gan gefnogi hyn, mae canllawiau Cwricwlwm i Gymru, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2022, yn rhoi canllawiau clir ar ddysgu ac addysg hawliau dynol. Maent yn cynnwys cyfeiriadau penodol at hawliau plant a CCUHP ac fe'u datblygwyd mewn cydweithrediad agos â Swyddfa'r Comisiynydd Plant. Bydd yn ofynnol i benaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion ystyried y canllawiau hyn wrth gynllunio, mabwysiadu a gweithredu cwricwlwm sy'n cynnwys dysgu am hawliau plant a CCUHP.

At hynny, gosodwyd dyletswydd ar y canlynol ar y cyd i hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o CCUHP a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau i'w staff addysgu:

- cyrff llywodraethu a phenaethiaid ysgolion a gynhelir ac ysgolion meithrin a gynhelir;
- perchenogion darparwyr addysg feithrin nas cynhelir a ariennir; athrawon sy'n gyfrifol am Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCDau);

- pwyllgorau rheoli UCDau a'r awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am UCDau,
- awdurdodau lleol wth gomisiynu addysg heblaw yn yr ysgol neu UCD. Y ddyletswydd yw hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o CCUHP a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau i'w staff addysgu.

**29G** – Ensure that children with disabilities have access to and benefit from inclusive education, including by making mainstream schools fully accessible.

Mae tegwch a chynhwysiant wrth wraidd diwygiadau i'r system addysg yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno rhaglen o ddiwygiadau addysgol helaeth er mwyn sicrhau system addysg gwbl gynhwysol i blant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Bydd y system hon yn sicrhau y nodir anghenion yn gynnar ac ymdrinnir â nhw yn gyflym a bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael cymorth i gyflawni ei botensial. Caiff plant eu symud yn raddol i'r system ADY newydd rhwng mis Medi 2021 a mis Medi 2024.

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r rheoliadau cysylltiedig, yn darparu'r system statudol ar gyfer diwallu anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn darparu dull gweithredu mwy cynhwysol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n sicrhau bod barn, dymuniadau a theimladau dysgwyr wrth wraidd y broses o gynllunio'r cymorth sydd ei angen i'w galluogi i ddysgu'n effeithiol a chyflawni eu potensial llawn.

Er mwyn helpu i newid arferion, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu rhaglen dysgu proffesiynol genedlaethol ar-lein ar gyfer ADY er mwyn helpu'r gweithlu addysg i ddatblygu ei allu i gefnogi dysgwyr ag ADY. Gall athrawon hefyd ddewis mynd â'u hastudiaethau i lefel uwch drwy ddilyn llwybr ADY ar Radd Meistr Genedlaethol mewn Addysg (Cymru).

O ran mynediad corfforol, mae canllawiau statudol wedi'u diweddaru Llywodraeth Cymru i ysgolion yn rhoi cyngor ar baratoi strategaethau hygyrchedd a chynlluniau hygyrchedd sy'n helpu i sicrhau y caiff plant ag anableddau eu cynnwys yn llawn mewn amgylchedd ysgol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori â rhieni, plant a phobl ifanc ar bob un o gamau datblygu'r system ADY ac wedi gwrando arnynt. Mae newidiadau wedi'u gwneud yn seiliedig ar adborth a gafwyd a bydd gweithgarwch ymgysylltu yn parhau drwy gydol y cyfnod gweithredu. Mae fersiynau amgen o ddogfennau ymgynghori wedi'u llunio, mae digwyddiadau i randdeiliaid wedi'u cynnal ac mae gwaith wedi'i wneud gyda'r trydydd sector yng Nghymru er mwyn sicrhau bod cynifer o blant a phobl ifanc â phosibl wedi cael cyfle i leisio eu barn.



# H. Mesurau amddiffyn arbennig (erthyglau 11, 20, 32, 33, 35, 36, 37 (b)–(d) a 38-40)

## Plant sy'n ceisio lloches, plant sy'n ffoaduriaid a phlant mudol

Disgrifiwch y camau a gymerwyd neu a ragwelir i wneud y canlynol:

**30A** – Assess the impact of the 2016 Immigration Act, including the "deport first, appeal later" scheme, and asylum policy on children's rights and family reunification, in view of the State party's withdrawal from the European Union Dublin III Regulation;

**30B** – Expedite the processing of asylum applications and ensure that all asylum-seeking children are provided with child-friendly services and access to health care and education.

Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am bolisi mewnfudo a lloches, sy'n cynnwys gwneud penderfyniadau ar geisiadau am loches, darparu cymorth a llety i geiswyr lloches a gweithredu cynlluniau adsefydlu ffoaduriaid. Felly, ni all llawer o'r heriau sy'n wynebu'r cymunedau hyn gael eu datrys heb newidiadau i bolisi gan Lywodraeth y DU.

### Cenedl Noddfa – Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches

Mae cynllun 'Cenedl Noddfa' yn amlinellu ehangder y gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud ledled Cymru er mwyn sicrhau bod y cymunedau hyn yn wynebu llai o anghydraddoldeb, bod mynediad at gyfleoedd yn cael ei gynyddu, a bod y berthynas rhwng y cymunedau hyn a'r gymdeithas ehangach yn cael ei gwella. Er bod y cynllun yn cynnwys llawer o gamau gweithredu trawslywodraethol, byddwn yn blaenoriaethu'n benodol faterion allweddol a nodwyd gan ffoaduriaid a cheiswyr lloches wrth i'r cynllun hwn gael ei ddatblygu ac mewn ymateb i Ymchwiliad Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau y Senedd yn 2017.

Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau:

- Y gall ffoaduriaid a cheiswyr lloches gael mynediad at y gwasanaethau iechyd (gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl) sydd eu hangen arnynt trwy gydol y 'siwrnai loches'. Mae hyn yn cynnwys asesiadau iechyd wrth gyrraedd ac yn ystod y cyfnodau gwasgaru ac wedi trawma.
- Bod ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn cael yr wybodaeth a'r cyngor sydd eu hangen arnynt i ddechrau integreiddio i gymdeithas Cymru o'r diwrnod cyntaf.
- Nad yw ceiswyr lloches yn cael eu hatal rhag cael mynediad at gynlluniau priodol Llywodraeth Cymru a fyddai'n eu helpu i integreiddio;
- Bod ffoaduriaid a cheiswyr lloches newydd yn llai tebygol o wynebu amddifadedd.
- Bod pob ffoadur a cheisiwr lloches (yn enwedig plant ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches) yn cael eu diogelu'n briodol ac yn gallu cael gafael ar gefnogaeth eirioli.
- Bod ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn gallu cael mynediad at gyfleoedd addysgol, gan gynnwys sgiliau iaith, i'w helpu i ailadeiladu eu bywydau a chyflawni eu potensial llawn.

### Wcráin

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi pobl Wcráin. Ers dechrau'r rhyfel yn Wcráin mae ein neges wedi bod yn glir – mae Cymru yn Genedl Noddfa ac yn barod i groesawu'r rhai sy'n ffoi rhag rhyfel.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi amrywiaeth eang o gymorth a gwasanaethau ar waith mewn ymateb i'r argyfwng dyngarol sy'n datblygu, gan weithio gyda'n partneriaid mewn llywodraeth leol, y sector Addysg, y sector Iechyd a'r GIG, y trydydd sector a phobl Cymru, y mae eu hymateb i'r argyfwng wedi bod yn wych ac wedi cadarnhau bod Cymru wir yn genedl noddfa.

Rydym yn arbennig o ymwybodol o'r effaith y mae'r argyfwng hwn wedi'i chael ar blant ac y bydd yn ei chael arnynt. Rydym yn deall pa mor bwysig ydyw bod unigolion sy'n cyrraedd o Wcráin yn gallu cael eu hintegreiddio mewn cymunedau lleol yng Nghymru cyn gynted â phosibl a chael amrywiaeth o wasanaethau cymorth cofleidiol. O safbwynt iechyd, mae hyn yn cynnwys cymorth i gael gofal iechyd am ddim ac asesiadau iechyd cychwynnol er mwyn nodi unrhyw anghenion iechyd parhaus a darparu gofal ar eu cyfer. Mae asesiadau iechyd yn cynnwys sgrinio am glefydau trosglwyddadwy.

Gall pob teulu sy'n cyrraedd o Wcráin gofrestru â meddyg teulu a defnyddio gwasanaethau iechyd prif ffrwd – mae hyn yn cynnwys gwasanaethau iechyd meddwl. Caiff cymorth iechyd i'r rhai sy'n cyrraedd o Wcráin ei ddarparu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru i Fyrddau Iechyd ar Iechyd a Llesiant Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid, a gyhoeddwyd yn 2018.

Rydym wedi cyhoeddi canllawiau penodol ar gyfer diogelu a chaethwasiaeth fodern, sy'n rhoi cyngor ac arweiniad i gyrff cyhoeddus yng Nghymru mewn perthynas â chynlluniau fisa i bobl o Wcráin ac maent bellach yn cynnwys cyngor sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a diogelwch ar-lein.

Mae gan bob plentyn yng Nghymru hawl i le mewn ysgol, ni waeth beth fo'i genedligrwydd ac mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar geisiadau am le mewn ysgol ar gyfer plant tramor. Mae'r canllawiau i deuluoedd i'w gweld ar wefan Noddfa ysgolion.

Mae canllawiau helaeth ar gael er mwyn helpu lleoliadau addysg i helpu ysgolion i greu a chynnal amgylchedd dysgu diogel i blant gan gynnwys ein canllawiau statudol, Cadw Dysgwyr yn Ddiogel. Mae'r canllawiau hyn yn ymdrin â darpariaeth ar safleoedd ysgolion swyddogol ac oddi arnynt.

Mae Llywodraeth Cymru yn uwch-noddwr Cartrefi i Wcráin, gan ddarparu llwybr i noddfa i rhwng tair a phedair gwaith yr ymrwymiad gwreiddiol i gefnogi 1,000 o bobl o Wcráin. Rydym yn darparu llety, cymorth a gofal. Mae hefyd yn dileu'r angen i ymgeiswyr gael eu paru ag unigolyn a enwir cyn iddynt gael eu clirio i deithio i'r DU drwy'r system fisa. Mae Canolfannau Croeso wedi'u sefydlu ledled Cymru er mwyn rhoi llety i bobl pan fyddant yn cyrraedd.

Yn y Canolfannau Croeso rydym yn sicrhau bod amrywiaeth o wasanaethau cymorth ar gael; rydym yn cyfeirio at y pecyn cymorth hwn fel cymorth cofleidiol. Mae'r gwasanaethau cofleidiol hyn yn cynnwys mynediad at wasanaethau iechyd (gan gynnwys iechyd meddwl), addysg, cymorth i sefydlu cyfrifon banc a gwneud cais am Gredyd Cynhwysol, cyflwyniad i farchnad lafur y DU a chymorth i ysgrifennu CV neu sicrhau bod cymwysterau yn cael eu cydnabod, cymorth i sicrhau bod eu statws mewnfudo yn ddiogel, cardiau SIM a ffonau clyfar a mwy. Mae gwasanaethau cyfieithu ar gael i bobl nad ydynt yn siarad Saesneg ac mae cyfleoedd i ddechrau dysgu Saesneg – a Chymraeg.

Mae lefel yr ymrwymiad i bobl Wcráin ar draws y gwasanaethau cyhoeddus wedi bod yn sylweddol. Mae'r sefyllfa yn Wcráin a'n hymateb iddi yn newid drwy'r amser a bydd Cymru yn chwarae ei rhan i ymateb i'r sefyllfa heriol hon.

**30C** – Establish statutory independent guardians for all unaccompanied and separated children in England and Wales;

Ers sawl blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio ei chymorth ar feithrin gallu gwasanaethau cymdeithasol statudol y mae dyletswyddau arnynt i ddarparu ar gyfer plant sy'n ceisio lloches drwy ariannu lleoliadau, cyhoeddi amrywiaeth o ganllawiau ac ariannu hyfforddiant.

Mae cymorth ariannol sylweddol wedi cael ei ddarparu, ac mae'n parhau i gael ei ddarparu, mewn perthynas ag eiriolaeth a chymorth cysylltiedig i blant y mae amheuaeth ynghylch eu hoedran drwy'r Rhaglen Hawliau Ceiswyr Lloches a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac a redir gan TGP Cymru a chynllun Gwarcheidiaeth Annibynnol ar Fasnachu Plant a ariennir gan

y Swyddfa Gartref ac a redir gan Barnado's Cymru. At hynny, mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi hawl statudol i eiriolaeth i blant sy'n derbyn gofal gan gynnwys plant sy'n ceisio lloches.

Hefyd, mae amrywiaeth o gymorth hirsefydlog gan y trydydd sector ar gael i blant a theuluoedd sy'n ceisio lloches. Felly, ystyrir bod amrywiaeth dda o gymorth ar gael i blant sy'n ceisio lloches er mwyn eu helpu i ddeall eu hawliau a dygymod â systemau'r wladwriaeth. Rydym yn ymwybodol o gynllun Gwarcheidiaeth yr Alban a gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc Cyngor y Ffoaduriaid yn Lloegr a byddwn yn ystyried y rhain os bydd Cymru yn penderfynu datblygu cynllun gwarcheidwaid i blant yma. Mae'n debygol y byddai unrhyw gymorth ychwanegol yn canolbwyntio ar gymorth cyfreithiol mewn perthynas â'r broses ceisio lloches.

### Plant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches

Yng Nghymru, mae gwahanol fathau o ofal a chymorth ar gael i blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches, a ddarperir gan sefydliadau statudol a sefydliadau yn y Trydydd sector. O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae'n ofynnol i wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol weithredu er budd pennaf y plant y maent yn eu gwasanaethu a rhoi sylw dyledus i hawliau'r plant hynny. Mae'r Ddeddf yn ymgorffori CCUHP mewn cyfraith ddomestig ac mae Rhan 6 o'r Ddeddf, sy'n darparu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya, yn gymwys i blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches. Mae Cymru yn trin y plant hyn fel petai ganddynt yr un hawliau â phlant sy'n derbyn gofal a aned yng Nghymru a'r DU.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau clir mewn perthynas â'r rhai sy'n darparu swyddogaethau oddi tani, eu bod yn sicrhau bod barn, dymuniadau a theimladau plentyn neu berson ifanc yn cael eu clywed a bod ei anghenion diwylliannol, crefyddol ac ieithyddol yn cael eu diwallu. Pan fydd plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches yn gadael gofal ac yn dod yn unigolion sy'n gadael gofal, mae ganddynt hawl i gael cymorth gan Gynghorydd Personol hyd at 25 oed (ar yr amod eu bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth). Mae gan blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches hawl i eiriolwr, hawl bellach a roddir iddynt gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Cod Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth).

Yng Nghymru, mae gwasanaeth Gwarcheidiaeth Annibynnol ar Fasnachu Plant (ICTG) wedi bod yn gweithredu'n genedlaethol ers 2017. Mae'r gwasanaeth hwn o dan gontract gan y Swyddfa Gartref ond cynrychiolir Llywodraeth Cymru ar fwrdd llywio'r ICTG. Mae'r gwasanaeth hwn, a redir gan Barnado's, ond yn cefnogi plant sydd wedi'u masnachu, yn wahanol i Wasanaeth Gwarcheidiaeth yr Alban (sy'n trosglwyddo i wasanaeth ICTG yn yr Alban), sydd hefyd yn darparu cymorth i blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches.

Mae plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches yng Nghymru yn cael cymorth drwy'r Rhaglen Hawliau Ceiswyr Lloches a ariennir gan Lywodraeth Cymru, sy'n cynnwys cyllid ar gyfer Rhaglen Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid Ifanc TGP Cymru. Mae ganddynt hawl i gael gwasanaethau eirioli hefyd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae hyn yn sicrhau bod gan bobl ifanc a phlant yr hawl i eiriolaeth gan Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol Statudol pan fyddant yn dod yn blant sy'n derbyn gofal neu'n destun ymholiadau amddiffyn plant sy'n arwain at Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol. At hynny, mae gan bob plentyn sydd â chynllun gofal a chymorth hawl i gael gwasanaethau eirioli a bydd ei weithiwr cymdeithasol yn trafod hyn yn uniongyrchol ag ef.

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru a Chanllawiau Ymarfer Cymru Gyfan yn hyrwyddo ymarfer diogelu cyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn asiantaethau yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys cyngor ar ystyried anghenion penodol plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches o ran eu diogelu rhag cael eu cam-drin drwy gamfanteisio.

Ariannodd Llywodraeth Cymru gyfres o grwpiau ffocws a gynhaliwyd gan Bartneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru ac Achub y Plant gyda phlant sy'n ceisio lloches er mwyn clywed am eu profiadau o fywyd yng Nghymru. Rydym hefyd yn clywed gan Grŵp Cyfranogiad plant sy'n ceisio lloches TGP Cymru.

## Gweinyddu cyfiawnder plant

Esboniwch y camau a gymerwyd neu a ragwelir, ym mhob un o'r gweinyddiaethau datganoledig, tiriogaethau tramor a dibyniaethau'r Goron, i wneud y canlynol:

**31A** – Raise the age of criminal responsibility to at least 14 years;

**31B** – Ensure the application of the child justice system to all children, in particular that children are not detained with adults and that it extends protection to children who were below the age of 18 at the time of the offence but who turned 18 during the trial or sentencing process;

**31C** – Abolish life imprisonment for children for offences committed while they were under the age of 18 and ensure that imprisonment is used only as a measure of last resort and for the shortest possible period;

**31D** – ensure and support the right of children accused of crimes to effective legal representation and participation throughout the child justice process;

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi dull gweithredu adsefydlol sy'n canolbwyntio ar y plentyn ar gyfer cyfiawnder ieuenctid, sy'n canolbwyntio ar ddulliau atal sy'n ystyriol o drawma. Rydym yn cydnabod, er mwyn mynd i'r afael â'r cylch troseddu sy'n pontio cenedlaethau ac effaith profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, fod angen inni ganolbwyntio ar gymorth a diwallu anghenion plant a phobl ifanc, nid ar ddulliau cosbol o ymdrin â chyfiawnder.

Mae ein dogfen, Sicrhau Cyfiawnder i Gymru, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2022, yn amlinellu cwmpas ein gwaith ar gyfiawnder a'n hymateb cyffredinol i Gomisiwn Thomas. Mae'n amlinellu'r gwaith rydym yn ei wneud, gan gynnwys drwy'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid, er mwyn hyrwyddo dull gweithredu ystyriol o drawma sy'n canolbwyntio ar y plentyn ar gyfer cyfiawnder ieuenctid ym mhob rhan o'r system. Mae hefyd yn amlinellu'r trafodaethau rydym yn eu datblygu gyda Llywodraeth y DU ynghylch cyfiawnder.

Rydym wedi datblygu proses flaenoriaethu gyda Llywodraeth y DU er mwyn adolygu holl argymhellion Comisiwn Thomas nad oeddent yn cynnwys trosglwyddo'r holl gyfrifoldeb am y system cyfiawnder, er mwyn nodi'r argymhellion y gellid gweithredu arnynt mewn partneriaeth. Mae enghreifftiau o feysydd rydym wedi'u codi drwy'r trafodaethau hyn yn cynnwys y modd y mae'r system cyfiawnder ieuenctid yn gweithredu ac oedran cyfrifoldeb troseddol yng Nghymru. Rydym yn parhau i obeithio y byddwn yn gallu gwneud rhywfaint o gynnydd drwy sgyrsiau ar lefelau swyddogol a gweinidogol ac ymgysylltu ar y cyd â rhanddeiliaid.

Yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, bu lleihad sylweddol yn nifer y plant a arestiwyd, a gafwyd yn euog o droseddau ac a gafodd ddedfryd o gyfnod dan gadw. Mae'r rhai sy'n dal i fod yn y system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru yn aml yn dod o'r cefndiroedd mwyaf difreintiedig ac mae gan lawer anghenion cymhleth gan gynnwys anawsterau dysgu a phroblemau iechyd meddwl ac maent yn aml yn ddioddefwyr troseddau eu hunain. Er mwyn gwella canlyniadau llesiant ar gyfer gwasanaethau cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru, rhaid inni gydweithio i wneud y canlynol:

- trawsnewid bywydau plant sydd wedi profi adfyd ac sydd mewn perygl o ymddygiad hunan-niweidiol a phrofi camfanteisio troseddol;
- lleihau nifer y dioddefwyr troseddau ieuenctid a gwella cymorth i'r rhai sy'n ddioddefwyr (gan gynnwys y rhai sy'n troseddu).

Mae hyn yn gofyn am gydweithrediad agos rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a'r gwasanaethau yn eu meysydd cymhwysedd gweithredol. Mae'r dull system gyfan hwn yn hanfodol i sicrhau bod gan blant sy'n rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid neu sydd mewn perygl o ddod yn rhan ohoni fynediad at y gwasanaethau sy'n gweithredu er eu budd pennaf, nad ydynt yn wahaniaethol, sy'n eu

hannog i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt ac sy'n sicrhau y gallant arfer eu hawliau.

Caiff Panel Cynghori Cymru ar Gyfiawnder Ieuenctid (WYJAP) ei gynnull ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Ei brif ddiben yw cynorthwyo Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i weithredu polisi sy'n atal troseddu ac aildroseddu ymhlith plant a phobl ifanc yng Nghymru, a darparu swyddogaeth graffu a chefnogaeth i weithredu ei Lasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid.

**31E** – Address the large number of children in pretrial detention and the disproportionate representation of children belonging to ethnic minority groups in custody, such as by implementing the recommendations of the Lammy Review;

Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru yn cynnwys pennod ar droseddu a chyfiawnder, sy'n nodi'r camau rydym yn eu cymryd i fynd i'r afael â hiliaeth yn y system gyfiawnder ac atal troseddau casineb o bob math. Gan adeiladu ar hyn, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â'r sector plismona yng Nghymru ac asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill i ddatblygu Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth penodol ar gyfer Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru, a fydd yn mabwysiadu dull heriol a radical o wella canlyniadau a mynd i'r afael â hiliaeth systemig. Ein nod cyffredinol yw y bydd pawb a ddaw i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol yn cael eu trin yn gyfartal ac yn cael canlyniadau cyfartal, ni waeth beth fo'u hethnigrwydd. Rydym yn parhau i ddefnyddio ein dylanwad ble bynnag y gallwn er mwyn sicrhau newidiadau systemig a gwella canlyniadau i bobl Cymru.

**31F** – Prohibit the use of solitary confinement of children and abolish the use of segregation and isolation in child detention facilities;

**31G** – Ensure that children in detention have access to education and health services, including mental health services;

**31H** – Investigate cases of violence, including sexual abuse, reported by children in the child justice system, in view of the 2019 report of the independent inquiry on sexual abuse of children in custodial institutions in England and Wales.

Mae gan blant yn y system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru hawl i'r un ymateb diogelu â'u cyfoedion o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)) 2014 a Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Nodir yr hawliau hyn yn Cod Ymarfer Rhan 11 a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf.

Er nad yw cyfiawnder ieuenctid wedi'i ddatganoli i Gymru, mae'r Glasbrintiau ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid a Throseddwyr Benywaidd, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2019, yn nodi ein dull o ddarparu gwasanaethau cyfiawnder yng Nghymru. Mae ffocws clir ar ymyrraeth gynnar ac atal, un sy'n canolbwyntio ar y ffordd rydym yn darparu cymorth er mwyn troi pobl i ffwrdd o droseddu yn y lle cyntaf, ond hefyd un sy'n mabwysiadu dull cyfannol ac adsefydlol o ymdrin â'r rhai sy'n llithro drwy'r rhwyd.

Mae'r Glasbrintiau yn mabwysiadu dull system gyfan sy'n ystyried Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth gynllunio gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid i Gymru. Mae'n nodi'r uchelgais i greu system seiliedig ar hawliau sy'n ystyriol o drawma, a fydd yn helpu gwasanaethau i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i blant yng Nghymru.



## I. Protocol Dewisol ar werthu plant, puteindra plant a phornograffi plant

Disgrifiwch y camau a gymerwyd i roi argymhellion blaenorol y Pwyllgor ar waith mewn perthynas â gweithredu'r Protocol Dewisol ar werthu plant, puteindra plant a phornograffi plant (CRC/C/GBR/CO/5 a Corr.1, para. 83), lle cyfeiriodd y Pwyllgor hefyd at ei argymhellion manylach ar yr adroddiad cychwynnol a gyflwynwyd i'r Wladwriaeth sy'n Barti o dan y Protocol Dewisol (CRC/C/OPSC/GBR/CO/1), gan gynnwys mesurau i wneud y canlynol:

**32A** – Revise its legislation to ensure that all children under 18 years are protected from all types of offences covered by the Optional Protocol;

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r canllawiau statudol ategol yn darparu ar gyfer fframwaith diogelu cryfach er mwyn sicrhau y caiff plant eu diogelu rhag camfanteisio rhywiol a cham-drin rhywiol.

Cyhoeddwyd Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 7, Diogelu Plant rhag Camfanteisio Rhywiol ar 18 Mawrth 2021 ac mae'n nodi gofynion ar bartneriaid diogelu a chyngor ar atal Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, diogelu plant rhag camfanteisio rhywiol ac ymateb i blant sydd wedi cael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol.

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn cefnogi arferion diogelu cyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn asiantaethau a ledled Cymru ac yn esbonio dyletswyddau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae nifer o Ganllawiau Ymarfer Cymru Gyfan wedi'u cyhoeddi. Mae hyn yn cynnwys canllaw amlasiantaethol, sef Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan – diogelu plant rhag camfanteisio rhywiol. Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan ar ddiogelu plant sy'n mynd ar goll o'r cartref neu o ofal, plant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt, diogelu plant rhag cam-drin ar-lein, diogelu plant a all fod wedi'u masnachu a diogelu plant lle mae pryderon ynghylch ymddygiad rhywiol niweidiol.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol ym mis Gorffennaf 2019. Mae'r cynllun yn cynnwys camau gweithredu ar gyfer atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol gan gynnwys camfanteisio'n rhywiol ar blant ac ymddygiad rhywiol niweidiol.

Nod Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yw gwella ymateb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru i gamdriniaeth a thrais o'r fath a bu'n destun craffu trylwyr drwy'r broses ddeddfwriaethol. Byw Heb Ofn

Ym mis Mai 2022, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: strategaeth 2022 i 2026, sef yr ail strategaeth i'w chwblhau o dan y ddyletswydd a sefydlwyd gan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, sy'n nodi'r dull gweithredu a gaiff ei fabwysiadu gan Lywodraeth Cymru a etholwyd ym mis Mai 2021, a bydd yn cwmpasu'r cyfnod hyd at ddiwedd y weinyddiaeth hon yn 2026.

Mae'r Cynllun gweithredu diogelwch ar-lein cenedlaethol i blant a phobl ifanc yng Nghymru yn nodi sut mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio ag athrawon, rhieni a gofalwyr, dysgwyr a phartneriaid priodol ledled Cymru i gadw ein plant a'n pobl ifanc yn ddiogel ar-lein. Adolygir y cynllun bob blwyddyn gan dimau polisi, er mwyn nodi camau gweithredu a gyflawnwyd ac unrhyw gamau gweithredu newydd.

**32B** – Strengthen the National Referral Mechanism for identifying child victims of trafficking and exploitation, which is embedded in existing child protection procedures;

Mae Llywodraeth Cymru o blaid gwella'r broses o adnabod plant sydd wedi cael eu masnachu ac wedi dioddef camfanteisio yn y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol, yn unol â gweithdrefnau diogelu plant presennol. Nid yw caethwasiaeth fodern yn gyfrifoldeb datganoledig ond gwasanaethau datganoledig yng Nghymru sy'n gyfrifol am ddarparu llawer o'r cymorth i ddioddefwyr a goroeswyr. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda phartneriaid yng Nghymru, yn ogystal â'r Swyddfa Gartref a gweinyddiaethau datganoledig eraill, er mwyn mynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern a chefnogi goroeswyr.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid er mwyn sicrhau bod llais plant a phobl ifanc yn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu polisi cyhoeddus. Rydym yn gweithio'n agos gyda Barnado's Cymru, sy'n aelod o Grŵp Arwain Atal Caethwasiaeth Cymru, ar gefnogi plant sy'n ddioddefwyr ac yn oroeswyr. Cyfrannodd Llywodraeth Cymru at yr adroddiad ar Ymatebion Ymarferwyr i Fasnachu Plant: Arferion Da sy'n Dod i'r Amlwg, a gomisiynwyd gan y Comisiynydd Atal Caethwasiaeth ar y pryd, y Fonesig Sara Thornton, mewn partneriaeth â Cumberland Lodge, ac a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2022.

**32C** – Protect the rights of child victims of offences covered by the Optional Protocol by establishing a clear obligation of non-prosecution, ensuring that they are treated as victims rather than criminals by law enforcement and judicial authorities, and establishing Independent Child Trafficking Guardians in all devolved administrations.

Roedd Cymru yn safle mabwysiadu cynnar ar gyfer Gwasanaeth Gwarcheidiaeth Annibynnol ar Fasnachu Plant, a ariennir gan y Swyddfa Gartref ac a redir gan Barnardo's Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'n partneriaid ledled Cymru ar gymorth i blant sydd wedi dioddef caethwasiaeth fodern, gan gydnabod bod angen darparu cymorth parhaus er mwyn iddynt adfer ac integreiddio i gymdeithas gyda'r sgiliau a'r cyfleoedd i gyflawni eu potensial.

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn cefnogi arferion diogelu cyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn asiantaethau a ledled Cymru. Maent yn cynnwys Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan ar ddiogelu plant a all fod wedi'u masnachu, sy'n nodi bod 'masnachu plant yn ffurf ar gam-drin plant sy'n gofyn am ymateb i amddiffyn plant'. Mae Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan ar ddiogelu plant rhag camfanteisio rhywiol a chamfanteisio troseddol ar blant yn nodi natur gydgysylltiedig cam-drin plant a masnachu plant ac yn datgan yn glir fod angen diogelu a hyrwyddo llesiant plant.